

Ymateb y Llywodraeth i'r Ymchwiliad Gwaed Heintiedig



Ymateb y Llywodraeth i'r Ymchwiliad Gwaed Heintiedig

Cyflwynwyd i'r Senedd

gan Weinidog Swyddfa'r Cabinet

trwy Orchymyn Ei Fawrhydi

Mai 2025



© Hawlfraint y Goron 2025

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0, ac eithrio pan nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch [inationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3](https://nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3).

Pan fyddwn wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom ni yn public.correspondence@cabinetoffice.gov.uk.

ISBN 978-1-5286-5693-1

E03353959 05/25

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 40% o ffibr wedi'i ailgylchu

Argraffwyd yn y DU gan HH Associates Ltd. ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi

Mynegai

Tudalen Cynnwys

2 - 3	Rhagair y Gweinidog
4 - 7	Cyflwyniad a Chefndir
8 - 10	Crynodeb o ymateb y Llywodraeth i argymhellion adroddiad Ymchwiliad Mai 2024

Diweddariad ar ymatebion y Llywodraeth i'r 12 argymhelliad

11 - 21	Argymhelliad 1: Cynllun lawndal
22 - 24	Argymhelliad 2: Cydnabod a chofio'r rhai fu farw
25 - 27	Argymhelliad 3: Dysgu o'r Ymchwiliad
28 - 42	Argymhelliad 4: Atal niwed i gleifion yn y dyfodol: sicrhau diwylliant o ddiogelwch
43 - 45	Argymhelliad 5: Dod â diwylliant amddiffynnol i ben yn y Gwasanaeth Sifil a'r llywodraeth
46 - 50	Argymhelliad 6: Monitro niwed i'r iau/afu i'r rhai a oedd wedi'u heintio â Hepatitis C
51 - 59	Argymhelliad 7: Diogelwch Cleifion: Trallwysiadau gwaed
60 - 61	Argymhelliad 8: Dod o hyd i'r rhai sydd heb ddiagnosis
62 - 66	Argymhelliad 9: Amddiffyn diogelwch gofal haemoffilia
67 - 72	Argymhelliad 10: Rhoi llais i gleifion:
73 - 74	Argymhelliad 11: Ymateb i alwadau am ymchwiliad cyhoeddus
75 - 76	Argymhelliad 12: Gweithredu Argymhellion yr Ymchwiliad hwn
77	Dolenni defnyddiol

Rhagair y Gweinidog

Ers cyhoeddi adroddiad yr Ymchwiliad Gwaed Heintiedig ym mis Mai 2024, mae llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig wedi bod yn ystyried yr argymhellion a wnaed gan yr Ymchwiliad, ac yn gweithio i ddeall pa gynnydd y gellir ei wneud i sicrhau na all sgandal o'r maint hwn ddigwydd eto.

Hoffem i gyd ailadrodd ein hymddiheuriad llwyr a chllir ar ran llywodraethau presennol a blaenorol i bob unigolyn y mae'r sgandal hon wedi effeithio arno. Rydym yn glir na all unrhyw beth o'r math hwn ddigwydd eto, ond er mwyn i hyn olygu mwy na dim ond geiriau, rhaid cymryd camau pendant. Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo £11.8bn yn y Gyllideb, a ddarparwyd ar 30 Hydref 2024, i gyflawni'r Cynllun Iawndal Gwaed Heintiedig. Mae 12 argymhelliad Syr Brian Langstaff yn cynnig llwybr clir i weithredu pellach a byddwn yn nodi'r cynnydd y mae pedair gweinyddiaeth y DU wedi'i wneud wrth ymateb i'r argymhellion hyn.

Mae'r DU a'r llywodraethau datganoledig wedi derbyn argymhellion yr Ymchwiliad yn llawn neu wedi'u derbyn mewn egwyddor, yn unol â'r canllawiau clinigol a'r canllawiau gofal seiliedig ar dystiolaeth diweddaraf. Mae'r gwaith yn mynd rhagddo yn Adrannau'r Llywodraeth Ganolog, Cyrff Hyd Braich a lleoliadau gofal ieuchyd. Pan dderbynnir argymhellion mewn egwyddor, rydym wedi ceisio egluro'r rhesymeg dros wneud hynny; gan gydbwyso'r gwaith o gytuno ag ysbryd yr argymhellion â'r angen i osgoi canlyniadau anfwriadol. Bydd rhai yn amodol ar benderfyniadau gwario'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn y dyfodol.

Heddiw, ein cyflenwad gwaed yw un o'r rhai mwyaf diogel yn y byd ac mae gwasanaethau gwaed y DU sy'n gweithio gyda'i gilydd yn hunangynhaliol o ran cyflenwi gwaed a chydannau gwaed diogel. Mae'r GIG yn destun mwy o oruchwyliaeth a rheoleiddio, gyda sylw modern ar ddiogelwch cleifion, meddygaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth a defnyddio data, a chyfansoddiad sy'n nodi hawliau pob un ohonom i gael gafael ar ofal a thriniaeth, yn rhad ac am ddim.

Yr hyn na ellir dadlau yn ei gylch, fodd bynnag, yw bod angen gwneud llawer mwy o hyd. Nid yw gwneud y newidiadau angenrheidiol yn dasg hawdd, ac nid yw'n rhywbeth y gellir ei wneud ar ei ben ei hun. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth geisio gweithredu newid systemig a diwylliannol. Rydym yn glir bod yn rhaid parhau i yrru'r gwaith o weithredu'r argymhellion a wnaed gan yr Ymchwiliad yn ei flaen. Wrth i gynnydd barhau, bydd arweinwyr perthnasol y llywodraeth yn adrodd ar yr argymhellion y maent yn gyfrifol amdanynt. Rydym wedi ymrwymo i dryloywder ac atebolrwydd, a byddwn yn cyhoeddi cynnydd y Llywodraeth drwy ddangosfwrdd sydd ar gael i'r cyhoedd maes o law, a fydd yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd wrth i gynnydd fynd rhagddo.

Rydym yn benderfynol o ddysgu o gamgymeriadau'r gorffennol a'u hosgoi, a symud o'r diwylliant amddiffynnol a ganiataodd i'r sgandal hon gynyddu. Rydym wedi ymrwymo i feithrin diwylliant o ddiwylliedd a gonestrwydd, er mwyn i bobl y DU allu rhoi eu hyder mwyaf yn y sefydliadau a'r bobl sy'n eu gwasanaethu, gan sicrhau newid go iawn a pharhaol.

Tâl-feistr Cyffredinol EF a Gweinidog Swyddfa'r Cabinet, y Gwir Anrhydeddus Nick Thomas-Symonds AS

Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Iechyd y Cyhoedd ac Atal, Ashley Dalton AS

Gweinidog Iechyd y Cyhoedd ac Iechyd Menywod, Jenni Minto MSP, Llywodraeth yr Alban

Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Jeremy Miles AS, Llywodraeth Cymru

Y Gweinidog Iechyd, Mike Nesbitt MLA, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon

Cyflwyniad a Chefndir

Roedd yr Ymchwiliad i Waed Heintiedig, dan arweiniad Syr Brian Langstaff, yn rhoi unigolion wrth galon ei waith, gan ymgysylltu'n agos â'r rheini sydd wedi'u heintio ac y mae gwaed a chynhyrchion gwaed halogedig wedi effeithio arnynt ar y GIG ledled y DU. Ceisiodd ddeall nid yn unig yr hyn a wnaed, ond hefyd yr hyn y dylid bod wedi'i wneud, gan graffu ar rolau'r holl benderfynwyr, gan gynnwys yn y llywodraeth, y GIG a chwmnïau fferyllol. Dros gyfnod o saith mlynedd, mae'r Ymchwiliad wedi gwneud y canlynol:

- Adolygu'r amgylchiadau pan roddwyd gwaed heintiedig a chynhyrchion gwaed heintiedig i ddynion, menywod a phlant a oedd yn cael eu trin gan y Gwasanaethau Iechyd Gwladol yn y Deyrnas Unedig, yn benodol, rhwng 1970 a 1998;
- Canfod (cyn belled ag y bo'n ymarferol) nifer tebygol y bobl sydd wedi'u heintio (yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol);
- Archwilio, yn ogystal â'r frysau y gwyddys bod pobl wedi'u heintio ganddynt, a allai pobl fod wedi dod i gysylltiad â'r risg o glefydau eraill;
- Ystyried effaith haint o waed neu gynnyrch gwaed ar bobl a oedd wedi'u heintio ac yr effeithiwyd arnynt;
- Archwilio ymateb y Llywodraeth a chyrff perthnasol eraill;
- Archwilio a gafodd pobl eu trin neu eu profi neu a gofnodwyd eu statws heintio heb wybodaeth na chydysyniad, ac i ba raddau;
- Archwilio natur a digonolrwydd yr wybodaeth a ddarparwyd i bobl a oedd wedi'u heintio ac yr effeithiwyd arnynt;
- Ystyried natur a digonolrwydd y driniaeth, y gofal a'r cymorth a ddarparwyd i bobl a gafodd eu heintio ac yr effeithiwyd arnynt;
- Archwilio a fu ymdrechion i guddio manylion yr hyn a ddigwyddodd ac a fu diffyg didwylledd neu onestrwydd yn ymateb y Llywodraeth a chyrff eraill;
- Nodi unrhyw gyfrifoldeb unigol yn ogystal â methiannau sefydliadol a systematig; a hefyd
- Gwneud argymhellion interim a therfynol i Lywodraeth y DU.

Mae pedair gweinyddiaeth y DU wedi cydweithio ar draws y materion hyn ledled y DU, ac ni ellir edrych ar yr argymhellion ar eu pen eu hunain. Gyda'n gilydd, rydym wedi gweithio i nodi gwahaniaethau mewn arferion presennol, a sut i fwrw ymlaen ag argymhellion yr Ymchwiliad i sicrhau ymateb mor gyson â phosibl.

Mae teulu Gofal Iechyd y DU, gan gynnwys yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC), GIG Lloegr, Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG (NHSBT), Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU, ac eraill wedi cydweithio i adolygu canfyddiadau ac argymhellion clinigol yr adroddiad. Ers mis Mai 2024, mae'r cyrff cyhoeddus hyn

wedi gweithio i sefydlu pa argymhellion y gellir eu rhoi ar waith, i ba raddau a pha mor gyflym.

Mae Llywodraeth yr Alban wedi sefydlu Grŵp Goruchwyllo a Sicrwydd sy'n cynnwys cynrychiolwyr cleifion, Byrddau Iechyd a chyrff eraill y GIG i ystyried a chytuno ar y ffordd orau o wneud cynnydd ar yr argymhellion ar gyfer yr Alban. Mae'r grŵp hwn yn gweithio gydag amrywiaeth o sefydliadau, yn yr Alban ac mewn mannau eraill yn y DU, i fwrw ymlaen ag argymhellion yr Ymchwiliad.

Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Grŵp Goruchwyllo Argymhellion, dan gadeiryddiaeth ei Dirprwy Brif Swyddog Meddygol Gwasanaethau Iechyd, i ystyried y ffordd orau o fwrw ymlaen â'r argymhellion fel y maent yn berthnasol i Gymru a'r DU yn ehangach. Mae'r aelodau'n cynnwys cynrychiolwyr o Fyrddau Iechyd Cymru, Gwasanaeth Gwaed Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, y Cydbwyllgor Comisiynu a Haemophilia Wales.

Yng Ngogledd Iwerddon, mae'r Adran Iechyd wedi sefydlu Tîm Gweithredu Ymchwiliad Gwaed Heintiedig i gefnogi'r gwaith canolog o gydlynu'r gwaith o weithredu argymhellion Adroddiad terfynol yr Ymchwiliad, gan adrodd i Fwrdd Rheoli Rhaglen Gweithredu Ymchwiliadau, dan gadeiryddiaeth Ysgrifennydd Parhaol yr Adran.

Mae Grŵp Rhanbarthol yr Ymchwiliad Gwaed Heintiedig hefyd wedi cael ei sefydlu i gefnogi'r rhaglen waith hon, gan ddod ag arweinwyr polisi a chlinigol o'r Adran Iechyd a'r sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol ehangach at ei gilydd, gan gynnwys Ymddiriedolaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Gwasanaeth Trallwyso Gwaed Gogledd Iwerddon (NIBTS) a Phwyllgor Trallwyso Gogledd Iwerddon (NITC).

Adroddiad Interim Cyntaf yr Ymchwiliad Gwaed Heintiedig

Roedd adroddiad Interim Cyntaf yr Ymchwiliad Gwaed Heintiedig yn canolbwyntio ar yr angen am daliadau interim. Argymhellodd Syr Brian Langstaff y dylid talu taliad interim o ddim llai na £100,000 i bawb sydd wedi'u heintio a phob partner mewn profedigaeth sydd wedi cofrestru ar hyn o bryd ar gynlluniau cymorth gwaed heintiedig yn y DU, yn ogystal â'r rheini sy'n cofrestru cyn dechrau cynllun yn y dyfodol.

Ar 17 Awst 2022, cyhoeddodd Llywodraeth flaenorol y DU y byddai taliad iawndal interim o £100,000 yn cael ei dalu i liniaru dioddefaint uniongyrchol buddiolwyr wedi'u heintio a buddiolwyr partneriaid sydd mewn profedigaeth pedwar Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig y DU, gan aros am ymateb Llywodraeth y DU i unrhyw argymhellion pellach gan yr Ymchwiliad Gwaed Heintiedig yn ei adroddiad ym mis Mai 2024. Dechreuodd y taliadau fis Hydref 2022, gydag oddeutu £440 miliwn yn cael ei dalu drwy'r taliadau interim hyn erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2022/23.

Roedd y taliadau hyn yn bodloni'r argymhellion a wnaed yn yr Adroddiad Interim Cyntaf yn llawn.

Ail Adroddiad Interim yr Ymchwiliad Gwaed Heintiedig

Roedd Ail Adroddiad Interim yr Ymchwiliad Gwaed Heintiedig yn ymwneud â'r fframwaith ar gyfer iawndal. Fe'i cyhoeddwyd ar 5 Ebrill 2023 ac roedd yn cynnwys 18 o argymhellion. Cyhoeddodd y Llywodraeth grynoded o'r Cynllun iawndal Gwaed Heintiedig arfaethedig ym mis Awst 2024. Er mwyn bod yn gyflawn, mae safbwynt Llywodraeth y DU ar iawndal wedi'i nodi yn y diweddariad hwn, gan ddefnyddio'r Ail Adroddiad Interim fel fframwaith i gymharu.

Mae'n bwysig pwysleisio bod safbwynt terfynol y Llywodraeth ar iawndal yn seiliedig nid yn unig ar yr Ail Adroddiad Interim, ond hefyd ar y safbwyntiau a gyrhaeddwyd mewn dadleuon Seneddol drwy hynt Deddf Dioddefwyr a Charcharorion 2024, yn ogystal â chanfyddiadau'r ymarfer ymgysylltu â chynrychiolwyr y gymuned gwaed heintiedig dan arweiniad Cadeirydd Dros Dro'r Awdurdod iawndal am Waed Heintiedig, sef Syr Robert Francis, yn dilyn cyhoeddiadau ar iawndal ym mis Mai 2024. Mae ymateb y Llywodraeth hefyd wedi cael ei lywio gan waith Grŵp Arbenigol y Llywodraeth sy'n cynnwys clinigwyr, arbenigwyr cyfreithiol a gofal cymdeithasol, sydd wedi rhoi cyngor technegol ar draws yr amrywiaeth o argymhellion a wnaed gan Syr Robert Francis.

O ganlyniad, mae elfennau o'r Cynllun sy'n mynd y tu hwnt i argymhellion Syr Brian neu'n gwyro oddi wrthynt. Pan fydd hyn yn digwydd, rydym wedi tynnu sylw at y newid ac wedi nodi'r rhesymeg yn ein hymateb.

Adroddiad yr Ymchwiliad Gwaed Heintiedig - Mai 2024

Ar 20 Mai 2024, cyhoeddodd yr Ymchwiliad Gwaed Heintiedig ei adroddiad 'Mai 2024'. Siaradodd y Prif Weinidog, y Gwir Anrhydeddus Keir Starmer AS, yn Nhŷ'r Cyffredin i ymateb i gyhoeddi adroddiad mis Mai 2024, gan ymddiheuro am fethiant cyfunol y wladwriaeth i amddiffyn dioddefwyr y sgandal gwaed heintiedig. Dywedodd y Prif Weinidog 'rhaid inni adfer yr ymdeimlad bod hon yn wlad sy'n gallu cywiro anghyfiawnder', ac mae'r Llywodraeth wedi gweithio i sicrhau bod yr ymateb i argymhellion yr adroddiad yn cael ei wneud yn yr ysbryd hwnnw.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys 12 argymhelliad, ac mae'r cyntaf ohonynt yn ailadrodd yr argymhellion a wnaed ynghylch iawndal yn yr Ail Adroddiad Interim. Manylir ar y 12 argymhelliad isod gyda diweddariad ar ymateb y Llywodraeth.

Crynodeb o ymateb y Llywodraeth i argymhellion adroddiad Ymchwiliad Mai 2024

Yn gyffredinol, rydym wedi ymateb i 12 argymhelliad a wnaed gan Syr Brian Langstaff yn ei adroddiad ym mis Mai 2024, a'r 18 argymhelliad a wnaed gan yr Ymchwiliad yn yr Ail Adroddiad Interim, yn seiliedig ar Astudiaeth lawndal Syr Robert Francis.

Lle **derbynnir argymhellion mewn egwyddor**, mae'r Llywodraeth yn cydnabod y rhesymeg dros gamau gweithredu ac eisiau sicrhau newid. Fodd bynnag, mae angen gwneud rhagor o waith i ddeall goblygiadau gweithredu argymhellion cymhleth yn llawn, y costau tymor hir dan sylw, ac i ddeall yn well lle gall rhaglenni gwaith presennol gyflawni'r canlyniad a argymhellir, yn hytrach na'r dull penodol a nodir gan yr Ymchwiliad. Mae'r argymhellion yr ydym yn eu derbyn mewn egwyddor yn gymhleth ac yn bellgyrhaeddol, a gallai rhuthro i'w cyflawni arwain at ganlyniadau andwyol anfwriadol y mae'r Llywodraeth yn dymuno eu hosgoi.

Mae holl weinyddiaethau'r DU wedi cytuno ar yr ymateb hwn a phan nad yw'r argymhellion yn berthnasol i'r DU gyfan (ond yn hytrach i lywodraethau datganoledig fynd i'r afael â nhw'n unigol) rydym wedi nodi cynnydd ymateb pob llywodraeth.

Y dull a ddefnyddiwyd	Argymhelliad
Derbyn yn llawn	Argymhelliad 1
	Argymhelliad 2
	Argymhelliad 3
	Argymhelliad 4a) i)
	Argymhelliad 4a) ii)
	Argymhelliad 4a) iii)
	Argymhelliad 4c) i) (a dderbyniwyd mewn egwyddor gan Lywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon)
	Argymhelliad 4c) ii) (a dderbyniwyd mewn egwyddor gan Lywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon)

Y dull a ddefnyddiwyd	Argymhelliad
	Argymhelliad 4e)
	Argymhelliad 6c) i) (a dderbyniwyd mewn egwyddor gan Weithrediaeth Gogledd Iwerddon)
	Argymhelliad 6a) iii) (a dderbyniwyd mewn egwyddor gan Weithrediaeth Gogledd Iwerddon)
	Argymhelliad 6a) iv) (a dderbyniwyd mewn egwyddor gan Lywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon)
	Argymhelliad 6a) vi) (a dderbyniwyd mewn egwyddor gan Weithrediaeth Gogledd Iwerddon)
	Argymhelliad 7a) ii) (a dderbyniwyd mewn egwyddor gan Weithrediaeth Gogledd Iwerddon)
	Argymhelliad 7a) iii)
	Argymhelliad 8 (a dderbyniwyd mewn egwyddor gan Weithrediaeth Gogledd Iwerddon)
	Argymhelliad 9a) (a dderbyniwyd mewn egwyddor gan Weithrediaeth Gogledd Iwerddon)
	Argymhelliad 10a) ii) (a dderbyniwyd mewn egwyddor gan Lywodraeth Cymru a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon)
	Argymhelliad 10a) iii) (a dderbyniwyd mewn egwyddor gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon)
	Argymhelliad 10a) v)
	Argymhelliad 12a)
	Argymhelliad 12b)
	Argymhelliad 12c)
Derbyn mewn egwyddor	Argymhelliad 4a) iv)
	Argymhelliad 4a) v)
	Argymhelliad 4b)

Y dull a ddefnyddiwyd	Argymhelliad
	Argymhelliad 4d) ii) (a dderbyniwyd yn llawn gan Lywodraeth yr Alban)
	Argymhelliad 5
	Argymhelliad 6a) ii)
	Argymhelliad 6a) v)
	Argymhelliad 7a) i)
	Argymhelliad 7b) (a dderbyniwyd yn llawn gan Lywodraeth yr Alban)
	Argymhelliad 7c)
	Argymhelliad 7d)
	Argymhelliad 7e)
	Argymhelliad 7f) i) (a dderbyniwyd yn llawn gan Lywodraeth yr Alban)
	Argymhelliad 7f) ii) (a dderbyniwyd yn llawn gan Lywodraeth yr Alban)
	Argymhelliad 7f) iii)
	Argymhelliad 9b) (a dderbyniwyd yn llawn gan Lywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru)
	Argymhelliad 9c) (a dderbyniwyd yn llawn gan Lywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru)
	Argymhelliad 9d) (a dderbyniwyd yn llawn gan Lywodraeth yr Alban)
	Argymhelliad 9e) (a dderbyniwyd yn llawn gan Lywodraeth yr Alban)
	Argymhelliad 9f) (a dderbyniwyd yn llawn gan Lywodraeth yr Alban)
	Argymhelliad 10a) i) (a dderbyniwyd yn llawn gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban)
	Argymhelliad 10a) iv)

Y dull a ddefnyddiwyd	Argymhelliad
	Argymhelliad 11
	Argymhelliad 12d)
	Argymhelliad 12e)
Ddim yn derbyn	Dim

Diweddariad ar ymatebion y Llywodraeth i'r 12 argymhelliad

1) Cynllun Iawndal

1. Dylid sefydlu'r cynllun iawndal nawr

Derbynnir yr argymhelliad hwn yn llawn.

Roedd yr Ymchwiliad yn ddiamwys bod yn rhaid i'r rheini sydd wedi dioddef o ganlyniad i'r sgandal hon gael iawndal am y niwed a achoswyd iddynt. Mae Llywodraeth y DU yn derbyn yr argymhelliad hwn yn llawn. Rydym yn ddiolchgar am waith helaeth yr Ymchwiliad a Syr Robert Francis wrth gyhoeddi ei Astudiaeth Fframwaith Iawndal Gwaed Heintiedig. Mae'r argymhellion a wnaed yn Ail Adroddiad Interim yr Ymchwiliad wedi bod yn rhan annatod o ddylunio'r Cynllun Iawndal Gwaed Heintiedig.

Roedd y Ddeddf Dioddefwyr a Charcharorion, a ddaeth yn gyfraith ym mis Mai 2024, yn darparu'r sail gyfreithiol ar gyfer sefydlu'r Awdurdod Iawndal am Waed Heintiedig (IBCA). Mae'r Awdurdod hwn yn gorff hyd braich, sy'n gweithredu'n annibynnol ar y Llywodraeth, sydd wedi cael ei sefydlu i ddarparu iawndal. Roedd y Ddeddf hefyd yn rhwymo'r Llywodraeth i sefydlu cynllun digolledu o fewn tri mis i basio'r Ddeddf.

Cyhoeddodd y Llywodraeth flaenorol ei chynigion ar gyfer y Cynllun Iawndal Gwaed Heintiedig ('y Cynllun') ar 21 Mai 2024. Ym mis Mehefin 2024, cynhaliodd Syr Robert Francis - Cadeirydd Dros Dro yr Awdurdod Iawndal am Waed Heintiedig - ymarfer ymgysylltu â'r gymuned gwaed heintiedig i ofyn am eu barn ar gynnig y Llywodraeth. Ar 16 Awst, cyhoeddodd y Llywodraeth welliannau i'r Cynllun, a gyhoeddwyd ochr yn ochr ag adroddiad Syr Robert Francis ac adroddiad terfynol gan Grŵp Arbenigol Ymateb i'r Ymchwiliad Gwaed Heintiedig. Ar 23 Awst, cyhoeddodd y Llywodraeth ddogfen esboniadol yn nodi manylion y cynllun.

Sefydlwyd y Cynllun mewn rheoliadau a wnaed mewn dwy ran - daeth y rhan gyntaf (i sefydlu'r Cynllun ar gyfer pobl sydd wedi'u heintio ac sy'n hawlio iawndal o dan y llwybr craidd) i rym ar 24 Awst 2024. Cafodd y rheoliadau hyn eu trafod a'u cymeradwyo yn nau Dŷ'r Senedd ym mis Hydref 2024. Daeth rheoliadau pellach i ymestyn y Cynllun ar gyfer y garfan yr effeithir arni ac i sefydlu llwybrau iawndal atodol y tu hwnt i'r llwybr craidd i rym ar 31 Mawrth 2025.

Mae'r Awdurdod Iawndal am Waed Heintiedig wedi dechrau gwneud taliadau o dan y Cynllun Iawndal Gwaed Heintiedig ac mae'n datblygu ei wasanaeth i ddarparu iawndal i bawb sy'n gymwys cyn gynted â phosibl.

Ers cyhoeddi Ymateb y Llywodraeth ym mis Rhagfyr 2024, mae'r Senedd wedi cymeradwyo Rheoliadau'r Cynllun Iawndal Gwaed Heintiedig 2025. Mae'r rhain yn sicrhau bod yr Awdurdod yn sefydlu'r Cynllun yn llawn ac yn rhoi'r holl bwerau cyfreithiol sydd eu hangen arno i dalu iawndal i bawb sy'n gymwys o dan y Cynllun. Ymrwymodd Llywodraeth y DU i wneud y taliadau cyntaf i bobl gymwys sydd wedi'u heintio erbyn diwedd 2024, a chyflawnodd yr Awdurdod yr ymrwymiad hwn drwy wneud y taliadau cyntaf ym mis Rhagfyr 2024. Ers 6 Mai 2025, mae 677 o bobl wedi cael eu gwahodd i ddechrau'r broses hawlio, gyda 432 o'r rheini'n dechrau eu hawliad. Mae 160 o gynigion iawndal wedi'u gwneud, sy'n dod i gyfanswm o dros £150m, ac mae 106 o daliadau wedi'u gwneud, sy'n dod i gyfanswm o £96,608,906.

Cymhwysedd

Yn unol ag **argymhellion 1 a 2** yr Ail Adroddiad Interim, mae'r Llywodraeth yn glir bod y rheini sydd wedi cael eu heintio ac y mae'r sgandal hon wedi effeithio arnynt yn gymwys i gael iawndal, a'u bod yn digolledu'r rheini sydd wedi cael eu heintio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol drwy waed, cynhyrchion gwaed neu feinwe'r GIG. Mae hyn yn cynnwys unrhyw un, sy'n fyw neu wedi marw, sydd wedi cael ei heintio â HIV, Hepatitis C a Hepatitis B cronig, gan gynnwys y rheini a gafodd eu heintio'n anuniongyrchol gan eu partneriaid neu eu hanwyliaid. Mae'r rhai sydd â heintiau Hepatitis B aciwt ac sydd wedi marw o'u haint yn ystod y cyfnod aciwt hefyd yn gymwys o dan y Cynllun. O ran y rhai yr effeithiwyd arnynt; bydd partneriaid, rhieni, plant, brodyr a chwiorydd a gofalmwr i gyd yn gymwys i gael iawndal (yn amodol ar feini prawf penodol).

Mae'r Llywodraeth yn cydnabod y trallod a'r trawma pellach y gellir eu hachosi i'r rheini sy'n gwneud cais am iawndal, ac felly mae'r Cynllun wedi cael ei ddylunio i leihau'r baich ar ymgeiswyr ar yr un pryd â diogelu rhag twyll. Bydd pobl sydd wedi cofrestru ar gynllun cymorth gwaed heintiedig cyfredol yn y DU neu'r cynllun a'i rhagflaenodd, sef Alliance House, yn gymwys yn awtomatig i gael iawndal. Fodd bynnag, efallai y bydd angen iddynt ddangos rhagor o dystiolaeth er mwyn gallu asesu swm yr iawndal a ddyfernir. Gofynnir i bobl nad ydynt wedi cofrestru â chynllun cymorth presennol neu flaenorol a gafodd heintiau yn ystod y cyfnod amser lle mae tystiolaeth gan yr Ymchwiliad Gwaed Heintiedig yn awgrymu bod halogiad yn debygol, ddangos tystiolaeth i brofi achos yr haint (sef tystiolaeth o haint a thriniaeth achosol berthnasol.) Mae hyn yn dilyn **argymhelliad 3** yr Ail Adroddiad Interim, sy'n ceisio osgoi cysyniadau gwrthwynebus o'r baich profi ar ymgeiswyr.

Nid yw'r Cynllun yn cynnwys dyddiadau terfyn pendant nac yn pennu a yw unigolyn yn gymwys i gael iawndal ar sail pryd y cafodd yr haint. Fodd bynnag, bydd y gofynion tystiolaeth yn uwch pan fo unigolyn wedi'i heintio ar ôl cyflwyno profion sgrinio gwaed, cynhyrchion gwaed a meinwe. Dyma'r dyddiadau y bydd y Cynllun yn eu cydnabod o ran cyflwyno profion sgrinio:

- Haint HIV - Tachwedd 1985
- Haint Hepatitis C - Medi 1991
- Haint Hepatitis B - Rhagfyr 1972

O ran **argymhelliad 4** yr Ail Adroddiad Interim, i'r rheini y mae'r sgandal hon wedi effeithio arnynt, bydd y sawl yr effeithir arnynt yn gymwys pan fydd eu hachos yn gysylltiedig ag achos unigolyn cymwys sydd wedi'i heintio. Mae hyn yn cynnwys partneriaid, plant, rhieni a brodyr a chwiorydd yr effeithir arnynt, yn ogystal â gofalmwr (ee ffrindiau ac aelodau o'r teulu) a oedd yn gofalu am anwyliaid a oedd wedi'u heintio heb dâl na gwobr.

Mae'r Llywodraeth yn cydnabod y gwahanol lefelau o ddioddef o heintiau gwahanol a graddau difrifoldeb. Felly, bydd iawndal ar gael ar gyfer pob un o'r categorïau colledion a argymhellwyd gan yr Ymchwiliad - cyfeirir at y rhain fel 'categorïau dyfarnu' yn y Cynllun, ac mae rhagor o fanylion ar gael isod.

Yn unol ag **argymhelliad 5** yr Ail Adroddiad Interim, bydd symiau gwahanol o iawndal yn cael eu talu i'r rheini sydd wedi'u heintio ac yr effeithir arnynt, yn dibynnu ar ddifrifoldeb yr haint a ddioddefwyd neu'r berthynas deuluol.

Datblygwyd yr amrywiaeth o ddyfarniadau gan Grŵp Arbenigwyr y Llywodraeth dan gadeiryddiaeth yr Athro Syr Jonathan Montgomery, gan ddwyn ynghyd arbenigedd cyfreithiol a chlinigol, gyda chymorth arbenigwyr gofal cymdeithasol.

Categoriâu'r Dyfarniadau

Ynglŷn ag **argymhelliad 6** yr Ail Adroddiad Interim, mae'r Llywodraeth wedi derbyn categorïau dyfarnu a argymhellwyd gan yr Ymchwiliad, ac felly mae wedi dylunio'r Cynllun i ddyfarnu iawndal i gynnwys y canlynol:

- Dyfarniad Effaith Anafiadau;
- Dyfarniad Effaith Gymdeithasol;
- Dyfarniad Ymreolaeth;
- Dyfarniad Gofal; a
- Dyfarniad Colled Ariannol.

Mae'r Llywodraeth wedi gwro ychydig oddi wrth yr union argymhelliad, oherwydd er mwyn cyflymder a symlrwydd, mae'r Dyfarniad Gofal yn cael ei gyfeirio drwy'r sawl sydd â haint neu ei ystâd i'w ddosbarthu.

Nid oes dyfarniad am iawndal cosbedigaethol, fel yr argymhellwyd gan yr Ail Adroddiad Interim yn **argymhelliad 7**.

Yn unol ag **argymhelliad 8** yr Ail Adroddiad Interim, bydd y Cynllun yn defnyddio fframwaith sy'n seiliedig ar dariff i gyfrifo faint o iawndal sy'n daladwy i'r rheini sy'n gymwys. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu y bydd iawndal yn cael ei gyfrifo ar sail meini prawf a chyfraddau penodol. Bydd defnyddio dull tariff yn lleihau faint o wybodaeth y mae'n rhaid i bobl sy'n gwneud cais i'r Cynllun ei darparu. Bydd hefyd yn helpu i sicrhau bod modd dyfarnu iawndal yn gynt nag a fyddai'n bosibl fel arall pe bai'n rhaid asesu pob cais am iawndal yn unigol.

Mae'r Cynllun hefyd yn cynnig Llwybr Craidd a Llwybr Atodol i ddyfarnu iawndal.

Bydd y Llwybr Craidd yn gwneud asesiad ar sail tariff o iawndal rhywun, o dan bum categorï'r dyfarniad. Bydd yr asesiad yn seiliedig ar nifer o feini prawf yn dibynnu ar p'un a yw rhywun wedi'i heintio neu wedi'i effeithio, gan gynnwys pa mor ddifrifol yw ei haint neu ei berthynas â'r unigolyn sydd wedi'i heintio. Ar ôl cael eu derbyn ar y Cynllun iawndal Gwaed Heintiedig, bydd pob ymgeisydd cymwys yn cael cynnig pecyn iawndal drwy'r Llwybr Craidd i ddechrau. Mae dyluniad y tariffau'n golygu bod disgwyl i'r Llwybr Craidd fod yn addas i'r rhan fwyaf o ymgeiswyr, ac nad oes angen asesiad pellach o amgylchiadau personol.

Mae'r Llwybr Craidd yn cynnig dau lwybr asesu ar gyfer iawndal: Mae'r llwybr cyntaf i'r rhai sydd ar hyn o bryd yn derbyn taliadau misol y Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig ac sy'n dymuno parhau i dderbyn y rhain. Mae'r ail lwybr i'r rheini nad ydynt yn cael y taliadau hyn, neu nad ydynt yn dymuno parhau i'w cael. Mae gan ymgeiswyr hefyd ddewis a ydynt am dderbyn eu iawndal fel cyfandaliad neu daliadau cyfnodol. Bydd penderfynu pa lwybr sydd fwyaf addas i'r sawl sy'n hawlio yn amrywio yn dibynnu ar amgylchiadau'r unigolyn, a bydd yr Awdurdod iawndal am

Waed Heintiedig yn rhoi cyngor a chymorth i bob ymgeisydd. Yr ymgeisydd fydd yn penderfynu pa lwybr i'w ddilyn yn y pen draw. Ni waeth pa lwybr Llwybr Craidd y mae ymgeisydd yn dewis ei ddilyn, ni fydd neb ar ei golled o dan y Cynllun Iawndal Gwaed Heintiedig nag yr oeddent o dan y Cynlluniau Cymorth Gwaed Heintiedig.

Bydd Llwybrau Atodol yn cynnig dyfarniadau ychwanegol mewn achosion eithriadol lle nad yw lefel yr iawndal a gynigir drwy'r Llwybr Craidd yn mynd i'r afael yn ddigonol ag amgylchiadau unigol unigolyn. Bydd angen i ymgeisydd fynd drwy ei asesiad Llwybr Craidd cyn y gall wneud cais i'r Llwybr Atodol, ond ni fydd unrhyw asesiad o dan y Llwybr Atodol yn oedi talu'r cynnig iawndal a wneir drwy'r Llwybr Craidd.

Mae tri dyfarniad atodol y gallai pobl heintiedig fod yn gymwys i'w cael ac un dyfarniad atodol y gallai pobl yr effeithir arnynt fod yn gymwys i'w gael. Os bydd unigolyn yn gymwys, gellir hawlio sawl dyfarniad o dan y Llwybr Atodol yn ogystal â'r Dyfarniad Llwybr Craidd. Mae'r dyfarniadau Atodol wedi'u nodi isod.

Roedd rhai o ddioddefwyr y sgandal gwaed heintiedig yn destun arferion ymchwil anfoesegol. I adlewyrchu'r niwed penodol a achosir gan hyn, mae Dyfarniad Ymreolaeth ychwanegol ar gael drwy'r Llwybr Atodol i'r rheini a oedd yn destun arferion ymchwil anfoesegol. Mae'r meini prawf cymhwysedd a nodir yn y Rheoliadau yn seiliedig ar ganfyddiadau'r Ymchwiliad ac yn dilyn cyfnod o ymgysylltu â'r gymuned ynghylch dyluniad y dyfarniad.

Bydd y dyfarniad Cyflwr Iechyd Difrifol ar gael i bobl gymwys sydd wedi'u heintio ac sydd wedi dioddef o gyflwr iechyd difrifol prin penodol o ganlyniad i'w haint nad yw eisoes wedi'i ystyried yn y dyfarniadau craidd (er enghraifft, nam difrifol ar y golwg ac anhwylderau seiciatrig difrifol.) Bydd angen i ymgeiswyr roi tystiolaeth o'u heffeithiau neu gyflyrau iechyd penodol, ac efallai y bydd angen iddynt roi tystiolaeth o'u hanallu i ddychwelyd i'r gwaith ar ôl datblygu cyflwr iechyd difrifol, a/neu asesiad o'u hanghenion gofal i fod yn gymwys i gael dyfarniadau colled ariannol a gofal atodol.

Mae'r Cynllun Iawndal Gwaed Heintiedig yn cynnig dewis i bobl sydd wedi cofrestru â Chynllun Cymorth Gwaed Heintiedig rhwng dau gynnig iawndal, naill ai dyfarniad o dan y 'Llwybr craidd', y gellir ei gymryd fel cyfandaliad neu daliad cyfnodol am 5, 10 neu 25 mlynedd, neu ddyfarniad o dan y 'Llwybr Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig', sy'n rhoi'r opsiwn i'r hawlydd barhau i dderbyn cynllun cymorth am oes, yn ogystal â'i ddyfarniad craidd, y gellir ei gymryd fel cyfandaliad neu daliad cyfnodol. O dan y Llwybr Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig, nid yw dyfarniadau colled ariannol a gofal unigolyn yn y dyfodol yn cael eu darparu fel rhan o'r cyfandaliad na'r taliad cyfnodol, gan fod parhad taliadau'r cynllun cymorth am oes yn gwneud iawn am y niwed hwn.

Bydd y Dyfarniad Colled Eithriadol hefyd ar gael i bobl gymwys sydd wedi'u heintio heb un o'r cyflyrau iechyd penodol os gallant ddarparu tystiolaeth o'u colled ariannol a/neu gostau gofal oherwydd eu haint. I gael y dyfarniad hwn, bydd angen i ymgeisydd ddangos ei fod wedi cael o leiaf un o'r canlynol:

- i) colled ariannol o ganlyniad i lai o allu i ennill cyflog lle'r oedd y golled ariannol yn fwy na'r tybiaethau yn y llwybr craidd;
- ii) lle talwyd am ofal yn y gorffennol ond y tybiwyd, o dan y llwybr craidd, ei fod yn ddi-dâl; neu
- iii) lle tybiwyd y talwyd am ofal yn y gorffennol ond bod cost y gofal hwnnw'n fwy na'r hyn y darparwyd ar ei gyfer o dan y llwybr craidd.

Bwriad hyn yw caniatáu i ymgeiswyr roi tystiolaeth o'u colledion y tu hwnt i dariffau penodol y Llwybr Craidd. Enghraifft o hyn fyddai pan oedd gan unigolyn enillion arbennig o uchel cyn ei haint ac felly'n dioddef mwy o golled ariannol o ganlyniad i'r angen i roi'r gorau i'w swydd oherwydd effaith ei haint.

Mae'r tariffau wedi cael eu llywio, ond heb eu cyfyngu, gan yr arferion presennol yn llysoedd a thribiwnlysoedd y DU. Mae'r Grŵp Arbenigol wedi cynghori'r Llywodraeth ar y cyfraddau tariff yn ystod eu gwaith, y mae Gweinidogion wedi penderfynu arnynt ac wedi'u gosod yn unol â'r egwyddorion ar reoli arian cyhoeddus. Mae hyn ychydig yn wahanol i argymhelliad yr Adroddiad, a ddywedodd y dylai tariffau gael eu gosod gan y Cynllun.

Yn unol ag **argymhellion 9 a 10** yr Ail Adroddiad Interim, nid yw derbyn dyfarniad yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr ildio eu hawl i fynd ar drywydd ymglyfreitha. Mewn amgylchiadau diffiniedig, os bydd cyflwr person heintiedig yn dirywio ar ôl i'w ddyfarniad iawndal gael ei asesu, bydd yn gallu dychwelyd i'r Awdurdod lawndal am Waed Heintiedig i gael ei ailasesu i benderfynu a yw'n gymwys i gael taliad iawndal ychwanegol. Bydd ailasesu yn dilyn dirywiad mewn ieched yn bosibl ar unrhyw adeg, ni waeth faint o amser sydd wedi mynd heibio ers asesiad cychwynnol unigolyn.

O ran **argymhelliad 11** yr Ail Adroddiad Interim, mae'r cynllun iawndal yn cyd-fynd ag ysbryd yr argymhelliad ynghylch y llog sy'n daladwy ar golled ariannol yn y gorffennol. Mae'r Cynllun yn defnyddio cyfradd y cyflog blynyddol canolrifol presennol o +5% sy'n cael ei roi fel ffigur net ar gyfer treth ac Yswiriant Gwladol, sydd wedyn yn cael ei gymhwyso i bob blwyddyn ar gyfer y cyfnod gweithio (oedran yr haint hyd at oedran ymddeol) a 50% o'r gyfradd hon o oedran ymddeol hyd at oedran disgwyliad oes. Gan fod y Cynllun yn defnyddio'r cyflog canolrifol presennol, yn hytrach na chyfraddau o flynyddoedd blaenorol, nid yw llog yn daladwy.

Taliadau interim

Mae'r Llywodraeth yn cydnabod bod pobl wedi bod yn aros yn rhy hir i gael iawndal ac i sicrhau cyfiawnder gyda'r sgandal hon. Er mwyn rhoi cymorth ariannol cyn cyflwyno'r Cynllun, mae'r Llywodraeth wedi gwneud taliadau interim i fuddiolwyr sydd wedi'u heintio, partneriaid mewn profedigaeth, ac ystadau pobl sydd wedi'u heintio ac sydd wedi marw.

O fis Hydref 2022 ymlaen, roedd taliadau interim o £100,000 ar gael i fuddiolwyr wedi'u heintio a phartneriaid mewn profedigaeth. Fis Hydref 2024, yn dilyn ymrwymiad a wnaed yn Neddff Dioddefwyr a Charcharorion 2024, agorodd y Llywodraeth geisiadau am daliadau interim o £100,000 i ystadau'r bobl a oedd wedi marw ac wedi'u heintio nad oedd eu marwolaethau wedi cael eu cydnabod hyd yma. Mae hyn yn cydymffurfio ag ysbryd **argymhelliad 12** yr Ail Adroddiad Interim, i gydnabod marwolaethau pobl sydd wedi'u heintio hyd yma nad ydynt wedi cael eu cydnabod, ac i liniaru dioddefaint uniongyrchol. Mae'r dull hwn yn caniatáu talu iawndal sylweddol i deuluoedd dioddefwyr gwaed heintiedig, gan gydnabod na fyddai'n briodol i'r Llywodraeth ymyrryd yn nymuniadau unigolyn ymadawedig, fel y nodir yn ei ewyllys. Yn ogystal â'r argymhellion hynny, gwnaed rhagor o daliadau interim o £210,000 i fuddiolwyr sy'n fyw ac wedi'u heintio ym mis Mehefin 2024. Hyd yma, mae dros £1.2 biliwn wedi cael ei dalu mewn taliadau iawndal interim i ddioddefwyr y sgandal Gwaed Heintiedig a'u teuluoedd.

Yn unol ag **argymhelliad 13** yr Ail Adroddiad Interim, bydd unrhyw daliadau a wneir i'r rheini sy'n gymwys o dan y Cynllun yn cael eu heithrio rhag treth incwm, treth enillion cyfalaf a threth etifeddiant. Bydd unrhyw daliadau hefyd yn cael eu diystyru o asesiadau budd-dal sy'n seiliedig ar brawf modd (sy'n cynnwys y dreth gyngor a ffioedd cartrefi nyrsio.) Mae hyn yn cynnwys taliadau a wneir i'r rhai sy'n cael iawndal drwy ystâd unigolyn heintiedig

Ac eithrio'r taliadau iawndal interim a nodir uchod, ni fydd unrhyw daliadau a geir drwy'r cynlluniau cymorth, hyd at 31 Mawrth 2025, yn cael eu tynnu o daliadau iawndal. Ni fydd taliadau'r cynllun cymorth yn cael eu hystyried wrth asesu dyfarniadau 'anaf', 'effaith gymdeithasol', neu 'ymreolaeth' ymgeisydd, nac o ran colled ariannol neu ddyfarniadau gofal yn y gorffennol. Bydd ymgeiswyr yn gallu cael mynediad at y rhannau hyn o'u hiawndal naill ai fel cyfandaliad neu daliad cyfnodol. Bydd taliadau'r cynllun cymorth a ddaw i law ar ôl 31 Mawrth 2025 yn cael eu hystyried pan fydd yr Awdurdod iawndal am Waed Heintiedig yn asesu colled ariannol a dyfarniadau gofal ymgeisydd yn y dyfodol. Ni fydd yr asesiad hwn yn lleihau gwerth taliadau cymorth a fydd yn parhau i gael eu talu am oes pan fydd yr ymgeisydd yn dewis yr opsiwn hwn.

Awdurdod lawndal am Waed Heintiedig a chynlluniau cymorth sy'n bodoli eisoes

Yn unol ag **argymhellion 14 ac 16** yr Ail Adroddiad Interim, mae'r Awdurdod lawndal am Waed Heintiedig wedi cael ei sefydlu i ddarparu'r Cynllun lawndal Gwaed Heintiedig ac iawndal i ddioddefwyr gwaed heintiedig ledled y DU. Gall pawb sydd wedi cofrestru gyda chynllun cymorth gwaed heintiedig cyn 1 Ebrill 2025 - pobl sy'n fyw ac sydd wedi'u heintio, a phartneriaid mewn profedigaeth - ddewis cael taliadau rheolaidd drwy'r cynllun cymorth am oes. Mae hyn yn mynd y tu hwnt i'r argymhellion a wnaed yn yr Ail Adroddiad Interim ac mae'n adlewyrchu'r argymhellion a wnaed gan Syr Robert Francis yn dilyn ei ymarfer ymgysylltu â'r gymuned ym mis Mehefin 2024. Yn ei adroddiad i'r Llywodraeth ym mis Awst 2024, roedd Syr Robert yn glir y dylai taliadau'r cynllun cymorth barhau i'r rheini sy'n bodloni meini prawf cymhwysedd y cynllun cymorth presennol cyn 1 Ebrill 2025. Mae'r Llywodraeth wedi derbyn yr argymhelliad hwnnw ac mae'r rheoliadau'n adlewyrchu'r safbwynt hwn.

Bydd y Cynlluniau Cymorth Gwaed Heintiedig presennol (Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru, Cynllun Taliadau Gwaed Heintiedig Gogledd Iwerddon, Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig yr Alban, a Chynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Lloegr) yn trosglwyddo'r cyfrifoldeb dros wneud taliadau cymorth i'r Awdurdod lawndal am Waed Heintiedig fel rhan o broses bontio fesul cam rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2026. Daeth ceisiadau i'r Cynlluniau Cymorth Gwaed Heintiedig i ben ar 31 Mawrth 2025.

Bydd y cyfrifoldeb dros wneud taliadau'r cynllun cymorth yn trosglwyddo i'r Awdurdod lawndal am Waed Heintiedig ar y dyddiadau canlynol:

- Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru - 15 Ionawr 2026;
- Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig yr Alban - 1 Chwefror 2026;
- Cynllun Taliadau Gwaed Heintiedig Gogledd Iwerddon - 1 Chwefror 2026;
- Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Lloegr - 23 Mawrth 2026.

Mae Swyddfa'r Cabinet ac Awdurdod lawndal am Waed Heintiedig yn gweithio'n agos gyda llywodraethau datganoledig, yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a gweinyddwyr y Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig i sicrhau bod taliadau iawndal, gan gynnwys parhau â thaliadau'r cynllun cymorth am oes, os gofynnir amdanynt, fel rhan o'r pecyn iawndal mor ddidrafferth â phosibl, gan roi'r baich lleiaf posibl ar unigolion a sicrhau na fydd neb yn profi bwlch mewn taliadau.

Cymorth heb fod yn ariannol

O ran **argymhellion 15 ac 17** yr Ail Adroddiad Interim, mae'r Llywodraeth yn cydnabod y niwed seicolegol enfawr sydd wedi'i achosi o ganlyniad i'r sgandal hon, ac mae wedi ymrwymo i gynnig cymorth seicolegol i'r rheini y mae'r sgandal hon wedi effeithio arnynt. Mae cymorth seicolegol pwrpasol i'r bobl sydd wedi'u heintio ac yr effeithiwyd arnynt eisoes yn cael ei gynnig yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Yn Lloegr, dechreuodd y Gwasanaeth Seicolegol Gwaed Heintiedig gefnogi ei gleifion cyntaf mewn rhai rhannau o'r wlad ddiwedd mis Awst 2024, gyda darparwyr yn meithrin capasiti dros y chwe mis dilynol nes eu bod ar waith ym mhob rhan o Loegr yng ngwanwyn 2025.

Mae'r Llywodraeth hefyd yn cydnabod yr angen i gefnogi ymgeiswyr drwy'r broses o hawlio iawndal, ac o'r herwydd, nod yr Awdurdod Iawndal am Waed Heintiedig yw sicrhau bod cyngor a chymorth priodol ar gael i helpu pobl sy'n cael iawndal i reoli eu dyfarniadau iawndal, cael gafael ar wasanaethau ariannol, a chael gafael ar gyngor ar fudd-daliadau lle bo hynny'n berthnasol.

Sefydlu'r Cynllun

Roedd **argymhelliad 18** yr Ail Adroddiad Interim yn argymhell bod y Llywodraeth yn sefydlu'r cynllun iawndal ar ôl cyhoeddi'r Ail Adroddiad Interim ym mis Ebrill 2023, ac y dylai ddechrau gweithio cyn gynted â phosibl yn y flwyddyn honno. Roedd y Llywodraeth ar y pryd yn glir y byddai'n ymateb i'r Ail Adroddiad Interim ar ôl cyhoeddi adroddiad mis Mai 2024 yr Ymchwiliad, ac mae wedi gwneud hynny wrth sefydlu'r cynllun iawndal.

2) Cydnabod a chofio beth ddigwyddodd i bobl

2a. Sefydlu cofeb barhaol yn y DU ac ystyried cofebion yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban. Dylai natur y cofebau, eu dyluniad a'u lleoliad gael eu pennu gan bwyllgor coffa sy'n cynnwys pobl sydd wedi'u heintio ac yr effeithiwyd arnynt, yn ogystal â chynrychiolwyr y llywodraethau. Dylai gael ei hariannu gan Lywodraeth y DU.

2b. Bydd cofeb yn cael ei sefydlu ar gost y cyhoedd, wedi'i c yflwyno'n benodol i'r plant a gafodd eu heintio yn Ysgol Treloar. Dylai'r gofeb adlewyrchu'r hyn y cytunir arni gyda'r rhai a oedd yn ddisgyblion yn Ysgol Treloar.

2c. Dylid cynnal tri digwyddiad o leiaf, tua chwe mis ar wahân, gan dynnu ynghyd y rhai sydd wedi'u heintio a'r rhai yr effeithiwyd arnynt, a dylai eu natur a'u hamseriad gael eu pennu gan weithgor fel y disgrifir uchod, wedi'i hwyluso gan rywfaifaint o gyllid canolog.

Mae Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn derbyn yr argymhelliad hwn yn llawn. Mae'r argymhelliad hwn yn cael ei ddatblygu ledled y DU.

Pwysleisiodd adroddiad yr Ymchwiliad yr angen am gydnabyddiaeth gyhoeddus ac ymddiheuriad ffurfiol i bawb yr effeithiwyd arnynt. Mae llywodraethau blaenorol a phresennol y DU wedi ymddiheuro'n llwyr am yr hyn a ddigwyddodd ar ran y Wladwriaeth ac mae'r ymddiheuriad hwn yn cael ei ailadrodd yn rhagair y Gweinidog.

Mae'n gwbl briodol bod cofeb genedlaethol a chofeb sy'n benodol i blant Ysgol Treloar yn cael eu creu i gydnabod a chofio'r hyn sydd wedi digwydd.

Mae'r Llywodraeth yn dilyn argymhelliad yr Ymchwiliad y dylid ffurfio pwyllgor llywio i benderfynu pa gofebion y dylid eu sefydlu ac ymhle, gan gynnwys ystyried cofebion yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban. Bydd aelodaeth y pwyllgor llywio yn adlewyrchu profiadau pob llwybr trosglwyddo, y rhai sydd wedi'u heintio a'r rhai yr effeithiwyd arnynt, a bydd yn cynnwys cynrychiolwyr o holl weinyddiaethau'r DU. Bydd dau is-bwyllgor hefyd i wneud y canlynol:

- ystyried cofeb benodol ar gyfer y plant a gafodd eu heintio yn Ysgol Treloar (argymhelliad 2b); a hefyd
- trefnu digwyddiad rhwydweithio/cymorth ddwywaith y flwyddyn i'r rhai sydd wedi'u heintio ac yr effeithiwyd arnynt (argymhelliad 2c).

Bydd cofebion yn cael eu sefydlu'n bennaf ar gost gyhoeddus. Rydym yn ymwybodol bod rhywfaint o arian eisoes wedi cael ei godi ledled y DU a bod unigolion eisoes wedi dechrau cyflwyno eu safbwyntiau er mwyn cydnabod a chofio'r hyn a ddigwyddodd i bobl yn y ffordd orau.

Llywodraeth yr Alban

Yn yr Alban, mae ymgyrchwyr gwaed heintiedig eisoes wedi codi arian sylweddol i dalu am gofeb i helpu i gofio dioddefwyr y drasiedi hon ac wedi cytuno ar ddyluniad cychwynnol i'r gofeb.

Mae Llywodraeth yr Alban yn parhau i weithio gyda Chyngor Dinas Caeredin ac ymgyrchwyr yn yr Alban i ddod o hyd i leoliad sy'n cael ei ffafrio, a bydd yn chwilio am unrhyw gyllid ychwanegol sydd ei angen mewn trafodaeth â'r pwyllgor llywio coffa newydd. Y nod yw cael y gofeb yn ei lle cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl, ar yr amod bod y Cyngor yn rhoi caniatâd cynllunio priodol a chymeradwyaethau eraill.

Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal trafodaethau gyda Haemophilia Wales ynghylch eu dymuniadau ar gyfer cofeb. Bydd y gwaith hwn yn cyfrannu at yr ystyriaethau ehangach sy'n cael eu harwain gan y pwyllgor coffa sy'n cael ei sefydlu gan Lywodraeth y DU.

Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon

Yng Ngogledd Iwerddon, mae'r Adran Iechyd yn parhau i ymgysylltu â phartneriaid a rhanddeiliaid lleol i sicrhau bod barn y teuluoedd a'r cymunedau sydd wedi'u heintio ac yr effeithiwyd arnynt yn cael ei hystyried yn y ffordd orau o fynd ati i weithredu argymhellion 2(a) a 2(c). Bydd yr ymgysylltu hwn, yn ogystal â'r arweiniad a ddarperir gan y Pwyllgor Coffa, yn cyfrannu at waith y Grŵp Rhanbarthol a'r adran wrth ystyried y dull gorau o gofio'r cymunedau sydd wedi'u heintio a'r rhai yr effeithiwyd arnynt yng Ngogledd Iwerddon.

Mae Swyddfa'r Cabinet yn gweithio'n agos gyda swyddogion o lywodraethau datganoledig i sicrhau bod y Pwyllgor Llywio yn cael darlun cywir a chyfredol o'r holl ymdrechion parhaus ar goffáu pan gaiff ei ffurfio.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd parhau i ddod â'r gymuned gwaed heintiedig at ei gilydd a'r gwerth y gall digwyddiadau o'r math hwn ei gynnig. Byddwn yn gweithio gyda'r Pwyllgor i gynllunio o leiaf dri digwyddiad yn unol ag argymhellion yr adroddiad.

Y Camau Nesaf

Mae Llywodraeth y DU, a'r llywodraethau datganoledig yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, wedi ymrwymo i sicrhau bod cofebion yn cael eu sefydlu sy'n anrhydeddu dioddefwyr y sgandal hon yn ddigonol. Mae cyfraniad y gymuned yn hanfodol i gyflawni'r argymhelliad hwn yn llwyddiannus, ac mae Llywodraeth y DU wedi ymgysylltu â'r gymuned Gwaed Heintiedig, y Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar Haemoffilia a Gwaed Halogedig, a rhanddeiliaid perthnasol ar draws y llywodraeth i nodi ymgeiswyr addas ar gyfer rôl Cadeirydd y Pwyllgor Coffa Gwaed Heintiedig. Bydd y broses o benodi aelodau i'r pwyllgor llywio a'i is-bwyllgorau yn dechrau, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd a'r gymuned Gwaed Heintiedig, yn dilyn penodi'r Cadeirydd. Ar ôl penodi aelodau, bydd y Cylch Gorchwyl yn cael ei gwblhau a'i rannu'n gyhoeddus, ochr yn ochr ag amserlenni arfaethedig ar gyfer 12 mis cyntaf gwaith y pwyllgor a'r is-bwyllgor.

3) Dysgu o'r Ymchwiliad

3a. Dylai'r Cyngor Meddygol Cyffredinol, ac NHS Education for Scotland, Addysg a Gwellu Iechyd Cymru, Asiantaeth Hyfforddiant Meddygol a Deintyddol Gogledd Iwerddon a GIG Lloegr, gymryd camau i sicrhau bod y 'gwersi i'w dysgu' hynny sy'n ymwneud ag ymarfer clinigol yn cael eu cynnwys yn hyfforddiant pob meddyg.

3b. Dylent edrych yn ffafriol ar lunio pecyn o ddeunyddiau hyfforddi, gyda dyfyniadau o dystiolaeth lafar ac ysgrifenedig, i ategu'r hyn a all ddigwydd mewn gofal iechyd, a rhaid eu hosgoi yn y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn derbyn yr argymhellion hyn yn llawn. Mae'r argymhellion hyn yn cael eu datblygu ledled y DU.

Mae meddygaeth yn esblygu'n barhaus ac mae'n hanfodol bod hyfforddiant meddygon yn cael ei ddiweddarau. Mae adroddiad mis Mai 2024 yr Ymchwiliad yn adnodd gwerthfawr o ran dysgu gwersi'r gorffennol, gan gydnabod bod gan y rheini sy'n gyfrifol am addysg feddygol rôl bwysig o ran sicrhau bod hyn yn digwydd yn ymarferol, ac yn ein hatgoffa y dylai diogelwch cleifion fod yn ffocws canolog i bopeth. Dylai cleifion, y cyhoedd a'r rheini y mae'r digwyddiadau trasig a ddisgrifir yn yr Ymchwiliad wedi effeithio arnynt ddisgwyl dim llai na hynny.

Mae gofynion rheoleiddiol y Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC) ar gyfer addysg a hyfforddiant meddygol yn y DU yn cynnwys dysgu am drallwyso gwaed. Mae'r rhain wedi'u hymgorffori yng ngweithdrefnau ymarferol y GMC ar gyfer addysg israddedig ers 2009, y gofynion map cynnwys sy'n rhan o'r Asesiad Trwyddedu Meddygol newydd ac yn y cwricwla ôl-raddedig y mae'r GMC yn eu cymeradwyo. Mae'r gwaith o gadw'r cydbwysedd hwn yn seiliedig ar safonau'r GMC i addysg a hyfforddiant meddygol yn y DU, ac ar y fframweithiau sgiliau proffesiynol generig sydd â diogelwch a gwellu ansawdd wrth eu gwraidd.

O ran y camau a gymerwyd, mae'r GMC wedi parhau i ddefnyddio ei bwerau cynnull i sicrhau bod yr holl randdeiliaid perthnasol yn gweithio gyda'i gilydd i nodi a rhannu sut mae'r Ymchwiliad yn dylanwadu ar fyfyrwyr a chamau gweithredu a fydd yn cryfhau dysgu. Cafodd canlyniadau arolwg y GMC o ysgolion meddygol, colegau a chyfadranau brenhinol meddygol eu hadlewyrchu yn niweddariad Rhagfyr 2024 i'r Senedd ac roeddent yn dangos amrywiaeth o weithgareddau sydd wedi'u cynllunio i gryfhau'r dysgu ar ddarparu trallwysïadau'n ddiogel. Y nod yw casglu unrhyw sylwadau pellach ar ganfyddiadau'r Ymchwiliad, manylion y trefniadau presennol ar gyfer hyfforddiant mewn trallwyso gwaed a manylion y camau sy'n cael eu cymryd. I'r perwyl hwn, mae'r GMC wedi gofyn am ddiweddariadau gan ysgolion meddygol,

colegau a chyfadranau brenhinol meddygol gyda'r nod o adrodd yn ôl i ganfyddiadau'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol erbyn diwedd mis Mehefin 2025.

Mae cydweithio â rhanddeiliaid yn cael ei gefnogi gan y gwaith y mae Cyfarwyddiaeth Addysg a Hyfforddiant y Gweithlu GIG Lloegr a Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG yn ei gydlyn. Mae GIG Lloegr wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r GMC am ddatblygiadau. Mae hyn yn digwydd gydag arweinwyr addysg proffesiynol ar draws y pedair gwlad a phroffesiynau i ystyried argymhellion 3 a 7d ar y cyd. Mae'r grŵp eang hwn yn cwblhau gwaith ar archwiliadau manwl i'r proffesiynau i bennu lle mae'r bylchau mewn addysg israddedig, hyfforddiant ôl-raddedig ac ar draws y gweithlu sefydledig. Mae'r gwaith yn seiliedig ar nifer o is-grwpiau, sydd naill ai ar waith neu wedi'u cynllunio dros y flwyddyn hon, sy'n canolbwyntio ar wyddonwyr gofal iechyd, meddygon a myfyrwyr meddygol, nyrsio, gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd a phroffesiynau eraill. Mae'r gwaith darganfod ar gyfer gwyddor gofal iechyd a meddygon ymhellach i'r dyfodol oherwydd yr arolygon sydd eisoes wedi'u cwblhau fel rhan o gynllun Transfusion 2024, ond nid yw rhai eraill yn rhy bell ar ei hôl hi.

Yn gyffredinol, mae'r grŵp pedair gwlad yn gwneud cynnydd da ac yn ceisio gweithredu adnoddau addysgol/dysgu hygyrch ac effeithiol ar gyfer y bylchau a nodwyd. Gall unrhyw argymhellion sy'n deillio o hynny fod â goblygiadau rheoleiddiol, er enghraifft lle mae newidiadau'n cael eu cynnig i gwricwla ôl-raddedig. Gellir uwchgyfeirio'r rhain i'r GMC drwy'r prosesau sefydledig.

3c. Mae gwefan yr Ymchwiliad yn cael ei chynnal ar-lein.

Mae Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn derbyn yr argymhelliad hwn yn llawn.

Mae'r argymhelliad hwn yn cael sylw ledled y DU.

Mae'r adroddiad yn nodi bod angen i ganfyddiadau, casgliadau ac argymhellion Ymchwiliad gyfeirio'n ôl atynt yn aml ar ôl i'r Ymchwiliad ddod i ben. Mae'n arferol, ar ddiwedd ymchwiliad cyhoeddus, i'w wefan gael ei throsglwyddo i'r Archifau Gwladol i gadw'r cofnod cyhoeddus.

Mae trosglwyddo'r wefan 'fyw' i'r Archifau Gwladol yn arwain at golli rhywfaint o ymarferoldeb, gan nad oes gan yr Archifau Gwladol y gallu ar hyn o bryd i gynnal peiriant chwilio gwefan. Mae'r Llywodraeth yn bwrw ymlaen â gwaith i sicrhau bod gwefan yr Ymchwiliad yn gweithredu'n llawn ar ôl i'r Ymchwiliad ddod i ben, fel bod yr holl wybodaeth a ddatgelwyd gan yr Ymchwiliad, a allai fod yn ddefnyddiol yn y dyfodol, ar gael yn rhwydd i'r cyhoedd.

4) Atal niwed i gleifion yn y dyfodol: sicrhau diwylliant o ddiogelwch

4a) i-iii) Dyletswydd Gonestrwydd

4a) i. Dylid cyflwyno dyletswydd gonestrwydd statudol mewn gofal iechyd yng Ngogledd Iwerddon.

Mae Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn derbyn yr argymhelliad hwn yn llawn.

4a) ii. Dylid adolygu gweithrediad y dyletswyddau gonestrwydd mewn gofal iechyd yng Nghymru a'r Alban, fel y mae yn Lloegr, er mwyn asesu pa mor effeithiol y bu ei weithrediad yn ymarferol. Ers cyflwyno'r ddyletswydd yn 2023 yng Nghymru, nid oes angen cynnal yr adolygiad ar unwaith, ond ni ddylai fod yn hwyrach na diwedd 2026.

Derbynnir yr argymhelliad hwn yn llawn gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban.

4a) iii. Dylid cwblhau'r adolygiad o'r ddyletswydd gonestrwydd sydd ar waith ar hyn o bryd yn Lloegr cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

Mae Llywodraeth y DU yn derbyn yr argymhelliad hwn yn llawn.

Roedd ymddygiad y rheini a oedd yn caniatáu i'r sgandal hon barhau yn gwbl annerbyniol o ystyried y safonau y mae'r cyhoedd yn amlwg yn eu disgwyl, yn enwedig y rheini sy'n gweithio mewn lleoliadau gofal iechyd. Mae'r adroddiad yn nodi methiant i ganolbwyntio ar risg, methiant i roi diogelwch yn gyntaf, methiant i wrando ar leisiau'n cynghori cwrs gwahanol ochr yn ochr â hanes o fethiannau systematig. Mae sylw'r adroddiad bod arweinyddiaeth yn aml yn gosod y sylfaen ar gyfer sefydliad yn gwbl gywir. Rydym yn cytuno na ddylid anwybyddu pwysigrwydd arweinyddiaeth a'i gallu i weithredu newid mewn sefydliad a'i bod yn hanfodol er mwyn sicrhau mwy o onestrwydd a bod yn fwy agored.

Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon

Fel rhan o'r cynllun Tair Blynedd Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ymrwymodd y Gweinidog Mike Nesbitt i frw ymlaen â chynigion ar gyfer dyletswydd gonestrwydd sefydliadol, yn y lle cyntaf, yn ogystal ag ystyried cynigion ar gyfer dyletswydd gonestrwydd unigol dros y misoedd nesaf, sy'n ystyried ymgynghoriad cysylltiedig a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2025, sef y gwaith ledled y DU ar Gyfraith Hillsborough, a'r gwaith sy'n deillio o'r Ymchwiliad Gwaed Heintiedig.

Bydd canfyddiadau'r ymgynghoriad hwn, yn ogystal â gwaith ymarferol Cyfraith Hillsborough sy'n cael ei datblygu ar hyn o bryd gan Lywodraeth y DU, yn ogystal â

chanfyddiadau'r adolygiad o'r Ddyletswydd Gonestrwydd yn Lloegr yn sicr o siapio'r broses o gyflwyno Dyletswydd Gonestrwydd statudol yng Ngogledd Iwerddon.

Llywodraeth yr Alban

Mae darpariaethau dyletswydd gonestrwydd sefydliadol Deddf Iechyd (Tybaco, Nicotin ac ati a Gofal) (Yr Alban) 2016 a Rheoliadau Gweithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd (Yr Alban) 2018 yn nodi'r weithdrefn y mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau iechyd, gwasanaethau gofal a gwasanaethau gwaith cymdeithasol yn yr Alban ei dilyn pan fydd digwyddiad anfwriadol neu annisgwyl wedi arwain at farwolaeth neu niwed, neu a allai arwain at hynny (neu fod angen triniaeth ychwanegol i atal anaf a fyddai'n arwain at farwolaeth neu niwed).

Cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban ganllawiau anstatudol i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r Rheoliadau yn 2018. Mae'r canllawiau hyn wedi cael eu hadolygu'n ddiweddar ar y cyd â rhanddeiliaid ar draws y sectorau gofal iechyd a gwaith cymdeithasol i ystyried yr hyn a ddysgwyd yn ddiweddar, gan gynnwys yr hyn a ddysgwyd o bandemig Covid-19. Cyhoeddwyd y canllawiau anstatudol diwygiedig ym mis Ebrill ac fe'u dosbarthwyd i wasanaethau iechyd, gofal a gwaith cymdeithasol.

Bydd Llywodraeth yr Alban yn dechrau ymgysylltu â rhanddeiliaid ar ei hadolygiad o weithrediad y ddyletswydd gonestrwydd sefydliadol ym mis Mehefin 2025.

Llywodraeth Cymru

Bydd effaith Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 a gyflwynodd y ddyletswydd gonestrwydd yng Nghymru yn 2023, yn cael ei gwerthuso. Bydd yr argymhelliad fel y'i nodir yn adroddiad yr Ymchwiliad Gwaed Heintiedig yn cael ei integreiddio i'r fanyleb sydd allan i dendr ar gyfer y rhaglen ymchwil gwerthuso.

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu unrhyw beth a ddysgwyd o adolygiad Lloegr i ychwanegu at yr wybodaeth sy'n sail i unrhyw adolygiad o ddyletswydd gonestrwydd GIG Cymru.

Llywodraeth y DU

Mae'r Llywodraeth yn glir bod angen i'r ddyletswydd statudol (sefydliadol) weithredu fel catalydd i ddarparwyr iechyd a gofal cymdeithasol wella didwyllledd ac ymrwymo i ddiwylliant dysgu.

Mae'r Llywodraeth yn cefnogi'r adolygiad a etifeddwyd gennym o effeithiolrwydd a gweithrediad y ddyletswydd. Ar 26 Tachwedd 2024, fe wnaethom gyhoeddi adroddiad ar ganfyddiadau'r cais am dystiolaeth a gyhoeddwyd gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ym mis Ebrill 2024.

Mae'r canfyddiadau'n awgrymu bod y ddyletswydd yn gweithredu'n effeithiol mewn rhai mannau ond ei bod yn annigonol ar y cyfan. Er enghraifft, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o'r farn nad oedd pwrpas y ddyletswydd yn glir nac yn cael ei ddeall yn dda, nad yw staff ar draws ieuchyd a gofal cymdeithasol yn deall gofynion y ddyletswydd ac felly bod defnyddio'r ddyletswydd yn anghyson ac yn agored i gael ei gamddehongli, ac nad yw darparwyr yn ymgysylltu â chleifion a defnyddwyr gwasanaeth mewn ffordd ystyrlon na thosturiol.

Ni ellir cyfiawnhau hyn a'n nod yw archwilio sut gall pob darparwr a'i arweinwyr weithredu ar y ddyletswydd gonestrwydd statudol yn gyson ac yn effeithiol.

Rydym yn defnyddio canfyddiadau ein hymgyngoriad ar reoleiddio rheolwyr, a ddaeth i ben ar 18 Chwefror 2025, i helpu i lywio'r ymateb terfynol i'r adolygiad ar y ddyletswydd gonestrwydd statudol. Mae'r Llywodraeth yn paratoi ei hymateb i'r ymgynghoriad ac rydym yn bwriadu cyhoeddi adroddiad terfynol yr adolygiad o'r ddyletswydd gonestrwydd ar ôl cyhoeddi'r ymateb i'r ymgynghoriad.

4a) iv-v) dyletswydd gonestrwydd statudol

4a) iv. Dylid ymestyn y dyletswyddau gonestrwydd statudol yng Nghymru, Lloegr, yr Alban (a Gogledd Iwerddon, pan gânt eu cyflwyno) i gynnwys yr unigolion hynny sydd mewn swyddi arwain yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, yn enwedig mewn swyddi gweithredol ac aelodau bwrdd.

4a) v. Dylai fod yn ofynnol i unigolion mewn swyddi arwain, yn unol â thelerau eu penodiad a thrwy is-ddeddfwriaeth, gofnodi, ystyried ac ymateb i unrhyw bryder am y gofal iechyd sy'n cael ei ddarparu, neu'r ffordd y mae'n cael ei ddarparu, lle mae'n ymddangos yn rhesymol bod risg y gallai claf ddioddef niwed, neu fod wedi gwneud hynny. Dylai unrhyw un mewn awdurdod y cyflwynir adroddiad o'r fath iddo fod yn bersonol atebol am fethu â'i ystyried yn ddigonol.

Derbynnir yr argymhellion hyn mewn egwyddor gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban. Gallai'r argymhelliad hwn gael ei ddatblygu ledled y DU.

Llywodraeth y DU

4a) iv. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod pwysigrwydd arweinyddiaeth gref ac atebol wrth feithrin diwylliant agored a thosturiol yn y GIG. Dyna pam rydym wedi ymrwymo i weithredu safonau proffesiynol i reolwyr y GIG a'u rheoleiddio.

Cynhaliodd y Llywodraeth ymgynghoriad rhwng 26 Tachwedd 2024 a 18 Chwefror 2025 ar opsiynau i reoleiddio rheolwyr y GIG, gyda'r nod o wella ansawdd ac atebolrwydd arweinyddiaeth. Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am farn ynghylch a yw dyletswydd gonestrwydd broffesiynol yn safon y dylid ei chyflwyno i arweinwyr y GIG, ac a ddylai arweinwyr hefyd fod yn atebol am sicrhau bod y ddyletswydd gonestrwydd statudol (sefydliadol) yn cael ei dilyn yn gywir yn eu sefydliad. Mae'r Llywodraeth yn paratoi ei hymateb i'r ymgynghoriad ar hyn o bryd.

4a) v. Mae gwella diogelwch cleifion a lleihau niwed yn y GIG yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth hon. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd cofnodi ac ymateb i ddigwyddiadau diogelwch cleifion ac egwyddor sylfaenol yr argymhelliad hwn o ran cynyddu didwylledd a thryloywder yn y GIG.

Er bod atebolrwydd uwch arweinwyr yn sbardun pwysig i fod yn fwy agored, mae'r argymhelliad hwn yn gymhleth i'w weithredu a'i orfodi. Gall fod â goblygiadau sylweddol o ran adnoddau a chyfraith cyflogaeth a gall fod yn wrthgynhyrchol o ran hyrwyddo gonestrwydd a diwylliant diogelwch.

Gallai fod yn bosibl dal arweinwyr y GIG yn atebol am y mecanweithiau yn eu sefydliadau sy'n gysylltiedig â chofnodi ac ymateb i ddigwyddiadau diogelwch cleifion drwy safonau proffesiynol a rheoleiddio rheolwyr - ac rydym yn paratoi ein hymateb i'r ymgynghoriad ar ddod â rheolwyr yn rhan o'r broses reoleiddio.

Yn gysylltiedig ag argymhelliad 4a)iv, mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol hefyd yn ymgynghori ar yr addewid canlynol i'w gynnwys yng Nghyfansoddiad y GIG: Darparu diwylliant o atebolrwydd lle mae arweinwyr y GIG yn sicrhau bod y ddyletswydd gonestrwydd statudol yn cael ei dilyn yn gywir yn eu sefydliad, a'u bod yn sicrhau bod systemau a phrosesau ar waith i ymateb i bryderon ynghylch diogelwch cleifion.

Er bod ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar reoleiddio rheolwyr yn berthnasol i Loegr yn unig, mae rheoleiddio gofal iechyd proffesiynol yn un elfen o system lawer ehangach o sicrhau gofal i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth sydd fel arfer yn cael sylw ledled y DU. O'r herwydd, gall llywodraethau datganoledig ystyried dulliau gweithredu Llywodraeth y DU ynglŷn â'r argymhellion hyn.

Llywodraeth yr Alban

Yn yr Alban, mae Llywodraeth yr Alban yn cydnabod manteision dull gweithredu pedair gwlad ar gyfer y materion sy'n cael sylw yn argymhellion 4a) iv. a v. Mae'n ystyried ei safbwynt ar argymhelliad 4a) iv. ac mae am sicrhau cysondeb priodol ledled y DU wrth fwrw ymlaen ag unrhyw gynnig. O ran argymhelliad 4a) v., bydd Llywodraeth yr Alban yn ystyried ei dull gweithredu ymhellach unwaith y bydd canlyniadau ymgynghoriad y DU yn hysbys.

Llywodraeth Cymru

Yng Nghymru mae Llywodraeth Cymru yn croesawu unrhyw beth a ddysgwyd o adolygiad Lloegr i ychwanegu at yr wybodaeth sy'n sail i unrhyw adolygiad o ddyletswydd gonestrwydd GIG Cymru. Byddai Llywodraeth Cymru yn croesawu'r cyfle i fabwysiadu dull gweithredu pedair gwlad ar gyfer y gwaith hwn.

Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon

Yng Ngogledd Iwerddon, mae'r Adran Iechyd ar hyn o bryd yn ystyried ei safbwynt ar argymhelliad 4a) iv. yng nghyd-destun ei rhaglen waith ac ymgysylltu bresennol ar Ddyletswydd Gonestrwydd, yn ogystal â'r goblygiadau ehangach sy'n deillio o'r datblygiadau parhaus ar Gyfraith Hillsborough.

4b) Newid Diwylliannol a 4c) i-ii) Rheoleiddio

4b. Bod diwylliant o fod yn amddiffynol, diffyg gonestrwydd, a diystyru pryderon am ddiogelwch cleifion yn cael sylw drwy gymryd y camau a nodir yn (a) uchod, a hefyd drwy wneud arweinwyr yn atebol am sut mae'r diwylliant yn gweithredu yn eu rhan nhw o'r system, ac am y ffordd y mae'n cynnwys cleifion.

Mae Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn derbyn yr argymhelliaid hwn mewn egwyddor.

4c) i. Symleiddio trefniadau rheoleiddio allanol ar gyfer diogelwch mewn gofal iechyd. Fel cam cyntaf tuag at hyn, dylai'r pedair adran iechyd adolygu'r systemau rheoleiddio allanol ledled y DU, gyda'r nod o roi sylw i'r holl bwyntiau a wnaed yn gynharach yn yr Adroddiad hwn ac mewn adroddiadau eraill ers 2000.

4c) ii. Bod y gweinyddiaethau gofal iechyd cenedlaethol yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban yn archwilio ac, os yw'n briodol, yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu a gweithredu systemau rheoli diogelwch drwy grwpiau cydlynu systemau rheoli diogelwch (fel yr argymhellwyd gan y Corff Ymchwilio Diogelwch Gwasanaethau Iechyd), ac yn gwneud hynny fel mater o flaenoriaeth.

Mae argymhellion 4c) i-ii) yn cael eu derbyn yn llawn gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU) Fe'u derbynnir mewn egwyddor gan Lywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon.

Mae'r cynnydd o ran gweithredu argymhellion 4(a-b), yn dystiolaeth o'r camau pwysig sydd eisoes yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â chanfyddiadau'r adroddiad ynglŷn â gonestrwydd mewn gofal iechyd. Cytunwn fod diwylliant sefydliad hefyd yn chwarae rhan ganolog yn y ffordd y mae'r sefydliad yn gweithredu.

Llywodraeth y DU

O ran argymhelliaid 4c) i. Gofynnodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Dr Penny Dash gynnal adolygiad o ddiogelwch cleifion yn y dirwedd iechyd a gofal. Mae'r adolygiad gan Dr Dash yn canolbwyntio ar chwe chorff craidd: Y Comisiwn Gofal ac Ansawdd, Swyddfa'r Gwarcheidwad Gwladol, Healthwatch England (HWE) a'r rhwydwaith Healthwatch Lleol, Corff Ymchwilio Diogelwch Gwasanaethau Iechyd, y Comisiynydd Diogelwch Cleifion ac NHS Resolution, a sut maent yn gweithio gyda'r dirwedd ehangach. Gofynnodd yr Ysgrifennydd Gwladol i Dr Dash wneud argymhellion ynghylch a ellid sicrhau mwy o werth drwy ddull neu fodel cyflawni gwahanol. Bydd yr adolygiad yn cael ei gyhoeddi cyn bo hir. Bydd yr holl ganfyddiadau'n sail i gynllun iechyd 10 mlynedd Llywodraeth y DU, yn ogystal â gwaith i ddatblygu Strategaeth Ansawdd y GIG, i drawsnewid y GIG a'r system gofal cymdeithasol a'i gwneud yn addas ar gyfer y dyfodol.

Ynghylch Argymhelliad 4c) ii., mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cytuno ei bod yn bwysig archwilio dulliau gweithredu ar gyfer gwella diogelwch gwasanaethau. Yn 2023, sefydlodd GIG Lloegr grŵp cydlynu systemau rheoli diogelwch gyda phartneriaid o bob rhan o'r system gofal iechyd gan gynnwys darparwyr, cleifion, rheoleiddwyr, Corff Ymchwilio Diogelwch Gwasanaethau Iechyd (HSSIB), y byd academiaidd a diwydiannau diogelwch critigol eraill i archwilio'r potensial i egwyddorion a phrosesau systemau rheoli diogelwch gael eu mabwysiadu ymhellach yn y GIG i wella diogelwch cleifion. Mae gwaith y grŵp yn parhau ac nid yw eto wedi dod i gasgliadau penodol ynghylch perthnasedd egwyddorion systemau rheoli diogelwch i ofal iechyd ond mae'n debygol o adrodd ar hyn yn ddiweddarach yn 2025.

Mae'n iawn gofyn beth arall y gallai'r GIG ei ddysgu gan ddiwydiannau eraill a deall sut y gellid trosi egwyddorion systemau rheoli diogelwch yn briodol i leoliadau gofal iechyd, er y byddem yn rhybuddio yn erbyn dull gweithredu sy'n ceisio mabwysiadu ymadrodd neu fframwaith newydd fel systemau rheoli diogelwch fel yr ateb i heriau cymhleth o ran diogelwch cleifion.

I gefnogi'r Grŵp Cydlynu systemau rheoli diogelwch ym mis Awst 2023, comisiynodd GIG Lloegr, ar y cyd â'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwiliad Iechyd a Gofal, Ganolfan Synthesis Tystiolaeth Ymchwiliad Darparu Iechyd a Gofal Cymdeithasol Exeter i gynnal ymchwiliad sy'n archwilio'r defnydd o systemau rheoli diogelwch i ddiogelwch cleifion o ran effeithiolrwydd, gweithredu a phrofiad. Roedd yr ymchwiliad yn cynnwys cyhoeddiadau o bum gwlad (Awstralia, Canada, Iwerddon, Seland Newydd a'r Iseldiroedd). Mae'r canfyddiadau'n tynnu sylw at y pethau canlynol:

- dim ond yr Iseldiroedd oedd wedi cyflwyno rhaglen diogelwch cleifion genedlaethol yn seiliedig yn benodol ar ddull systemau rheoli diogelwch diwydiant risg uchel,
- nodwyd prif elfennau systemau rheoli diogelwch, i wahanol raddau, ym mholisiâu a mentrau diogelwch cleifion gwledydd eraill sydd wedi'u cynnwys yn yr adolygiad, a hefyd
- roedd cysyniadau eraill o wyddoniaeth diogelwch ehangach wedi dylanwadu ar ddulliau diogelwch cleifion ym mhob gwlad.

Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu nad oes un dull mwyaf effeithiol o ymdrin â diogelwch cleifion, ac maent yn pwysleisio'r angen i weithredu ac addasu unrhyw ddull o ymdrin â diogelwch i gyd-fynd â'r cyd-destun gofal iechyd. Bydd y canfyddiadau hyn yn sail i drafodaethau parhaus a gynhelir gan grŵp cydlynu systemau rheoli diogelwch GIG Lloegr.

Llywodraeth yr Alban

Ar gyfer argymhelliad 4b), dros y blynyddoedd diwethaf, mae Llywodraeth yr Alban wedi ymateb i nifer o argymhellion sy'n deillio o adolygiadau ynghylch mynegi pryderon yn y gweithle (Adolygiad Francis) a phryderon ynghylch diwylliant y

gweithle (Adolygiad Sturrock). Y nod cyffredinol yw sicrhau bod mecanweithiau ar waith ym mhob Bwrdd GIG yn yr Alban sy'n hyrwyddo ac yn annog staff i godi pryderon, gan greu gweithle lle mae'r diwylliant yn gefnogol, yn agored ac yn dryloyw.

Hyd yma, mae Llywodraeth yr Alban wedi datblygu a chyflwyno rôl y Swyddfa Chwythu'r Chwiban Genedlaethol Annibynnol i'r GIG yn yr Alban, y mae ei rôl yn seiliedig ar ddeddfwriaeth ac yn cael ei chefnogi gan y Safonau Chwythu'r Chwiban Cenedlaethol sy'n ffurfio Polisi Chwythu'r Chwiban *Once for Scotland*. Mae'r Safonau Chwythu'r Chwiban Cenedlaethol yn berthnasol i'r holl staff sy'n darparu gwasanaethau ar ran y GIG yn yr Alban. Mae Hyrwyddwyr Chwythu'r Chwiban Anweithredol hefyd wedi cael eu cyflwyno ym mhob Bwrdd Iechyd, gan ddarparu rôl sicrwydd a goruchwyllo annibynnol sy'n sicrhau bod rheolwyr yn ymateb i bryderon chwythu'r chwiban yn briodol ac yn unol â'r Safonau Chwythu'r Chwiban Cenedlaethol.

Er bod Llywodraeth yr Alban yn cydnabod bod mecanweithiau cadarn wedi cael eu cyflwyno i annog a galluogi staff i fynegi pryderon, rydym yn dal yn ymwybodol o faint yr her ac mewn llawer o achosion mae staff yn dal yn gyndyn o godi pryderon. Mae'n ymddangos bod nifer o resymau dros hyn, gan gynnwys: y gallai fod er anfantais iddynt wneud hynny; na fydd neb yn gwrandao arnynt; ac na fyddir yn mynd ar drywydd y pryder a godant. Mae newid diwylliannol yn y GIG yn yr Alban, lle mae staff yn cydnabod pwysigrwydd a manteision mynegi pryderon, yn enwedig lle mae hyn yn ymwneud â diogelwch cleifion, yn allweddol, ac er y bydd newid diwylliannol cadarnhaol yn cymryd amser, rhaid i Fyrddau barhau i ganolbwyntio ar y canlyniad a ddymunir.

Mae Llywodraeth yr Alban yn parhau i fonitro profiad staff o hyder wrth godi pryderon ac y gweithredir ar y rhain drwy'r Arolwg blynyddol o Brofiad Staff Iechyd a Gofal Cymdeithasol iMatter, ac mae ganddi bolisi Chwythu'r Chwiban ffurfiol fel y disgrifir uchod. Mae'r polisi'n cynnwys datrysiad cynnar Cam 1, sydd ar gyfer pryderon syml y gellir ymateb iddynt o fewn pum diwrnod gwaith neu lai. Bwriad hyn yw creu proses lai ffurfiol sy'n cefnogi staff i godi pryderon mewn ffordd busnes fel arfer, ac sy'n lleihau'r rhwystrau i staff godi pryderon. Dylai materion sy'n fwy cymhleth ac sy'n amlwg yn cymryd mwy na phum diwrnod gwaith i fynd i'r afael â nhw, neu, os yw'r aelod o staff yn anfodlon â'r camau a gymerwyd, symud yn syth i Gam 2, y cam ymchwilio ffurfiol. Er mwyn cefnogi staff ymhellach, rhaid i sefydliadau wneud yn siŵr eu bod yn gallu cael gafael ar gyswllt diduedd a chyfrinachol y gallant gysylltu ag ef drwy e-bost neu dros y ffôn, neu siarad â nhw wyneb yn wyneb.

Ym mis Gorffennaf 2024, cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban ddogfen Improving Wellbeing and Working Cultures (IWWC), gan nodi'r uchelgais i wella diwylliannau gwaith drwy raglenni gwaith ar lefel genedlaethol sy'n canolbwyntio ar bileri llesiant, arweinyddiaeth a chydraddoldeb.

Mae darparu ymyriadau cenedlaethol o dan y ddogfen IWWC yn cefnogi'r gwaith o gyflawni uchelgeisiau ehangach Llywodraeth yr Alban ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys cadw staff, gwella llesiant, creu diogelwch seicolegol yn y gweithle - lle mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu clywed, eu parchu a'u gwerthfawrogi.

Mae Llywodraeth yr Alban yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod yr holl gamau gweithredu a nodwyd mewn ymateb i argymhellion yr Ymchwiliad yn annog pawb yr effeithir arnynt i gymryd rhan ystyrlon mewn ffyrdd sy'n cefnogi'r gwaith o wella ac yn adlewyrchu arferion adferol wrth ganfod ac ymateb yn briodol lle nodir niwed (gan gynnwys niwed cyfansawdd).

O ran argymhelliad 4b), mae Deddf Comisiynydd Diogelwch Cleifion yr Alban 2023 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd greu Siarter Diogelwch Cleifion, sy'n ei gwneud yn glir mai darparwyr gofal iechyd (nid cleifion a theuluoedd) sy'n gorfod gweithredu lle bu niwed. Bydd y Siarter yn helpu i sicrhau bod sefydliadau'n cydnabod eu hatebolrwydd a'u rhwymedigaethau tuag at gleifion a theuluoedd pan fydd niwed wedi digwydd.

Ar gyfer argymhelliad 4c) ii., mae Llywodraeth yr Alban a Healthcare Improvement Scotland (HIS) yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r hyn sydd ei angen i ymestyn a gwreiddio system rheoli ansawdd a diogelwch ymhellach ar draws yr holl wasanaethau iechyd a gofal. Mae'r fframwaith Hanfodion Gofal Diogel presennol yn becyn ymarferol ledled yr Alban o ganllawiau a chymorth sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n galluogi'r system iechyd a gofal cymdeithasol gyfan i roi gofal diogel. Mae'r pecyn yn cynnwys adnoddau ar gyfer asesu parodrwydd sefydliadol, blaenoriaethu meysydd i'w gwella a fframwaith mesur sy'n cwmpasu gyrrwyr hanfodol gofal diogel: systemau ac ymddygiadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, cyfathrebu diogel mewn timau a rhyngddynt, a phrosesau clinigol a gofal diogel a chyson, ynghyd ag arweinyddiaeth i hyrwyddo diwylliant o ddiogelwch ar bob lefel.

Mae Llywodraeth yr Alban a HIS wedi mapio argymhellion yr Ymchwiliad yn erbyn pob un o'r ffactorau hanfodol sy'n sbarduno gofal diogel, er mwyn nodi camau pellach sydd eu hangen i gefnogi'r gwaith o gyflawni themâu trawsbynciol a adlewyrchir yng nghanfyddiadau'r Ymchwiliad.

Bydd Llywodraeth yr Alban yn gweithio gyda'u cymheiriaid yn yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a llywodraethau datganoledig eraill i sicrhau bod HIS a'r Corff Ymchwilio Diogelwch Gwasanaethau Iechyd yn cael eu cefnogi i weithio gyda'i gilydd yn effeithiol i rannu dysgu ac arferion da, ac i hyrwyddo diogelwch cleifion (gan gynnwys ystyried y ffyrdd y gallai gwaith y Corff Ymchwilio Diogelwch Gwasanaethau Iechyd ar systemau rheoli diogelwch lywio gwaith HIS ar hanfodion gofal diogel a gweithredu systemau rheoli ansawdd a diogelwch.)

Ar gyfer argymhelliad 4c) i., mae Llywodraeth yr Alban yn ymgysylltu ar waith sy'n cael ei wneud gan y Grŵp Rhyngweinidogol ledled y DU, yn enwedig ar gynigion ar gyfer Grŵp Diogelwch Cleifion y DU.

Bydd swyddogion Llywodraeth yr Alban yn parhau i gefnogi'r gwaith hwn, gan roi cipolwg ar y dirwedd bresennol yn yr Alban a sut mae hyn yn cyd-fynd â gwaith ar draws y gwledydd eraill, hwyluso gweithio effeithiol, a chwilio am gyfleoedd i wella a chysoni.

Llywodraeth Cymru

Yng Nghymru, cyflwynodd Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 y dyletswyddau gonestrwydd ac ansawdd a sefydlodd gorff llais y dinesydd newydd, sef Llais. Daeth hwn i rym fis Ebrill 2023. Mae'r ddyletswydd ansawdd yn disgrifio sut mae dysgu parhaus wrth galon system rheoli ansawdd. Mae adrodd, ymchwilio a dysgu o ddigwyddiadau diogelwch cleifion yn elfen bwysig. Mae'r ddyletswydd gonestrwydd yn rhoi dyletswydd sefydliadol statudol ar holl gyrrff y GIG i roi gwybod pan fydd pethau'n mynd o chwith, a chynnig cymorth yn sgil hynny. Mae'n adeiladu ar egwyddorion 'Bod yn Agored' o ran 'Gweithio i Wella', gan wreiddio bod yn agored ac yn dryloyw ymhellach.

Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon

Yn ogystal â chyflwyno Dyletswydd Gonestrwydd sefydliadol statudol yng Ngogledd Iwerddon, fel y nodir yn yr ymateb i Argymhelliad 4(a)i, mae'r Adran Iechyd hefyd yn gweithredu Fframwaith Bod yn Agored newydd. Bydd y Fframwaith hwn yn rhan sylfaenol o ymdrechion i gefnogi diwylliant agored, cyfiawn a dysgu ar draws y Gwasanaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Bydd angen ystyriaeth bellach ac ymgysylltu ehangach i asesu'r darlun rheoleiddio lleol yn llawn a'r ffordd orau o roi Argymhelliad 4(c) ar waith.

Y Camau Nesaf

Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ystyried sut mae ymgorffori'r cynigion hyn fel rhan o'r gwaith o reoleiddio rheolwyr y GIG, ar yr un pryd ag ystyried sut mae'r cynigion ar gyfer y ddyletswydd gonestrwydd o dan argymhelliad 4 yn rhyngweithio â Chyfraith Hillsborough sydd ar y gweill.

4d) Cofnodion Cleifion

4d. Cyn diwedd 2027, dylid cynnal archwiliad ffurfiol, a gaiff ei adrodd yn gyhoeddus, o raddfa llwyddiant digideiddio cofnodion cleifion ym mhob un o bedair awdurdodaeth iechyd y DU, gan fesur o leiaf lefelau mynediad cleifion at eu cofnodion personol, eu gallu i ganfod a chywiro gwallau ymddangosiadol ynddynt, eu gallu i ryngweithredu, a hyder gweithwyr iechyd proffesiynol ym manylion, cywirdeb a phrydlondeb unrhyw gofnod y maent yn ei gofnodi, ac nad oes llawer o ddeunydd y dylid ei gofnodi wedi cael ei hepgor. Dylid nodi'r camau nesaf.

Mae Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. Mae Llywodraeth yr Alban yn derbyn yr argymhelliad hwn yn llawn.

Mae canfyddiadau hanesyddol yr Ymchwiliad ynghylch methiannau cadw cofnodion y GIG yn annerbyniol. Fel y mae'r adroddiad yn ei nodi, mae gwaith eisoes yn mynd rhagddo i roi mwy o fynediad i gleifion at eu cofnodion eu hunain. Rydym yn benderfynol o sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu digideiddio mor llwyddiannus â phosibl ac rydym yn cytuno ag argymhelliad yr Ymchwiliad i gynnal archwiliad ffurfiol.

Llywodraeth y DU

Mae GIG Lloegr yn cefnogi rheng flaen y GIG i ddigideiddio ei ddata. Yn gysylltiedig â hyn, nod y rhaglen Digideiddio Rheng Flaen yw bod gan bob ymddiriedolaeth gofal eilaidd system cofnodion cleifion electronig (EPR) sy'n bodloni ei safonau.

Mae'r gwaith hwn yn seiliedig ar Asesiadau Aeddfedrwydd Digidol parhaus, sy'n cofnodi'r rhan fwyaf o'r cynnwys y gofynnir amdano yn yr archwiliad a nodir yn yr argymhelliad hwn. Mae GIG Lloegr yn penderfynu ar y ffordd orau o gasglu'r eitemau sy'n weddill, fel barn gweithwyr gofal proffesiynol.

Nod y dull hwn yw coladu'r wybodaeth y gofynnir amdani yn yr argymhelliad hwn mor effeithlon â phosibl, gan wneud y defnydd gorau o'r prosesau presennol a sicrhau eu bod yn cyd-fynd â gwaith ehangach. Mae GIG Lloegr yn parhau â gwaith i gadarnhau sut y gellid adrodd yn gyhoeddus ar hyn a nodi'r camau nesaf fel y pennir yn yr argymhelliad a bydd yn gallu amlinellu cynllun ar gyfer hyn erbyn haf 2025.

Llywodraeth yr Alban

Mae Llywodraeth yr Alban yn cytuno bod digideiddio cofnodion cleifion yn hanfodol, ac y dylai cleifion gael mynediad llawn at wybodaeth berthnasol amdanynt. Mae Llywodraeth yr Alban wedi ymrwymo i hyn. Yn ogystal â moderneiddio'r seilwaith presennol, fel drwy systemau TG newydd i feddygon teulu, mae cynlluniau'n cael eu datblygu ar gyfer gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol digidol personol

cenedlaethol newydd a fydd yn galluogi cleifion i ryngweithio â'u gwybodaeth iechyd. Bydd y rhaglen 'drws ffrynt digidol' yn lansio fersiwn prototeip cychwynnol o ap ar-lein ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yn Lanarkshire ym mis Rhagfyr 2025. Am y tro cyntaf, bydd hyn yn caniatáu i bobl gael gafael ar elfennau o'u gwybodaeth iechyd graidd. Bydd hyn yn cael ei ehangu dros y blynyddoedd nesaf i fod y brif ffordd i bobl allu cael gafael ar eu cofnodion personol a chanfod a cheisio datrys unrhyw wallau ymddangosiadol, gyda'r amrywiaeth o wybodaeth sydd ar gael yn cynyddu dros amser.

Bydd yn ofynnol i Fyrddau Iechyd barhau â'u cynnydd digideiddio lleol a bydd sicrwydd o gyflawni yn cynnwys addasu'r asesiad Aeddfedrwydd Digidol i wirio cynnydd y Bwrdd Iechyd o ran digideiddio cofnodion cleifion. Gofynnir i bob Bwrdd Iechyd gyflwyno diweddariad ar eu Hasesiadau Aeddfedrwydd Digidol erbyn diwedd mis Gorffennaf bob blwyddyn. Mae hon eisoes yn broses a adroddwyd yn gyhoeddus gyda'r gwaith ar adrodd ar asesiadau 2024 wedi dod i ben yn ddiweddar (gweler [Digital Maturity Assessment 2024 - Digital Healthcare Scotland](#) am y trosolwg diweddaraf). Bydd y set o gwestiynau'n cael ei hehangu yn 2025 er mwyn gallu bwrw ymlaen â'r sicrwydd hwn yn unol â'r amserlenni a argymhellir gan yr Ymchwiliad erbyn diwedd 2027. Bydd bwrw ymlaen â hyn yn 2025 yn rhoi gwybodaeth sylfaenol i ni tua gwanwyn 2026, a fydd wedyn yn caniatáu i Lywodraeth yr Alban nodi camau nesaf priodol o ran sut rydym yn cydlynu'r gwaith o ddigideiddio cofnodion cleifion yn ehangach.

Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno bod mynediad at gofnodion digidol yn grymuso cleifion, ac mae Ap GIG Cymru wedi cael ei gyflwyno fel y drws ffrynt i wasanaethau digidol. Mae cynnydd wedi'i wneud mewn gwasanaethau gofal sylfaenol. Y nod yw bod cleifion a'r cyhoedd yn:

- personoli eu taith iechyd;
- monitro cyflyrau iechyd yn haws;
- rhannu a derbyn gwybodaeth bwysig am iechyd;
- cymryd rhan weithredol yn eu hiechyd a'u llesiant eu hunain;
- cynllunio ar gyfer eu taith iechyd a gofal a chymryd rheolaeth ohoni; a hefyd
- cadw'n iach am fwy o amser.

Bydd Llywodraeth Cymru yn comisiynu gyda'i phartneriaid system i ddatblygu Cofnod Iechyd Electronig mewn gofal eilaidd sydd wedi'i gynllunio i wella hygyrchedd ehangach cofnodion digidol i glinigwyr a chleifion. Mae Ap y GIG yn parhau i ddatblygu yng Nghymru ac mae wrth galon cynlluniau i gynyddu mynediad at gofnodion i gleifion yn ystod 2025.

Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon

Mae Cofnod Electronig Cleifion rhanbarthol yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd, sy'n cynnwys y sectorau Gofal Aciwt, Gofal Eilaidd, Gofal Cymdeithasol ac Iechyd

Meddwl. Disgwylir i'r gwaith o'i gyflwyno gael ei gwblhau erbyn mis Mai 2025, wedi'i ddilyn gan gyfnod sefydlogi o flwyddyn. Cynhelir adolygiadau fel rhan o gam optimeiddio i sicrhau bod prosesau'n addas i'r diben ac y gellir eu gwella.

Mae mynediad cleifion at wybodaeth sy'n cael ei chadw yn cael ei ddarparu drwy nifer o sianeli, gan gynnwys Ap a gwefan. Mae'r datrysiad Cofnod Electronig Cleifion hefyd yn galluogi cleifion i rannu gwybodaeth benodol ag eraill. Bydd mynediad hawdd at wybodaeth yn helpu cleifion i arfer eu hawliau presennol (o dan GDPR y DU a deddfwriaeth Diogelu Data) i sicrhau bod eu cofnodion yn gywir.

Ar hyn o bryd mae Gogledd Iwerddon yn edrych ar sut y gellir creu cofnod cyfannol, i gynnwys mewnbwn gan ddarparwyr y sector annibynnol o dan amodau rheoledig. Mae nifer o faterion llywodraethu wedi cael eu nodi ac mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i fynd i'r afael â'r rhain.

Unwaith y bydd y Cofnod Electronig Cleifion rhanbarthol wedi'i gyflwyno'n llawn ar draws y pum Ymddiriedolaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol, rhagwelir y bydd y gwaith optimeiddio arfaethedig yn cynnwys elfen o adolygu ac archwilio. Bydd trafodaethau gyda Phrif Swyddog Gwybodaeth Ddigidol yr Adran yn ceisio archwilio sut bydd yr ateb sydd ar waith yn parhau i fodloni gofynion Argymhelliad 4d.) Fel rhan o weithredu'r system, mae amserlenni ac adroddiadau perfformiad wedi cael eu cyhoeddi ac yn dal i gael eu cyhoeddi fel rhan o fonitro parhaus, felly ni fydd angen archwiliad ffurfiol.

4e) Cydlynu cofnodion cleifion gyda llywodraethau datganoledig

4e. Dylai'r gweinyddiaethau gofal iechyd cenedlaethol yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon ystyried cydlynu eu dulliau gweithredu ymhellach, yn enwedig er mwyn sicrhau bod patrymau niwed, neu dueddiadau, yn cael eu nodi a bod modd cytuno a gweithredu ar y cyd ar unrhyw ymateb a fyddai, er budd diogelwch cleifion, yn cael ei gydlynu'n well na'r hyn a fyddai'n cael ei adael i bob gweinyddiaeth unigol.

Mae Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn derbyn yr argymhelliad hwn yn llawn.

Rydym yn cydnabod bod digwyddiadau diogelwch cleifion mewn gofal iechyd yn ffynhonnell dysgu a blaenoriaethau diogelwch cleifion. Mae systemau dysgu ac adrodd am ddigwyddiadau diogelwch cleifion greddf, sy'n cofnodi ac yn darparu dysgu strwythuredig, yn allweddol i wella diogelwch cleifion ac atal niwed.

Mae'r GIG yn Lloegr yn arwain y byd yn hyn o beth, ar ôl gweithredu un gronfa ddata genedlaethol o'r holl ddigwyddiadau diogelwch cleifion a gofnodwyd ers 2004. Cafodd y gronfa ddata hon ei hailwampio a'i diweddarau'n ddiweddar. Fe'i gelwir yn wasanaeth Dysgu o Ddigwyddiadau Diogelwch Cleifion (LFPSE), ac mae'n coladu ac yn cefnogi'r gwaith o ddadansoddi tua 3 miliwn o ddigwyddiadau diogelwch cleifion y flwyddyn, y rhan fwyaf ohonynt yn ddigwyddiadau dim niwed (damweiniau a fu bron â digwydd) a niwed isel. Mae Tîm Cenedlaethol Diogelwch Cleifion GIG Lloegr yn adolygu cannoedd o'r digwyddiadau hyn bob wythnos drwy'r LFPSE, gan chwilio am risgiau y gellir gweithredu arnynt, gan gynnwys drwy gyhoeddi Rhybuddion Diogelwch Cleifion Cenedlaethol a chydweithio â phartneriaid i fynd i'r afael â materion diogelwch cleifion a nodwyd. Mae GIG Lloegr yn amcangyfrif bod y gwaith hwn yn arbed 160 o fywydau bob blwyddyn, yn lleihau anabledd o ganlyniad i ddigwyddiadau niwed difrifol tua 480 o achosion bob blwyddyn ac yn arbed £13.5m mewn costau triniaeth ychwanegol bob blwyddyn. Mae hyn yn ychwanegol at brif gyfrifoldeb darparwyr y GIG i ymateb i'r digwyddiadau diogelwch cleifion hyn gan eu bod yn cael eu cofnodi'n lleol.

Llywodraeth yr Alban

Mae Llywodraeth yr Alban wedi ymrwymo i gefnogi'r gwaith o ddatblygu diwylliant agored sy'n dysgu yn y GIG yn yr Alban, ac mae proses gadarn a chyson o adolygu digwyddiadau niweidiol yn rhan allweddol o hynny. Ers mis Ionawr 2020, mae pob bwrdd iechyd y GIG wedi gorfod rhoi gwybod i Healthcare Improvement Scotland (HIS) pan fyddant wedi comisiynu adolygiad sylweddol o ddigwyddiadau niweidiol (SAER) ar gyfer digwyddiad niweidiol categori 1. Nod hyn yw datblygu trosolwg cenedlaethol mwy cynhwysfawr o ddigwyddiadau niweidiol ledled yr Alban, gan gynnwys nifer cytunedig o 'niweidiau' diffiniedig a chamau gweithredu dysgu a gwella

cysylltiedig. Adolygodd HIS y fframwaith digwyddiadau niweidiol cenedlaethol a chyhoeddodd fersiwn wedi'i diweddarau, sef *'Fframwaith cenedlaethol ar gyfer adolygu a dysgu o ddigwyddiadau niweidiol yn y GIG yn yr Alban'*, ym mis Chwefror 2025.

Fel rhan o system rheoli ansawdd, mae HIS yn ystyried amrywiaeth o ffynonellau data i nodi patrymau niwed, neu dueddiadau, gan gynnwys pryderon a gyflwynir iddo drwy'r broses 'Ymateb i Bryderon', gwybodaeth a rennir gan sefydliadau partner drwy'r Rhwydwaith Rhannu Gwybodaeth, Iechyd a Gofal, a data meintiol ac ansoddol ar ddiogelwch, ansawdd a pherfformiad systemau.

Llywodraeth Cymru

Yng Nghymru, 'rhoi ansawdd a diogelwch uwchlaw popeth arall' yw'r gwerth craidd cyntaf yn 'Cymru Iachach'. Mae pob digwyddiad diogelwch cleifion, gan gynnwys damweiniau a fu bron â digwydd, yn cael eu hadrodd drwy Datix Cymru. Mae cyrff y GIG yn gallu dadansoddi data, nodi risgiau, themâu a thueddiadau i echdynnu'r gwersi i'w dysgu a'u lledaenu'n lleol. Adroddir am Ddigwyddiadau sy'n Adroddadwy yn Genedlaethol (NRI) i Weithrediaeth GIG Cymru sy'n cyflawni swyddogaeth oruchwyllo a sicrwydd. Defnyddiodd ddata a gwybodaeth gan NRI i lywio gweithgareddau sicrwydd lleol a chenedlaethol. Mae Gweithrediaeth GIG Cymru wedi datblygu dangosfwrdd Beacon i gefnogi'r gwaith o reoli gwybodaeth am ansawdd a diogelwch ar draws GIG Cymru. Mae'n cynnwys data Cymru gyfan, data byrddau iechyd unigol ac ymddiriedolaethau'r GIG, sy'n cael ei ddefnyddio yn Llywodraeth Cymru a GIG Cymru, gyda gwaith yn cael ei wneud i ychwanegu rhagor o ddata.

Yn dilyn arfarniad annibynnol o ansawdd a diogelwch yn GIG Cymru, bydd Gweithrediaeth GIG Cymru yn datblygu Cynllun Ansawdd a Diogelwch Cleifion rhwng 3 a 5 mlynedd. Bydd hyn yn elfen allweddol o system rheoli ansawdd ehangach. Bydd y cynllun yn pennu'r newid diwylliannol sydd ei angen i sefydlu system gofal iechyd dysgu effeithlon sy'n sbarduno gwelliant drwy ddulliau gwrando a dysgu i gleifion a staff, a thrwy brosesau rheoli ansawdd effeithiol.

Mae gweithgor yn ystyried y gwahanol ddulliau gweithredu ar gyfer sut mae patrymau niwed neu dueddiadau mewn niwed i gleifion yn cael eu nodi ym mhob un o'r pedair gwlad a bydd yn penderfynu pa feysydd y dylai cydlynw gwell ganolbwyntio arnynt a sut gallai ymateb cyson ymysg y pedair gwlad weithio'n ymarferol a manteisio ar gyfleoedd i ddysgu gwersi.

5) Dod â'r Diwylliant Amddiffynnol i ben yn y Gwasanaeth Sifil a'r Llywodraeth

5a. Dylai'r Llywodraeth ailystyried a yw'n ddigon, yng ngoleuni'r ffeithiau a ddatgelir gan yr Ymchwiliad hwn, i barhau i ddibynnu ar y dyletswyddau anstatudol presennol yn y Gwasanaeth Sifil a'r Codau Gweinidogol, ynghyd â'r dyletswyddau cyfreithiol hynny sy'n digwydd ar yr adegau pan fydd gweision sifil a gweinidogion yn rhyngweithio â llysoedd, cwestau ac ymchwiliadau, i sicrhau gonestrwydd.

5b. Ar ôl adolygu, os bydd y Llywodraeth o'r farn ei bod yn ddigonol dibynnu ar y dyletswyddau anstatudol presennol yng Nghod y Gwasanaeth Sifil, dylai serch hynny gyflwyno dyletswydd statudol o atebolrwydd ar uwch weision sifil am onestrwydd a chyflawnder y cyngor a roddir i Ysgrifenyddion a Gweinidogion Parhaol, a gonestrwydd a chyflawnder eu hymateb i bryderon a godir gan aelodau o'r cyhoedd a staff.

5c. Dylai'r Llywodraeth ystyried i ba raddau y dylai Gweinidogion fod yn ddarostyngedig i ddyletswydd y tu hwnt i'w dyletswydd bresennol i'r Senedd o dan y Cod Gweinidogol.

Derbynnir yr argymhellion hyn mewn egwyddor ac mae'r Prif Weinidog wedi ymrwymo i gyflwyno deddfwriaeth ar ddyletswydd gonestrwydd i weision cyhoeddus.

Mae gweithredoedd Gweision Sifil a Gweinidogion a ddatgelwyd yn yr adroddiad yn peri pryder mawr ac nid ydynt yn adlewyrchu'r gwerthoedd rydym yn disgwyl i'r rhai sy'n gwasanaethu'r cyhoedd eu cynnal. Mae'r Llywodraeth yn derbyn, yng ngoleuni'r ffeithiau a ddatgelwyd gan yr Ymchwiliad Gwaed Heintiedig ac ymchwiliadau cyhoeddus eraill, y dylid cyflwyno dyletswydd gonestrwydd statudol.

Mae'r Prif Weinidog wedi ymrwymo i ddeddfwriaeth ar Ddyletswydd Gonestrwydd sy'n cael ei chyflawni gan y Llywodraeth hon. Cadarnhaodd y bydd y ddyletswydd yn berthnasol i awdurdodau cyhoeddus a gweision cyhoeddus ac y bydd yn cynnwys sancsiynau troseddol. Mae'r Llywodraeth yn ymgynghori'n eang ar y mater hwn, ac mae'n gweithio i ddrafftio'r fersiwn gorau o Gyfraith Hillsborough cyn iddi gael ei chyflwyno i'r Senedd. Bydd y Bil yn mynd i'r afael â'r diwylliant amddiffynnol annerbyniol sy'n gyffredin mewn gormod o'r sector cyhoeddus - a amlygwyd mewn adroddiadau diweddar fel adroddiad yr Esgob James Jones ar brofiadau teuluoedd Hillsborough a phrofiadau'r Ymchwiliad hwn. Mae'r Bil yn rhan o'n hymdrechion ehangach i greu gwleidyddiaeth gwasanaeth cyhoeddus.

Cyhoeddodd y Prif Weinidog God Gweinidogol ar 6 Tachwedd a oedd yn pwysleisio bod angen i swyddi gweinidogol fod yn agored ac yn onest, ac y dylai gweinidogion fynnu a chroesawu cyngor gonest.

Llywodraeth Cymru

Mae'r Prif Weinidog yn adolygu'r Cod Gweinidogol a bydd yn cadw'r argymhelliad hwn mewn cof fel rhan o'r broses hon.

Llywodraeth yr Alban

Yn yr Alban, cyhoeddodd y Prif Weinidog God Gweinidogol diwygiedig yr Alban ar 17 Rhagfyr 2024, gan gryfhau tryloywder, atebolrwydd a chraffu annibynnol yn sylweddol. Ni fydd ymchwiliadau i honiadau o dorri'r Cod yn digwydd mwyach ar gyfarwyddyd y Prif Weinidog yn unig. Bydd Cynghorwyr Annibynnol yn gallu lansio eu hymchwiliadau eu hunain pryd bynnag y byddant yn teimlo bod cyfiawnhad dros hynny. Os bu achos o dorri'r cod, byddant yn gallu cynghori'r Prif Weinidog ar sancsiynau priodol. Y newidiadau hyn yw'r rhai mwyaf arwyddocaol a wnaed i'r Cod ers i Gynghorwyr Annibynnol gael eu cyflwyno yn 2008, a byddant yn sicrhau y glynir wrth y safonau uchaf o ran uniondeb, atebolrwydd a gonestrwydd ar bob lefel o arweinyddiaeth.

Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon

Mae Gwasanaeth Sifil Gogledd Iwerddon (NICS) yn fater datganoledig, a disgwylir i bob gwas sifil ymgymryd â'i ddyletswyddau o dan werthoedd craidd **Cod Moeseg NICS**. Cyhoeddir y Cod hwn gan yr Adran Gyllid ac fe'i hadolygir yn rheolaidd.

Rhaid i holl Weinidogion Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon gadarnhau **Addewid Swydd** statudol cyn ymgymryd â'u swydd. Mae hyn yn cynnwys addewid i gydymffurfio â'r **Cod Ymddygiad Gweinidogol**, sy'n mynnu bod Gweinidogion yn cynnal y safonau ymddygiad uchaf ac yn ymddwyn mewn ffordd sy'n cynnal y safonau priodoldeb uchaf, ac yn cynnal saith egwyddor bywyd cyhoeddus. Mae'r Addewid Swydd a'r Cod Ymddygiad Gweinidogol cysylltiedig wedi'u nodi yn Atodlen 4 i Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998 ('Deddf 1998').

Gall Comisiynydd Safonau'r Cynulliad archwilio achosion honedig o dorri Cod Ymddygiad Gweinidogol.

Yn ogystal, mae **Cod Gweinidogol Gogledd Iwerddon** yn nodi'r rheolau a'r gweithdrefnau ar gyfer arfer dyletswyddau a chyfrifoldebau Gweinidogion ac is-Weinidogion Cynulliad Gogledd Iwerddon. Yn rhinwedd adran 28A o Ddeddf 1998, mae gan Weinidogion Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon ddyletswydd statudol i weithredu yn unol â'r Cod Gweinidogol, sydd hefyd yn cynnwys yn ei darpariaethau yr Addewid Swydd a'r Cod Ymddygiad Gweinidogol y cyfeirir atynt uchod.

Mae Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn derbyn Argymhelliad 5 mewn egwyddor. Mae gwaith yn mynd rhagddo dan arweiniad yr Adran Gyllid i benderfynu ar sefyllfa ynglŷn â Chyfraith Hillsborough, a fydd yn sail i'r ffordd orau o weithredu Argymhelliad 5 yn y cyd-destun hwnnw wrth symud ymlaen. Cytunodd Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon y dylai Bil Llywodraeth y DU ymestyn i Ogledd Iwerddon, yn amodol ar asesiad risg cyn y cynnig cydsyniad deddfwriaethol.

6) Monitro niwed i'r iau/afu i bobl sydd wedi'u heintio â Hepatitis C

Dylai pob claf sydd wedi dal hepatitis drwy drallwysiad gwaed neu gynnryrch gwaed gael y gofal canlynol:

6a) i. Dylai'r rheini sydd wedi cael diagnosis o sirosis ar unrhyw adeg gael eu monitro gydol oes drwy brawf FibroScan bob chwe mis ac adolygiad clinigol blynyddol, naill ai dan arweiniad nyrs, ymgynghorydd neu, lle bo hynny'n briodol, gan feddyg teulu sydd â diddordeb arbenigol mewn hepatitis.

Derbynnir yr argymhelliad hwn yn llawn gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban. Mae Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor.

6a) ii. Dylai'r rheini sydd â ffibrosis gael yr un gofal

Mae Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor.

6a) iii. Os oes unrhyw ansicrwydd ynghylch a oes gan glaf ffibrosis, dylai gael yr un gofal

6a) iv. Dylid defnyddio technoleg [uwchsain] FibroScan i ddelweddu'r iau/afu, yn hytrach na dewisiadau amgen

Derbynnir argymhellion 6a) iii-iv) yn llawn gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban. Mae Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn eu derbyn mewn egwyddor.

6a) v. Dylai'r rhai sydd wedi cael Hepatitis C y gellir ei briodoli i waed neu gynhyrchion gwaed heintiedig gael eu gweld gan hepatolegydd ymgynghorol, yn hytrach nag aelod iau o staff, lle bynnag y bo'n ymarferol

Mae Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor.

6a) vi. Dylai'r cyrff hynny sy'n gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau hepatoleg ym mhob un o wledydd y DU gyhoeddi'r camau maen nhw wedi'u cymryd i fodloni eu hunain bod y gwasanaethau maen nhw'n eu comisiynu yn diwallu anghenion penodol y grŵp o bobl sy'n cael eu niweidio gan driniaeth y GIG

Derbynnir yr argymhelliad hwn yn llawn gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban. Mae Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor.

Tynnodd yr Ymchwiliad sylw at y methiant anfaddeuol i gydnabod, cyn gynted ag y bo modd, y risgiau o drosglwyddo a natur ddifrifol bosibl Hepatitis C. Roedd y methiant hwn yn golygu colli cyfle, am '*...unrhyw wahaniaeth amlwg yn y dull o drin, neu hyd yn oed unrhyw ystyriaeth a oedd cyfiawnhad dros newid y dull gweithredu*', a oedd yn amlwg yn drychinebus.

Ar ôl cyhoeddi adroddiad yr Ymchwiliad ym mis Mai 2024, ysgrifennodd GIG Lloegr at yr Ymchwiliad (drwy'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol), gan ofyn am eglurhad ynghylch yr argymhelliad hwn. Ysgrifennwyd 2 llythyr, un ar 10.06.24 (llythyr 1) ac un ar 11.09.2024 (llythyr 2).

Roedd Llythyr 1 yn ymwneud yn bennaf â materion ynghylch technegau sganio a ddefnyddir i fonitro clefyd yr iau/afu. Derbyniwyd ymatebion (21.06.24) gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Swyddfa'r Cabinet yn cadarnhau dehongliad clinigol GIG Lloegr. Mae hyn yn ymwneud yn benodol â defnyddio FibroScan ac uwchsain i fonitro datblygiad clefyd yr iau/afu. Mae GIG Lloegr, drwy drafodaethau â chlinigwyr arbenigol, wedi rhoi sylw i'r mater hwn drwy sicrhau y glynir wrth ganllawiau rhyngwladol cydnabyddedig sy'n seiliedig ar dystiolaeth i reoli clefyd yr iau/afu.

Roedd Llythyr 2 (11.09.24) yn ymwneud â natur y gwasanaeth hepatoleg a ddarperir a'r gofal a ddarperir hefyd. Mae'r llythyr hwn ar gael ar wefan yr Ymchwiliad. Cafwyd ymateb ar 16.10.24 sydd hefyd ar gael ar wefan yr Ymchwiliad. Roedd ymateb yr Ymchwiliad yn cadarnhau mai'r amcan ar gyfer argymhelliad 6 yw cadw golwg ar ganser hepatogellog, yn ogystal â monitro datblygiad ffibrosis a sirosis yn y grwpiau a nodwyd.

O ran rôl hepatolegydd ymgynghorol (Argymhelliad 6(v)), rhoddodd yr Ymchwiliad yr eglurhad canlynol:

Mae'n dilyn mai argymhelliad yr Ymchwiliad yw bod pob claf sydd wedi'i heintio â Hepatitis C drwy waed neu gynhyrchion gwaed sydd wedi'u heintio yn cael cynnig o leiaf un ymgynghoriad gyda hepatolegydd ymgynghorol lle bynnag y bo hynny'n ymarferol.

Ar 16 Hydref 2024, ysgrifennodd Cadeirydd yr Ymchwiliad at Gyfarwyddwr Meddygol Cenedlaethol/Prif Swyddogion Meddygol Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon ar faterion cysylltiedig. Roedd y llythyr hwn yn rhoi rhagor o eglurder ynghylch y cyfeiriadau at dechnoleg uwchsain a FibroScan ynglŷn ag Argymhelliad 6 fel a ganlyn:

I bobl sy'n darllen yr ohebiaeth hon, yn seiliedig ar yr holl ddeunydd cyn yr Ymchwiliad adeg yr Adroddiad ac ers hynny, mae'n well cynnal prawf FibroScan neu brawf elastograffig tebyg er mwyn monitro presenoldeb ffibrosis, a sirosis, a'u datblygiad. Fodd bynnag, mae'n well monitro datblygiad canser yr iau/afu drwy ddefnyddio uwchsain, gan ddefnyddio (neu, fel y bo'n briodol, heb) brawf AFP.

Llywodraeth y DU

Rydym yn derbyn yr argymhelliad hwn ond byddwn yn cydbwyso sut mae'n cael ei weithredu yn erbyn rôl GIG Lloegr i hyrwyddo mynediad teg i bawb, yr egwyddor y dylai cleifion gael yr un driniaeth ni waeth sut y cafwyd y clefyd, ymarferoldeb gweithredu llwybrau gwahanol ar gyfer carfanau o gleifion, a'r canllawiau clinigol a'r gofal diweddaraf sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Mae penderfyniad y Llywodraeth i dderbyn 6a) i-v. yn llawn neu mewn egwyddor yn amodol ar yr esboniadau a geir gan yr Ymchwiliad drwy ohebiaeth y cyfeirir ati uchod.

Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r GIG wedi ymrwymo i sicrhau bod pob claf hepatitis yn cael gofal priodol, gan gynnwys y cleifion hynny a ddaliodd hepatitis drwy drallwysiad gwaed neu gynnyrch gwaed. Bydd Hepatologydd ymgynghorol yn goruchwyllo gofal pob claf ac mae GIG Lloegr wedi cynnal archwiliad o'r llwybrau presennol i fodloni ei hun bod cleifion sydd â diagnosis Hepatitis C yn cael gofal dilynol a monitro priodol yn unol â'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) a chanllawiau proffesiynol perthnasol.

Bydd GIG Lloegr hefyd yn mynd ati'n rhagweithiol i nodi cleifion sydd ag anhwylderau gwaedu:

1. sydd efallai wedi cael eu heintio â Hepatitis C ond erioed wedi cael prawf ffibrosis, felly heb gael gwybodaeth am gamau'r ffibrosis, ac efallai eu bod wedi cael eu colli i wasanaethau hepatoleg. Mae fframwaith yn cael ei ddatblygu i ddiffinio'r unigolion hyn a galluogi canolfannau haemoffilia i gyfeirio at Rwydwaith Cyflawni Gweithredol lleol ar gyfer FibroScan, ac asesu ar gyfer monitro pellach os yw'n briodol; a hefyd
2. y rhai y gwyddys eu bod wedi dod i gysylltiad â chynhyrchion gwaed 'ffactor' ond na wyddys eu bod wedi cael eu profi na'u trin am hepatitis. Byddwn yn cysylltu â'r cleifion hyn ac yn cynnig profion iddynt ac yn eu cyfeirio at ofal pellach fel y bo'n briodol.

Bydd cofrestr gwyliadwriaeth sirosis newydd y GIG yn cael ei chyflwyno i sicrhau bod un ffynhonnell ddata ar gael i gefnogi'r gwaith o oruchwyllo cleifion sydd â sirosis yn y tymor hir.

Er bod disgwyl i nifer y cleifion y gallai fod angen eu profi a'u holrhain fod yn fach, mae GIG Lloegr wedi ymrwymo i wneud pob ymdrech i sicrhau bod pob claf ag anhwylderau gwaedu a allai fod wedi dod i gysylltiad ag ef yn hanesyddol, wedi cael profion, triniaeth a monitro parhaus priodol.

Llywodraeth yr Alban

Mae Llywodraeth yr Alban a'r GIG yn yr Alban wedi ymrwymo i sicrhau bod yr holl gleifion sydd wedi'u heintio â Hepatitis C (HCV) drwy drallwysiadau gwaed neu gynhyrchion gwaed yn cael gofal o'r ansawdd uchaf ac felly dylid cynnig

goruchwyliaeth a monitro priodol, ac y dylem sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn cael eu darparu'n gyson. Comisiynodd Grŵp Goruchwyllo a Sicrwydd yr Ymchwiliad Gwaed Heintiedig (OAG) yr Alban gyngor clinigol ar rai o'r pwyntiau a godwyd yn yr argymhellion i benderfynu sut y dylid eu cyflawni.

Mae monitro parhaus (gan gynnwys sganiau uwchsain bob chwe mis) eisoes yn cael ei gynnig i'r rhan fwyaf o gleifion sydd â sirosis, felly mae Llywodraeth yr Alban yn fodlon bod argymhelliad 6a) i. yn cyd-fynd â'r arfer presennol. Hefyd, yn unol â chanllawiau clinigol rhyngwladol cyfredol, mae Llywodraeth yr Alban yn derbyn 6a) ii. mewn egwyddor ar gyfer y rheini sydd â ffibrosis datblygedig.

Yn unol â'r eglurhad dilynol a gyhoeddwyd gan yr Ymchwiliad Gwaed Heintiedig, a gadarnhaodd fod profion FibroScan yn cael eu hargymhell i asesu ffibrosis (creithiau'r iau/afu), a dylid defnyddio sganiau uwchsain i fonitro cleifion ar gyfer carsinoma hepatogellolog (canser yr iau/afu), mae Llywodraeth yr Alban yn derbyn argymhelliad 6a) iv yn llawn, ac mae'n fodlon bod hyn yn cyd-fynd â'r canllawiau clinigol cyfredol.

Mae Llywodraeth yr Alban hefyd wedi ymrwymo i sicrhau bod gofal priodol yn cael ei ddarparu'n gyson i ddiwallu anghenion y grŵp o bobl sy'n cael eu niweidio gan driniaeth y GIG. Felly, er nad yw gwasanaethau hepatoleg yn cael eu comisiynu yn yr Alban, mae Llywodraeth yr Alban yn bwrw ymlaen ag argymhelliad 6a) vi. i sicrhau bod gwasanaethau a chymorth priodol ar gael ym mhob Bwrdd Iechyd yn yr Alban.

Ar wahân gofynnodd y Grŵp Goruchwyllo a Sicrwydd am gyngor clinigol ar fonitro parhaus i ddioddefwyr gwaed sydd wedi'u heintio sydd â Hepatitis B cronig (HBV) ac mae wedi cytuno y dylai'r camau y bydd Llywodraeth yr Alban yn eu cymryd ynghylch argymhelliad 6a(vi) hefyd sicrhau bod monitro priodol ar waith i'r rheini sydd â HBV cronig.

Llywodraeth Cymru

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ddatganiad Ansawdd Clefyd yr Iau/Afu ym mis Tachwedd 2022, sy'n nodi ein gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau clefyd yr iau/afu o ansawdd da dros y deng mlynedd nesaf. Rydym yn gweithio'n agos gyda'r Rhwydwaith Gweithredu Clefyd yr Iau/Afu (LDIN) i roi'r datganiad ansawdd ar waith. Mae'r meysydd blaenoriaeth yn cynnwys gwella'r broses o ganfod clefyd yr iau/afu yn gynnar a dileu Hepatitis B a C.

Mae Cymru'n gallu bodloni argymhelliad 6 yn gyffredinol ac mae Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn gweithio ar lefel y DU i geisio safbwynt cyffredin. Ysgrifennodd Dirprwy Brif Swyddog Meddygol Cymru Gwasanaethau Iechyd at holl Gyfarwyddwyr Meddygol y Bwrdd Iechyd ym mis Gorffennaf 2024 i ofyn iddynt ystyried argymhelliad 6 ynglŷn â chlefyd yr iau/afu.

Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon

Ar hyn o bryd yng Ngogledd Iwerddon, fel sy'n wir yn yr Alban, mae'r rhan fwyaf o gleifion â sirosis eisoes yn cael cynnig sganiau uwchsain bob chwe mis fel rhan o'u

monitro clinigol hirdymor. Mae hyn yn berthnasol i bob claf sydd â sirosis, ac o'r herwydd, mae'n bodloni gofynion Argymhelliad 6a) i.

Mae cymhlethdod yn codi i'r rhai sydd wedi cael eu trin yn y gorffennol ac nad ydynt yn cael eu hadolygu'n glinigol oherwydd bod eu diagnosis yn rhagddyddio argaeledd profion FibroScan.

O ran argymhelliad 6a) v., yr arfer presennol yng Ngogledd Iwerddon yw bod cleifion sy'n cael diagnosis o Hepatitis C, a lle gellir priodoli hynny i waed heintiedig, yn cael cynnig apwyntiad dan arweiniad ymgynghorydd.

Ymgynghorir â Swyddfa Prif Swyddog Meddygol Gogledd Iwerddon a chydweithwyr clinigol arbenigol i gael rhagor o wybodaeth a dealltwriaeth ddyfnach o oblygiadau'r argymhellion hyn.

Y Camau Nesaf

Llywodraeth y DU

Bydd GIG Lloegr yn dylunio ymarfer 'Edrych yn ôl' i nodi rhestr o bobl y dylid cysylltu â nhw, a bydd yn cyhoeddi canllawiau cyflawn i nodi a rheoli cleifion poblogaeth triniaeth HCV hanesyddol, nad ydynt o bosibl wedi cael asesiad ffibrosis/sirosis, gan sicrhau cysylltiad â gofal.

Llywodraeth yr Alban

O ran 6a) ii. a iii., mae Llywodraeth yr Alban yn parhau i weithio gydag arbenigwyr clinigol a chynrychiolwyr rhanddeiliaid i sicrhau bod gofal priodol, teg ac o ansawdd uchel yn cael ei ddarparu i bob carfan o gleifion yn unol â chanllawiau clinigol sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac egwyddorion Meddygaeth Realistig. Ar hyn o bryd, mae gofal cleifion yn cael ei ddarparu drwy dimau amlddisgyblaethol sy'n cael eu goruchwyllo gan hepatolegydd ymgynghorol neu feddyg ymgynghorol arall sydd â phrofiad priodol (ee gastroenterolegydd). Fodd bynnag, mae'r Grŵp Goruchwyllo a Sicrwydd yn ystyried a oes angen unrhyw adolygiad pellach i sicrhau bod y rhai a gafodd driniaeth yn y gorffennol wedi cael ymgynghoriad ac asesiad priodol. Mae Llywodraeth yr Alban hefyd yn ystyried nifer o opsiynau i fwrw ymlaen ag argymhelliad 6a) vi. i sicrhau bod gwasanaethau a chymorth priodol ar gael i gleifion ym mhob Bwrdd Iechyd yn yr Alban. Mae Llywodraeth yr Alban yn awyddus i archwilio ymateb sy'n cyd-fynd â gwledydd eraill y DU yn absenoldeb unrhyw wahaniaethau o ran cyngor clinigol.

Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon

Bydd gwaith yn parhau gydag arbenigwyr clinigol, partneriaid a rhanddeiliaid i sicrhau bod gofal teg yn cael ei roi i bob claf yn unol â'r canllawiau clinigol cyfredol, a chynnal ymgysylltiad â chymheiriaid yn y pedair gwlad, yn enwedig ynglŷn ag Argymhellion 6a) ii. a iii.

7) Diogelwch Cleifion: Trallwysiadau gwaed

7a) Asid Tranecsamig

7a) i. Yn Lloegr, mae Pwyllgorau Trallwyso Ysbytai ac ymarferwyr trallwyso yn cymryd camau i sicrhau bod ystyriaeth o asid tranecsamig ar restr wirio llawfeddygol pob ysbyty; bod gofyn i gyfarwyddwyr meddygol ysbytai adrodd i'w byrddau a phrif weithredwr eu Hymddiriedolaeth ynghylch hyd a lled ei ddefnyddio; a bod y bwrdd yn adrodd yn flynyddol i GIG Lloegr ynghylch canran y llawdriniaethau cymwys sydd wedi cynnwys ei ddefnyddio. Os yw'r ganran yn is na 80% neu wedi gostwng ers y flwyddyn flaenorol, dylid cynnwys esboniad gyda'r adroddiad hwn am y methiant i ddefnyddio mwy o asid tranecsamig a thrwy hynny leihau'r risg i ddiogelwch cleifion sy'n gysylltiedig â thrallwyso gwaed neu gelloedd gwaed coch.

Mae Llywodraeth y DU yn derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor.

7a) ii. Yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, dylid ystyried defnyddio asid tranecsamig yn driniaeth sy'n cael ei ffafrio ar gyfer pob llawdriniaeth gymwys.

Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban yn derbyn yr argymhelliad hwn yn llawn, ac mae Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor.

7a) iii. Dylid ystyried safoni a meincnodi perfformiad trallwyso rhwng ysbytai er mwyn rheoli gwaed cleifion yn well.

Mae Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn derbyn yr argymhelliad hwn yn llawn. Mae rhannau o'r argymhelliad yn cael eu datblygu ledled y DU.

Mae'r Ymchwiliad yn tynnu sylw at y ffaith bod llawer o wersi wedi cael eu dysgu ers i'r sgandal hon gyrraedd ei huchafbwynt. Er na all unrhyw driniaeth feddygol fod yn gwbl ddi-risg, mae'r safonau diogelwch presennol ar gyfer rhoi gwaed a thrallwyso yn llym. Drwy gydol y broses rhoi gwaed, mae prosesau ar waith i sicrhau diogelwch gwaed a chynhyrchion gwaed. Diolch byth, mae'r risg o niwed difrifol oherwydd trallwysiad gwaed yn y DU yn isel, sef oddeutu un/1 o bob 11,000 o gydrannau gwaed a roddir, ond rhaid gwneud mwy i sicrhau bod yr arferion gorau'n cael eu rhoi ar waith yn gyson.

Llywodraethau'r DU

Mae argymhelliad 7 yn cynnwys set arbennig o gymhleth o is-argymhellion. Er mwyn sicrhau dull gweithredu cydgysylltiedig ar draws y pedair gwlad, mae arbenigwyr o bob un o gyrff y GIG yn y pedair gwlad, gwasanaethau gwaed a chyrrff allanol fel y Pwyllgor Trallwyso Gwaed Cenedlaethol a rhaglen Peryglon Trallwyso Difrifol (SHOT) wedi ffurfio gweithgor i fwrw ymlaen â hyn yn ofalus. O ystyried y

cymhlethdod hwn, mae'n debygol y bydd yn cymryd sawl blwyddyn i fynd i'r afael yn llawn â'r is-argymhellion hyn. Bydd angen cyllid hefyd i weithredu'r polisïau clinigol hyn, ac nid yw hyn wedi'i nodi eto.

Er ein bod yn cytuno ag argymhelliad yr Ymchwiliad i gynyddu'r defnydd o asid tranecsamig, mae angen gwneud rhagor o waith i sicrhau ei fod yn cael ei roi ar waith yn ddiogel ac yn ddidrafferth o ran gofal cleifion. Ar hyn o bryd mae'r gweithgor, gydag ymgysylltiad gan randdeiliaid y pedair gwlad, yn ystyried cynlluniau i gynyddu'r defnydd o asid tranecsamig. Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda chyrrff proffesiynol ac arbenigwyr i ystyried canllawiau i ddarparu'r a rhoi ystyriaeth ofalus i anghenion sefydliadau lleol. Mae gwaith cynllunio ar y gweill ar gyfer gweithgareddau cyfathrebu cysylltiedig i gefnogi'r broses o'u rhoi ar waith gan amharu cyn lleied â phosibl ar gleifion.

Llywodraeth y DU

O ran yr argymhelliad ar safoni a meincnodi, mae adolygiad o arferion meincnodi cyfredol a gofynion casglu data cysylltiedig a gwybodaeth a dadansoddi parhaus, gan gynnwys dangosfwrdd iechyd model ac archwiliad clinigol cenedlaethol, wedi cael ei roi ar waith. Bydd hyn yn cael ei ddilyn gan y gwaith o ddatblygu categorïau meincnodi newydd a bydd angen cyllid i ehangu'r dangosfwrdd iechyd enghreifftiol.

Mae cynnig wedi cael ei gyflwyno i'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) ym mis Rhagfyr 2024, gyda chais i ddiweddaru'r canllawiau. Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda'r Comisiwn Ansawdd Gofal i ymgorffori safonau o fewn y fframwaith perthnasol.

Llywodraeth yr Alban

Ysgrifennodd Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd Grŵp Goruchwylio a Sicrwydd Llywodraeth yr Alban at Fyrddau Iechyd ym mis Tachwedd 2024 yn gofyn iddynt adolygu arferion yn eu Bwrdd a chadarnhau eu bod yn cynnig asid tranecsamig i gleifion lle bynnag y bo'n briodol iddynt cyn llawdriniaeth ddewisol. Roedd y llythyr hwn hefyd yn gofyn i Fyrddau Iechyd ddefnyddio Dangosfwrdd Trallwysio Clinigol Gwasanaeth Trallwysio Gwaed Cenedlaethol yr Alban (SNBTS) i ystyried meysydd i'w gwella i sicrhau eu bod ond yn darparu trallwysadau lle mae hyn yn angenrheidiol yn unol ag argymhelliad 7a) iii. Roedd Byrddau Iechyd yn gefnogol yn eu hymatebion, er bod rhai wedi codi cwestiynau am y sylfaen dystiolaeth lawn ac wedi'i diweddaru i ddefnyddio asid tranecsamig mewn rhai achosion/llawdriniaethau penodol, felly mae'n amlwg bod angen rhywfaint o arweiniad ychwanegol ar yr hyn y dylid ei ystyried yn 'llawdriniaeth gymwys' (gan nad oedd yr Ymchwiliad wedi nodi hyn.) Mae consensws cyffredinol y dylid defnyddio asid tranecsamig cyn llawdriniaethau lle mae'n debygol y collir dros 500ml o waed. Fodd bynnag, o ystyried trafodaethau parhaus ar lefel y DU a chais disgwyledig i NICE ddiweddaru ei ganllawiau, bydd Llywodraeth yr Alban yn rhoi diweddariad pellach i Fyrddau Iechyd ar y materion hyn unwaith y bydd canllawiau clinigol wedi'u diweddaru ar gael. Mae pob Bwrdd Iechyd wedi cadarnhau bod dangosfwrdd Trallwysio Clinigol

Dangosfwrdd Trallwyso Clinigol Gwasanaeth Trallwyso Gwaed Cenedlaethol yr Alban yn cael ei ddefnyddio i feincnodi a gwella arferion trallwyso.

Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i'r Grŵp Goruchwyllo Cenedlaethol ar Iechyd Gwaed (BHNOG) weithio gyda'n Byrddau a'n Hymddiriedolaethau Iechyd i gadarnhau y glynir wrth ganllawiau presennol NICE. Yna bydd y Grŵp yn adolygu'r canfyddiadau ac yn cynnig gwelliannau yn ôl yr angen. Mae Cylchlythyr Iechyd Cymru wedi cael ei gyhoeddi i gefnogi'r argymhelliad hwn, gan gynnwys cymorth gan y Prif Swyddog Fferyllol ar ganllawiau dosio flwyddyn wedi cyhoeddi adroddiad yr Ymchwiliad Gwaed Heintiedig. Prosiectau tymor hirach ar ddata drwy eMPA (System e-Bresgripsiynu a Gweinyddu Meddyginiaethau) a datblygu Rhestr Wirio Lawfeddygol Cymru Gyfan i gynnwys rheoli Gwaed Cleifion - defnydd o TXA o'r fath. Gan fod y rhain yn rhaglenni gwaith cenedlaethol, disgwylir y bydd angen eu rhoi ar waith fesul cam, felly disgwylir y bydd y gwaith yn cael ei gwblhau'n raddol erbyn 2026.

Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon

Yng Ngogledd Iwerddon, mae'r Adran Iechyd ar hyn o bryd yn cysylltu ag Ymddiriedolaethau Iechyd, Coleg Brenhinol y Llawfeddygon, Gwasanaeth Trallwyso Gwaed Gogledd Iwerddon (NIBTS) a Phwyllgor Trallwyso Gogledd Iwerddon (NITC) i ddeall i ba raddau y defnyddir neu y cynigir defnyddio asid tranecsamig ar draws y system. Mae'r Pwyllgor Trallwyso Gogledd Iwerddon, yn benodol, wedi gofyn i bob Ymddiriedolaeth sicrhau bod asid tranecsamig yn cael ei gynnig i gleifion sy'n cael llawdriniaeth berthnasol ac mae wedi ymgysylltu â Phwyllgor Trallwyso pob Ymddiriedolaeth i gysoni'r sicrwydd angenrheidiol bod yr arferion presennol yn wir yn bodloni gofynion yr argymhelliad hwn.

7b) Adolygiad o gynnydd tuag at argymhellion Trallwyso 2024, 7c) Labordai Trallwyso, 7d) Hyfforddiant mewn Meddygaeth Trallwyso, a hefyd 7e) Gweithredu adroddiadau Peryglon Trallwyso Difrifol

7b. Adolygu'r cynnydd o ran gweithredu argymhellion Trallwyso 2024, a phenderfynu ar y camau nesaf a'u cyhoeddi; a bod y cynllun 5 mlynedd yn cael ei adolygu yn yr Alban yn 2027 neu cyn hynny gyda'r bwriad o benderfynu ar y camau nesaf.

7c. Dylai labordai trallwyso gael eu staffio (yn ogystal â chynnwys adnoddau) yn ddigonol i fodloni gofynion eu swyddogaethau.

7d. Bod y cyrff hynny sy'n ymwneud â hyfforddiant israddedig ac ôl-raddedig ledled y DU i'r bobl hynny sy'n gweithio, neu sy'n bwriadu gweithio, yn y GIG yn sicrhau eu bod wedi'u hyfforddi'n ddigonol mewn trallwyso, bod y safonau ar gyfer mesur digonolrwydd hyfforddiant yn cael eu diffinio, a bod atebolrwydd am hyfforddiant mewn trallwyso yn cael ei ddiffinio.

7e. Bod gan holl sefydliadau'r GIG ledled y DU fecanwaith ar waith ar gyfer gweithredu argymhellion adroddiadau Peryglon Trallwyso Difrifol (SHOT), y dylid eu gorchymyn yn broffesiynol, ac i fonitro gweithrediad o'r fath.

Mae Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn derbyn yr argymhellion hyn mewn egwyddor. Mae argymhelliad 7b) yn cael ei dderbyn yn llawn gan Lywodraeth yr Alban. Mae rhannau o'r argymhellion hyn yn cael eu datblygu ledled y DU.

Mae cynnydd yn erbyn argymhellion Trallwyso 2024 wedi cael ei adolygu ar y cyd i ddechrau gan GIG Lloegr a Gwasanaeth Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG ac mae adolygiad ehangach o randdeiliaid y pedair gwlad yn cael ei drefnu. Trafodwyd yr adroddiad drafft gyda rhanddeiliaid allweddol ddiwedd mis Tachwedd 2024 gyda rhagor o fewnbwn ar y gweill ym mis Ebrill/Mai 2025, a'r gwaith o gwblhau'r adroddiad llawn yn ystod chwarter cyntaf 2025/26. Mae agweddau allweddol wedi cael eu hymgorffori yn y Strategaeth Trawsnewid Trallwyso.

Mae'r Strategaeth yn canolbwyntio ar y 5-10 mlynedd nesaf, gan gyfuno cynnydd, gwersi a ddysgwyd ac uchelgais ar gyfer y dyfodol yn y maes hwn. Disgwylir i is-argymhellion y gweithgor ar argymhelliad 7 gael eu hymgorffori yn y Strategaeth, er mwyn darparu cynllun gweithredu cydlynol ar gyfer arferion trallwyso gwaed yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys y posibilrwydd o greu Bwrdd Trallwyso Gwaed Cenedlaethol i wella llywodraethu cenedlaethol a goruchwyllo darpariaeth ar draws y system gymhleth. Bydd angen cyllid sylweddol i gynllunio a chyflwyno rhaglen trawsnewid trallwyso.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i bennu statws presennol staffio trallwyso, adolygu arferion gorau o feysydd eraill gan gynnwys nyrsio, a datblygu sylfaen dystiolaeth i

lywio safonau lefel staffio sylfaenol. Mae'r data ar gyfer staffio yn gymhleth a bydd angen eu croesgyfeirio a'u dadansoddi'n ofalus i benderfynu ar y ffordd orau ymlaen. Bydd angen cyllid i fodelu'r gweithlu'n llawn a datblygu safonau lefel staffio gofynnol.

Mae'r grŵp rhanddeiliaid, gan gynnwys amrywiaeth o gyrff proffesiynol a statudol, wedi bod yn cydweithio i adolygu a chynnig gofynion addysg a hyfforddiant. Ar hyn o bryd mae'r grŵp yn coladu deunydd e-ddysgu diogelwch cleifion i greu dogfen fapio pedair gwlad ar gyfer deunydd e-ddysgu diogelwch cleifion. Mae Cwricwla ar gyfer staff meddygol, gwyddonol a nyrsio / gweithiwr proffesiynol perthynol i iechyd yn cael eu hadolygu i bennu'r ddarpariaeth yn y dyfodol a'r arferion a argymhellir. Bydd angen cyllid i fynd i'r afael â bylchau mewn hyfforddiant ac i sefydlu addysgwyr ymarfer i sicrhau cynaliadwyedd yn y dyfodol.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu arferion llywodraethu ar gyfer gweithredu argymhellion SHOT, gan roi ystyriaeth ofalus i'r angen am safoni ac anghenion sefydliadau lleol. Mae achrediad ar gyfer SHOT fel sefydliad i ddefnyddio'r System Rhybuddio Ganolog yn cael ei ystyried, a fydd yn caniatáu defnyddio'r system rhaeadru ar y we i gyhoeddi rhybuddion diogelwch cleifion. Bydd hyn yn symleiddio'r gwaith o rhaeadru argymhellion SHOT ac yn cynyddu amlygrwydd argymhellion mewn Ymddiriedolaethau, sy'n dibynnu ar gyllid. Ar ben hynny, mae SHOT yn datblygu safonau diogelwch i roi arweiniad i sefydliadau darparu'r GIG.

Llywodraeth yr Alban

O ran 7b), bydd Gwasanaeth Trallwyso Gwaed Cenedlaethol yr Alban (SNBTS) yn diweddarau ei gynllun tîm trallwyso pum mlynedd erbyn 2027 yn unol ag argymhelliad 7b.) O ran argymhelliad 7c), mae Bwrdd Cynllunio a Chyflawni Llywodraeth yr Alban-GIG yn yr Alban yn ystyried banciau gwaed fel rhan o ffrydiau gwaith gwledig ac ynysoedd a diagnosteg i adolygu cynaliadwyedd gwasanaethau ysbytai yn yr ardaloedd hyn. Bydd hyn yn cynnwys edrych ar staffio, yn ogystal ag opsiynau eraill i helpu i wella gwydnwch ac felly sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn gallu parhau i weithredu'n ddiogel 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos. Yn ogystal, mae Deddf Iechyd a Gofal (Staffio) (Yr Alban) 2019 yn darparu sail statudol ar gyfer darparu staff priodol mewn gwasanaethau iechyd a gofal, gan alluogi gofal diogel a chanlyniadau gwell i gleifion. Daeth y Ddeddf i rym ym mis Ebrill 2024 ac mae'n ymdrin ag amrywiaeth eang o staff y GIG, gan gynnwys y rhai sy'n gweithio mewn labordai trallwyso.

O ran argymhelliad 7d) (ynghyd ag argymhelliad 3), mae gweithgor ar wahân yn yr Alban bellach ar waith i fwrw ymlaen â'r gwaith. Bydd hyn yn ategu'r gwaith sy'n cael ei wneud gan y grŵp rhanddeiliaid ledled y DU, ond bydd yn canolbwyntio ar gamau gweithredu penodol y mae angen eu cyflawni yn yr Alban.

Sefydlodd Llywodraeth yr Alban weithgor byr ei barhad a oedd yn cynnwys staff y GIG, Gwasanaeth Trallwyso Gwaed Cenedlaethol yr Alban a hefyd SHOT i ystyried y ffordd orau o gefnogi Byrddau Iechyd i weithredu argymhelliad 7e. Roedd y Grŵp Goruchwyllo a Sicrwydd hwn yn cytuno ag argymhellion a wnaed gan y grŵp a bydd

yn ysgrifennu at Fyrddau Iechyd ar ôl cyhoeddi'r adroddiad SHOT nesaf ym mis Gorffennaf 2025, gan ofyn iddynt sicrhau eu bod yn bodloni argymhelliad yr Ymchwiliad Gaed Heintiedig hwn yn barhaus. Er mai mater i Fyrddau Iechyd yn bennaf yw monitro cynnydd a sicrhau eu hunain bod y camau sy'n cael eu cymryd yn ddigonol, bydd Llywodraeth yr Alban yn cynnal cyfnod cychwynnol o sicrwydd a monitro allanol er mwyn sicrhau bod yr argymhelliad hwn yn cael ei gyflawni a bod digon o sylw ar y safonau newydd.

Llywodraeth Cymru

O ran 7b), mae gan Gymru Gynllun Iechyd Gwaed sy'n cael ei adolygu a'i ddiweddarau'n rheolaidd. Mae'r Cynllun Iechyd Gwaed yn cael ei oruchwylio gan y Grŵp Goruchwylio Cenedlaethol ar Iechyd Gwaed. Er ei fod ar wahân i 'Trallwys 2024' sy'n berthnasol i Loegr, mae'r Grŵp Goruchwylio Cenedlaethol ar Iechyd Gwaed yn ystyried hyn a mentrau eraill yn y DU wrth ystyried cynlluniau yng Nghymru. Mae'r Cynllun Iechyd Gwaed presennol yn cydnabod yr angen i gefnogi argymhellion yr Ymchwiliad Gwaed Heintiedig ac mae'r BHNOC wedi cynnal adolygiad llawn o'r cynllun gwaith, ac wedi cynhyrchu argymhellion i gefnogi'r gwaith o weithredu argymhellion yr Ymchwiliad o fewn ei gylch gwaith (argymhelliad 7 yn bennaf). Mae Llywodraeth Cymru a Grŵp Cyfarwyddwyr Meddygol Cymru Gyfan wedi derbyn yr argymhellion. Mae'r Grŵp Goruchwylio Cenedlaethol ar Iechyd Gwaed wedi adolygu ei Gylch Gorchwyl i wella llywodraethu clinigol a sicrhau ymgysylltiad â rhanddeiliaid clinigol perthnasol i godi proffil materion diogelwch trallwysadau ar lefel bwrdd iechyd a chefnogi gweithredu lleol.

O ran argymhelliad 7c), mae (labordai trallwys) Cymru yn diweddarau systemau gwybodaeth labordai cenedlaethol i wella effeithlonrwydd arferion labordai trallwys. Mae gwaith yn mynd rhagddo i bennu statws presennol staffio trallwys a datblygu safonau lefel staffio gofynnol sy'n ystyried effaith gofynion staffio ar ôl i raglenni digideiddio gael eu cyflwyno yn 2025. Ar hyn o bryd mae Gwasanaeth Gwaed Cymru yn pennu costau'r bwlch staffio yn y labordai trallwys ledled GIG Cymru i fynd i'r afael â'r materion hyn.

O ran 7d), sefydlwyd Grŵp Strategaeth Addysg Grŵp Goruchwylio Cenedlaethol ar Iechyd Gwaed i lywodraethu a goruchwylio addysg trallwys ledled Cymru. Drwy'r grŵp hwn ac ar y cyd â rhanddeiliaid allweddol fel Addysg a Gwellu Iechyd Cymru (AaGIC), Gwasanaeth Gwaed Cymru a sefydliadau eraill y GIG yng Nghymru, bydd y broses o adolygu gweithdrefnau hyfforddi'n ffurfiol a chytuno ar y strategaeth ar gyfer addysg trallwys i'r holl staff sy'n ymwneud â'r broses trallwys mewn ffordd safonol a theg ledled Cymru, a bydd yn adeiladu ar raglenni addysg sydd eisoes wedi'u gwreiddio. Mae rhaglen beilot i Feddygon Sylfaen wedi cael ei datblygu gyda'r bwriad o'i rhoi ar waith o garfan yr Hydref 2025. Mae gwaith archwilio ar y gweill i gefnogi e-ddysgu gorfodol ar drallwys i'r holl staff sy'n ymwneud â'r broses drallwys. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar y cyd ag AaGIC a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf i sicrhau swydd hyfforddiant ôl-radd ychwanegol mewn Haematoleg a

fyddai'n cylchdroi i Wasanaeth Gwaed Cymru i wella gwybodaeth am drallwyso yng Nghymru.

Ar 7e), mae gan y Grŵp Goruchwylio Cenedlaethol ar Iechyd Gwaed is-grŵp SHOT ac mae'n goruchwylio'r gwaith o weithredu argymhellion SHOT. Cefnogir y Grŵp Goruchwylio Cenedlaethol ar Iechyd Gwaed gan is-grŵp SHOT drwy amlinellu llywodraethu diogelwch trallwysïadau mwy cadarn o fewn Byrddau Iechyd, gan gysylltu â mecanweithiau diogelwch cleifion sefydledig. Mae'r is-grŵp SHOT yn gweithio'n agos gyda thîm Cenedlaethol SHOT i gefnogi'r gwaith o ddatblygu arferion llywodraethu i gefnogi'r gwaith o weithredu argymhellion SHOT yn lleol.

Mae Gwasanaeth Gwaed Cymru ar ran GIG Cymru wrthi'n drafftio achos busnes dros yr adnoddau sydd eu hangen i fodloni argymhellion yr Ymchwiliad Gwaed Heintiedig yn llawn.

Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon

Dogfen GIG Lloegr yw Trallwyso 2024 ac ni chafodd ei mabwysiadu yng Ngogledd Iwerddon. Y strategaeth drallwyso ddiweddaraf o hyd yw Gwell Trallwysiad Gwaed 3 Gogledd Iwerddon (BBT 3 (NI) 2011), ond mae gwaith yn mynd rhagddo i ddiweddarau'r strategaeth hon a chynhyrchu Strategaeth Trallwyso Gogledd Iwerddon newydd dan arweiniad cydweithredol Pwyllgor Trallwyso Gogledd Iwerddon (NITC) a Gwasanaeth Gwaed a Thrallwysiad Gogledd Iwerddon (NIBTS).

Bydd y strategaeth hon yn darparu fframwaith i wneud y gorau o ymarfer trallwyso yng Ngogledd Iwerddon, a bydd yn cwmpasu pob agwedd ar drallwyso gwaed, o roi gwaed, i labordai, i dimau clinigol, ac yn y pen draw, diogelwch cleifion. Yr amcanion cyffredinol yw sicrhau diogelwch, effeithlonrwydd a chynaliadwyedd gwaed a chynhyrchion gwaed, gan bwysleisio pwysigrwydd Rheoli Gwaed Cleifion i leihau'r defnydd o gydrannau gwaed a sicrhau cyflenwad ac addysg ddiogel i glinigwyr. Bydd yn cyd-fynd ag arferion gorau cenedlaethol a rhyngwladol, ac yn cynnig argymhellion er budd cleifion a'r system gofal iechyd ehangach.

Mae gwaith wedi'i wneud gan yr Adran i bennu hyd a lled y gofynion ar draws y rhanbarth er mwyn i labordai trallwyso fodloni gofynion eu swyddogaethau.

Mae NIBTS, NITCE ac Asiantaeth Hyfforddiant Meddygol a Deintyddol Gogledd Iwerddon (NIMDTA) yn cynrychioli Gogledd Iwerddon mewn Gweithgor Cenedlaethol sefydledig, sy'n bwrw ymlaen â'r gofynion sy'n ymwneud ag Argymhelliad 7a), b) a d). Mae'r NITC hefyd wedi bod yn aelod o Rwydwaith Trallwyso Gwell y DU ac Iwerddon ers blyneddau lawer, a daw'r holl hyfforddiant cenedlaethol ar gyfer trallwyso gwaed yn fwy diogel drwy'r grŵp hwn.

Mae'r modiwlau hyfforddi Iechyd a Gofal Cymdeithasol sydd ar gael yn cael eu diweddarau ar hyn o bryd, ond mae staff meddygol a nyrsio ôl-raddedig (gan gynnwys staff locwm ac o'r banc) wedi cydymffurfio'n sylweddol â hyfforddiant cenedlaethol, ac mae NITC yn cynnig hyfforddiant i fyfyrwyr meddygol ym Mhrifysgol Queen's, Belfast a Phrifysgol Ulster.

O ran 7e), mae'r Adran Iechyd ar hyn o bryd yn ymgysylltu ag Ymddiriedolaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol i asesu i ba lefel y mae'r argymhelliad eisoes yn cael ei gyflawni. Mae NIBTS yn cyfrannu at y gweithgor SHOT cenedlaethol i gefnogi'r gwaith o weithredu argymhellion 7e) a SHOT.

7f) Sefydlu canlyniad pob trallwysiad

7f) i. Sefydlu fframwaith ar gyfer cofnodi canlyniadau i'r rhai sy'n derbyn cydrannau gwaed. Bod cyrff y GIG yn defnyddio'r cofnodion hynny i wella arferion trallwyso (gan gynnwys drwy ddarparu gwybodaeth o'r fath i gyrff haemowiliadwriaeth (*haemovigilance*)). Bydd llwyddiant i gyflawni hyn yn cael ei fesur yn ôl i ba raddau y mae adroddiadau SHOT ar gyfer y tair blynedd flaenorol yn dangos gostyngiad cynyddol yn nifer yr achosion o drallwysiadau cydrannau gwaed anghywir a fesurir fel cyfran o nifer y trallwysiadau a roddir.

7f) ii. I'r graddau nad yw'r cyllid ar gyfer trawsnewid digidol eisoes yn cynnwys sefydlu a gweithredu'r fframwaith hwn, dylid darparu cyllid pwrpasol.

Mae Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn derbyn argymhellion 7f) i-ii) mewn egwyddor. Mae Llywodraeth yr Alban yn eu derbyn yn llawn.

7f) iii. Bod cyllid ar gyfer darparu gwell systemau clinigol electronig ynglŷn â thrallwyso gwaed yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth ledled y DU.

Mae Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor.

Llywodraeth y DU

Mae gweithredu'r is-argymhellion hyn yn arbennig o heriol ac yn gofyn am fuddsoddiad sylweddol, gan ei fod yn golygu gweithio ar draws y pedair gwlad a gyda nifer o bartneriaid system.

Er mwyn cefnogi cynllun gweithredu hirdymor effeithiol sy'n lleihau cymhlethdod, mae tîm dylunio wrthi'n mapio llwybrau clinigol, gofynion digideiddio ar hyd y llwybr, y gallu i ryngweithredu a defnyddio safonau. Mae angen rhoi ystyriaeth ofalus i aeddfedrwydd digidol sefydliadau lleol. Bydd angen mapio rhyngddibyniaethau yn erbyn mentrau a systemau digidol mawr eraill i'w rhoi ar waith.

Llywodraeth yr Alban

Mae'r system 'Cyfrif am Waed' bresennol eisoes yn helpu Byrddau Iechyd yr Alban i fonitro canlyniadau ar gyfer cleifion trallwyso. Mae Gwasanaeth Trallwyso Gwaed Cenedlaethol yr Alban yn gweithio gyda'i gydweithwyr digidol yng Ngwasanaethau Cenedlaethol y GIG yn yr Alban (NSS), gyda chymorth gan y rhwydwaith clinigol Haematoleg a Thrallwyso, i ddiwygio'r system hon i sicrhau ei bod yn gallu cyflawni'r elfennau allweddol a ragwelir gan argymhelliad 7f). Ar wahân i hynny, mae Llywodraeth yr Alban yn gweithio gydag Gwasanaeth Trallwyso Gwaed Cenedlaethol yr Alban a'r NSS, gyda chymorth y rhwydwaith clinigol Haematoleg a

Thrallwyso, i helpu i ganfod y bylchau yn narpariaeth bresennol systemau digidol yn y broses drallwyso yn y Byrddau Iechyd. Bydd hyn wedyn yn cael ei ddatblygu'n achos busnes amlinellol i ystyried yr opsiynau mwyaf priodol ar gyfer digideiddio, a fydd yn cael ei drafod yn fanwl gyda'r holl Fyrddau Iechyd.

Llywodraeth Cymru

Mae gweithgor Digidol sy'n cynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru, Gwasanaeth Gwaed Cymru, Grŵp Goruchwylio Cenedlaethol ar Iechyd Gwaed ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru wedi cael ei sefydlu ac mae wedi datblygu map sy'n amlinellu rhyngddibyniaethau rhaglenni TG cenedlaethol cyfredol i fodloni'r argymhelliad hwn yn llawn, gan gynnwys yr amserlenni a'r costau sydd eu hangen. Mae hygyrchedd data i ganiatáu monitro a meincnodi drwy'r Adnodd Data Cenedlaethol (NDR) hefyd yn mynd rhagddo. Cefnogir y gwaith hwn drwy brawf o gysyniad ar gyfer meincnodi clinigol mewn dangosfwrdd data ar gyfer rheoli anaemia cyn llawdriniaeth fawr a fydd yn cynnwys trallwysiadau celloedd coch.

Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon

Fel rhan o raglen helaeth o drawsnewid a moderneiddio'r System Iechyd a Gofal Cymdeithasol (HSC) yng Ngogledd Iwerddon, bydd Rhaglen Glasbrint Patholeg, strwythur rheoli patholeg rhanbarthol newydd, yn cynnig map ffordd digidol, yn ogystal â chyflwyno gallu digidol ar draws y system leol gyfan a digideiddio gwasanaethau patholeg drwy dair system electronig ar gyfer trallwysiadau gwaed. Ar yr ochr glinigol, bydd Cofnod Electronig Cleifion rhanbarthol (EPR) yn creu un cofnod gofal digidol ar gyfer pob dinesydd yng Ngogledd Iwerddon sy'n cael gofal iechyd a chymdeithasol. O ran labordai a banciau gwaed, bydd System Rheoli Gwybodaeth Labordy Craidd WinPath (LIMS) yn gwella'r gwaith o ddarparu gwasanaethau diagnostig clinigol allweddol yn sylweddol; a bydd yr ateb Olrhain a Chynnyrch Gwaed (BPAT) yn integreiddio gwybodaeth olrhain a chynnyrch gwaed i ddarparu system reoli rhoi gwaed electronig o un wythien i'r llall, olrhain a chynnyrch gwaed cwbl weithredol yn rhanbarthol.

Unwaith y byddant wedi'u datblygu a'u hintegreiddio'n llawn, bydd yr atebion hyn yn arwain at well gallu i ganfod canlyniadau cleifion i'r rhai sy'n derbyn trallwysiad, a byddant yn hollbwysig o ran darparu un rhyngwyneb diogel ac effeithiol i staff clinigol i sicrhau bod y gwaed cywir yn mynd i'r claf cywir. Ar ben hynny, bydd defnyddwyr gwasanaeth yn gallu cael gafael ar yr holl ddata patholeg perthnasol, gan gynnwys canlyniadau trallwysiad gwaed.

Ar hyn o bryd mae'r Adran Iechyd yn ymgysylltu â chydweithwyr Rheoli Data yn yr Adran ac Ymddiriedolaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol i asesu i ba raddau y mae'r argymhelliad hwn eisoes yn cael ei weithredu yng nghanol y datblygiadau parhaus hyn.

8) Dod o hyd i'r rhai sydd heb ddiagnosis

8a. Pan ddaw meddygon i wybod bod claf wedi cael trallwysiad gwaed cyn 1996, dylid cynnig prawf gwaed i'r claf hwnnw ar gyfer Hepatitis C.

8b. Fel mater o drefn, dylid gofyn i gleifion newydd sy'n cofrestru â phractis a ydynt wedi cael trallwysiad o'r fath.

Derbynnir yr argymhellion hyn yn llawn gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban. Mae Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn derbyn yr argymhellion hyn mewn egwyddor.

Llywodraeth y DU

Mae GIG Lloegr wedi ymrwymo i ganfod pawb sydd wedi'u heintio â chlefyd a gludir yn y gwaed, sut bynnag y caiff ei drosglwyddo.

Hoffem sicrhau'r cyhoedd bod tystiolaeth yn dangos bod y tebygolrwydd o ddal Hepatitis C drwy drallwysiad gwaed ar ôl 1992 yn isel iawn yn dilyn cyflwyno profion sgrinio gwaed cyffredinol i ganfod haint Hep C fis Medi 1991. Fodd bynnag, er mwyn mynd i'r afael â chasgliad yr Ymchwiliad ei bod yn 'rhesymol bosibl' y gallai rhai heintiau fod wedi digwydd o drallwysiadau gwaed ar ôl cyflwyno profion sgrinio cyffredinol, mae Llywodraeth y DU yn derbyn yr argymhelliad hwn.

Mae'r gwaith cyflawni'n mynd rhagddo ac mae'r argymhelliad yn barod i gael ei roi ar waith. Cytunwyd ar newidiadau i'r gwasanaeth Cofrestru Meddygon Teulu Ar-lein, a fydd yn helpu i gyflawni'r argymhelliad hwn, a'r dyddiad "mynd yn fyw" cenedlaethol yw diwedd mis Mai. Mae GIG Lloegr yn cyhoeddi canllawiau gweithredu ategol i feddygfeydd cyn i hyn fynd yn fyw.

Llywodraeth yr Alban

Yn yr Alban, mae ymwybyddiaeth eisoes wedi cael ei chodi yn y maes hwn yn 2015 a 2016 yn dilyn argymhelliad Ymchwiliad Penrose, felly cafodd llawer o gleifion trallwysiad eu profi am Hepatitis C bryd hynny. Cyhoeddwyd llythyr wedi'i ddiweddarau gan y Prif Swyddog Meddygol ym mis Mehefin 2024 yn gofyn i bob meddygfa a staff mewn gofal eilaidd yn yr Alban gynnig profion Hepatitis C i unrhyw un a drallwyswyd cyn 1996 nad yw eisoes wedi cael ei brofi. Mae'r llythyr hefyd yn gofyn i feddygfeydd sicrhau eu bod yn gofyn i gleifion newydd am unrhyw drallwysiadau gwaed blaenorol pan fyddant yn cael eu hapwyntiad cychwynnol gyda meddygfa newydd. Mae gwybodaeth i gleifion ar wefan NHS Inform wedi cael ei diweddarau i gyd-fynd â llythyr y Prif Swyddog Meddygol. Felly, mae'r argymhellion hyn bellach wedi cael eu rhoi ar waith.

Llywodraeth Cymru

Yng Nghymru, mae'r Dirprwy Brif Swyddog Meddygol ynghyd â'r Uwch Swyddog Meddygol ar gyfer Gofal Sylfaenol, wedi cyhoeddi Cylchlythyr Iechyd Cymru (WHC (2024)50) i bob Bwrdd Iechyd yn gofyn iddynt gynghori'r rhai mewn Gofal Sylfaenol i brofi cleifion pan fydd yr amgylchiadau'n bodloni'r meini prawf ac iddynt ddiweddarau eu proses sgrinio cleifion newydd i gynnwys cwestiwn ar drallwysïadau gwaed blaenorol. Mae'r argymhellion hyn bellach wedi cael eu rhoi ar waith.

Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon

Yng Ngogledd Iwerddon, cyhoeddodd y Prif Swyddog Meddygol Gylchlythyr ar Ganllawiau Profi Hepatitis C (HSS(MD)16/2024) i roi gwybod bod profion Hepatitis C yn cael eu cynnal ar hyn o bryd drwy ofal clinigol arferol i bobl sy'n credu y gallent fod wedi cael eu heintio drwy drallwysiad gwaed neu mewn ffordd arall.

Mae rhagor o ymgysylltu'n mynd rhagddo ar hyn o bryd gyda Grŵp Cynllunio Strategol a Pherfformiad yr Adran ac arweinwyr polisi gofal sylfaenol i ganfod y dull gorau o'i fabwysïadu ynglŷn â chofrestru â Meddygfa.

9) Amddiffyn diogelwch gofal haemoffilia

9a-c) Adolygiad cymheiriaid o ganolfannau haemoffilia, 9d) Rhwydweithiau ar gyfer gofal haemoffilia, 9e) Cynhyrchion Ailgyfunol, a 9f) Cronfa ddata genedlaethol o haemoffilia

9a. Y dylai adolygiad cymheiriaid o ofal haemoffilia barhau i ddigwydd fel sy'n cael ei arfer ar hyn o bryd, gydag unrhyw gymorth angenrheidiol yn cael ei roi gan Ymddiriedolaethau a Byrddau Iechyd y GIG; a hefyd

Derbynnir yr argymhelliad hwn yn llawn gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban. Mae Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor.

9b. Y dylai fod yn ofynnol i Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG drafod canfyddiadau adolygiadau gan gymheiriaid a rhoi ystyriaeth ffafriol i weithredu'r newidiadau a nodwyd gyda'r bwriad o sicrhau gofal cynhwysfawr a diogel.

Mae Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. Mae Llywodraeth yr Alban yn derbyn yr argymhelliad hwn yn llawn.

9c. Dylid cynnal adolygiad gan gymheiriaid o bob canolfan o leiaf unwaith bob pum mlynedd.

9d. Dylai'r adnoddau gweinyddol a chlinigol angenrheidiol gael eu darparu gan ymddiriedolaethau a byrddau ysbytai, byrddau gofal integredig, a chomisiynwyr gwasanaethau i hwyluso rhwydweithiau rhanbarthol amlddisgyblaethol i drafod polisi ac ymarfer mewn haemoffilia a gofal anhwylderau gwaedu etifeddol eraill, ar yr amod eu bod yn cynnwys cleifion yn eu trafodaethau.

9e. Dylid cynnig cynhyrchion ffactor ceulo ailgyfuno yn lle rhai sy'n deillio o blasma lle bo hynny'n glinigol briodol. Dylai comisiynwyr gwasanaethau sicrhau bod penderfyniadau triniaeth o'r fath yn cael eu hariannu'n briodol.

9f. Bod y Gronfa Ddata Haemoffilia Genedlaethol, sy'n cael ei rhedeg gan Sefydliad Meddygon a Deintyddion Canolfan Hemoffilia'r Deyrnas Unedig (UKHCDO), yn haeddu cefnogaeth cyllid canolog ychwanegol.

Mae Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn derbyn argymhellion 9) c-f) mewn egwyddor. Mae Llywodraeth yr Alban yn derbyn yr argymhelliad hwn yn llawn.

Mae'r arfer o adolygu canolfannau haemoffilia gan gymheiriaid, a amlygwyd gan yr Ymchwiliad, yn werthfawr a dylid ei gefnogi.

Llywodraeth y DU

Argymhelliad 9a-9c: Mae adolygiad cymheiriaid o ganolfannau gofal cynhwysfawr y

DU wedi bod yn rhan hanfodol o wasanaethau haemoffilia ers blynyddoedd lawer. Cafodd yr archwiliad tair blynedd ei ddisodli yn 2019 gan broses adolygu fwy ffurfiol gan gymheiriaid ar gylch pum mlynedd.

Mae manyleb gwasanaeth bresennol gwasanaethau arbenigol GIG Lloegr ar gyfer haemoffilia ac anhwylderau gwaedu cysylltiedig (oedolion a phlant) wedi cael ei diweddarau i sicrhau gofyniad cytundebol i ddarparwyr gymryd rhan mewn canfyddiadau adolygiadau gan gymheiriaid a gweithredu arnynt. Bydd GIG Lloegr hefyd yn ysgrifennu at Fyrddau Gofal Integredig a Byrddau Ymddiriedolaeth i bwysleisio rôl werthfawr adolygu gan gymheiriaid ac yn gofyn am eu hymrwymiad i adolygu a gweithredu canfyddiadau. Bwriedir i'r fanyleb gwasanaeth ddiwygiedig fynd ymlaen i ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod haf 2025.

Argymhelliad 9d: Mae'r gymuned glinigol yn cefnogi'r angen i ddatblygu a chryfhau rhwydweithiau rhanbarthol amlddisgyblaethol i drafod polisi ac ymarfer mewn haemoffilia ac anhwylderau gwaedu etifeddol eraill i wella gofal cleifion a safoni cymorth. Mae GIG Lloegr wedi drafftio Manyleb Rhwydwaith Clinigol Cenedlaethol arfaethedig yn benodol ar gyfer y rhwydweithiau hyn, a fyddai'n gwreiddio gofynion newydd allweddol i ddarparwyr gymryd rhan mewn model gofal rhwydwaith. Byddai hyn yn gofyn am gyllid ychwanegol i'w weithredu, fel sy'n wir am fodolau rhwydwaith clinigol eraill, i gydnabod yr amser staff sydd ei angen, ac nid oes cyllid wedi'i nodi eto.

Argymhelliad 9e: Mae GIG Lloegr, gan weithio gyda chynghorwyr clinigol, wedi adolygu'r bylchau presennol yn argaeledd ffactorau ailgyfunol, a dewisiadau eraill yn lle cynhyrchion gwaed, ac ar hyn o bryd mae'n datblygu polisiâu comisiynu clinigol i'r arwyddion hyn. Fel ymateb cyflym i'r argymhelliad hwn, ym mis Awst 2024, dechreuodd GIG Lloegr ariannu ffactor von Willebrand (VWF) ailgyfunol, i bob grŵp oedran cleifion, i reoli cyfnodau gwaedu a chyn-driniaeth lawfeddygol (ond nid proffylacsis rheolaidd). Mae angen rhagor o waith polisi clinigol, sy'n cynnwys adolygu'r sylfaen dystiolaeth glinigol, cost effeithiolrwydd a ffactorau gweithredu gwasanaethau, sy'n ymwneud â defnyddio cynhyrchion ailgyfunol ar gyfer proffylacsis. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd ar y canlynol:

- VWF ailgyfunol: wedi'i drwyddedu ar hyn o bryd i broffylacsis mewn oedolion (triniaeth reolaidd i'r rhai sydd â'r gwaedu mwyaf difrifol) ond heb ei gomisiynu ar hyn o bryd ar gyfer y dangosydd hwn.
- Emicizumab fel proffylacsis mewn pobl â haemoffilia cynhenid cymedrol A heb atalyddion ffactor VIII.

Bydd angen cyllid hefyd i weithredu'r polisiâu clinigol hyn, ac nid yw hyn wedi'i nodi eto.

Argymhelliad 9f: Ar hyn o bryd mae GIG Lloegr yn darparu cyllid 'canolog' o tua 40% o gyfanswm y gost flynyddol ar gyfer rhedeg y Gronfa Ddata Haemoffilia Genedlaethol. Mae grŵp gorchwyl a gorffen sy'n ymwneud â'r gronfa ddata wedi cael ei sefydlu, gan adrodd i'r grŵp arbenigol argymhelliad 9 cyffredinol.

Llywodraeth yr Alban

Mae'r argymhellion hyn wedi cael eu rhoi ar waith yn yr Alban i raddau helaeth. Mae adolygiadau rheolaidd gan gymheiriaid eisoes yn cael eu cynnal ar gyfer y Canolfannau Gofal Cynhwysfawr mwy (yn Glasgow a Chaeredin), ond, o ystyried y cyfyngiadau yng nghapasiti Sefydliad Meddygon Canolfan Haemoffilia'r DU (UKHCDO) i drefnu adolygiadau gan gymheiriaid ar gyfer Canolfannau Triniaeth Haemoffilia, mae trefniadau ar waith i gynnal adolygiadau gan gymheiriaid dan arweiniad yr Alban o'r canolfannau llai hyn (yn Inverness, Aberdeen a Dundee). Mae Cadeirydd Grŵp Goruchwyllo a Sicrwydd yr Alban wedi ysgrifennu at y Byrddau Iechyd perthnasol i ofyn iddynt weithredu unrhyw ganfyddiadau ac argymhellion yn y dyfodol o'r adolygiadau cymheiriaid hyn.

Mae Rhwydwaith Anhwylderau Gwaedu a Etifeddir yr Alban yn rhwydwaith clinigol rheoledig sefydledig sy'n cynnwys staff a chleifion ac sy'n helpu i sicrhau dysgu a hyrwyddo arfer da ar draws canolfannau haemoffilia yr Alban yn unol ag argymhelliad 9d.)

Mae'r mwyafrif helaeth o gleifion anhwylderau gwaedu yn yr Alban eisoes yn cael cynhyrchion ailgyfuno yn hytrach na rhai plasma. Fodd bynnag, o ran rhoi'r cynnyrch ailgyfunol vonicog alfa (a elwir yn Veyvondi) i blant o dan 18 oed sydd â chlefyd von Willebrand, o ystyried nad yw'r feddyginiaeth wedi'i thrwyddedu ar hyn o bryd i'w defnyddio i bobl ifanc o dan 18 oed, ysgrifennodd Prif Swyddog Fferyllol yr Alban at Fyrddau Iechyd yr Alban fis Hydref 2024 i ofyn iddynt sicrhau ei bod yn cael ei rhagnodi ar gyfer plant lle mae hyn yn briodol iddynt yn unol ag argymhelliad 9e.)

Llywodraeth Cymru

Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Canolfannau Haemoffilia ar ganfyddiadau eu hadolygiad gan gymheiriaid i fwrw ymlaen ag unrhyw argymhellion a rhoi newidiadau ar waith yn ôl yr angen.

Mae'r ffactor ceulo ailgyfuno, vonicog alfa, ar gael fel mater o drefn yng Nghymru i drin gwaedlif a gwaedu llawfeddygol, ac i atal gwaedu llawfeddygol, mewn pobl sydd â diagnosis wedi'i gadarnhau o glefyd von Willebrand (VWD) yn unol â pholisi Cydbwyllgor Comisiynu GIG Cymru.

Cadarnhaodd Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru Gyfan benderfyniad interim Cymru'n Un sy'n ymestyn defnydd arferol i blant hyd at 17 oed gyda VWD.

Mae Grŵp Goruchwyllo'r Ymchwiliad Gwaed Heintiedig wedi argymhell y dylai vonicog alfa hefyd fod ar gael ar gyfer proffylaxis tymor hir yn erbyn gwaedu mewn pobl sydd â VWD. Mae swyddogion yn ystyried goblygiadau gweithredu'r argymhelliad hwn ac yn gweithio gyda'r Cydbwyllgor Comisiynu a Chanolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan (AWTTC) i baratoi cyngor i'w ystyried gan Weinidogion yn ddiweddarach y gwanwyn hwn.

Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon

Yng Ngogledd Iwerddon, mae Argymhellion 9a) i 9d) yn cael eu cyflawni fel arfer safonol. Mae Ymddiriedolaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Belfast yn cael ei chomisiynu gan yr Adran (drwy'r Grŵp Cynllunio a Pherfformiad Strategol) i wneud y gwaith hwn ac mae'n gartref i Ganolfan Gofal Cynhwysfawr Haemoffilia (CCC), sef yr unig ganolfan yng Ngogledd Iwerddon; nid oes unrhyw Ganolfannau Triniaeth Haemoffilia.

Nid oes Rhwydwaith Rhanbarthol yng Ngogledd Iwerddon, ac mae Timau Adolygu Cymheiriaid yn ystyried hyn tra bo Archwiliadau Adolygu gan Gymheiriaid yn cael eu cynnal yng Ngwasanaethau Oedolion a Phaediatreg Haemoffilia yn yr Ymddiriedolaeth.

Ynglŷn ag Argymhelliad 9e), mae gan yr Adran lechyd gysylltiad ffurfiol â'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn lechyd a Gofal (NICE) lle mae Arfarniadau Technoleg NICE yn cael eu hadolygu'n lleol ar gyfer eu cymhwysedd cyfreithiol a pholisi yng Ngogledd Iwerddon, a lle bo hynny'n berthnasol, maent yn cael eu cymeradwyo i'w gweithredu mewn sefydliadau lechyd a Gofal Cymdeithasol. O'r herwydd, yn ymarferol, mae triniaethau sydd wedi cael eu hargymell gan NICE i'w defnyddio'n rheolaidd yn y GIG yn Lloegr hefyd ar gael fel mater o drefn yng Ngogledd Iwerddon.

Mae'r broses Rheoli Mynediad at Feddyginiaethau Newydd lechyd a Gofal Cymdeithasol yn defnyddio argymhellion NICE fel polisi. Yn absenoldeb argymhelliad gan NICE, gellir defnyddio canllawiau gan Gonsortïwm Meddyginiaethau'r Alban (SMC) neu Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG) yn ôl disgrisiwn.

Lle nad oes canllawiau o'r fath ar gael fel y disgrifir uchod, bydd proses Cais Cyllido Unigol yn darparu mecanwaith i ystyried ceisiadau gan ymgynghorwyr clinigol am driniaethau ar gyfer cleifion unigol nad ydynt yn cael eu comisiynu fel mater o drefn, ac sy'n cael eu hystyried yn glinigol eithriadol. Bydd cyllid ar sail cleifion unigol yn unig, ond lle gallai carfan o 3 neu fwy o gleifion elwa o driniaeth, bydd hyn wedyn yn disgyn y tu allan i gwmpas y broses Cais Cyllido Unigol.

Yn achos penodol vonicog alfa (Veyvnodi) ar gyfer proffylacsis hirdymor gwaedlif mewn oedolion (dangosiad trwyddedig) neu blant (dangosiad heb drwydded) sydd â chlefyd von Willebrand, yn absenoldeb canllawiau NICE, Consortïwm Meddyginiaethau'r Alban neu Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru Gyfan, nid oes llwybr yng Ngogledd Iwerddon o dan drefniadau sy'n bodoli i sicrhau bod y driniaeth hon ar gael fel mater o drefn yn y maes lechyd a Gofal Cymdeithasol. Fodd bynnag, bydd yr Adran lechyd yn parhau i fod yn ymwybodol o unrhyw ddatblygiadau sy'n deillio o Gymru, Lloegr neu'r Alban ac yn rhoi ystyriaeth briodol i'w cyngor.

Y Camau Nesaf

Mae GIG Lloegr yn adolygu geiriad y fanyleb gwasanaeth genedlaethol ddrafft i ystyried a oes angen golygiadau pellach i gysoni'r geiriad ag argymhellion adroddiad Ymchwiliad Gwaed Heintiedig. Bydd GIG Lloegr hefyd yn ysgrifennu'n ffurfiol at Gadeirydd pob Ymddiriedolaeth GIG sydd â dynodiad Canolfan Gofal Cynhwysfawr (CCC) neu Ganolfan Driniaeth Haemoffilia (HTC) yn gofyn am eu hymrwymiad fel bwrdd i ystyried canfyddiadau adolygiadau gan gymheiriaid a'u rhoi ar waith. Bydd canlyniadau'r broses adolygu gan gymheiriaid yn cael eu hadolygu yng Ngrŵp Llywodraethu Ansawdd Cenedlaethol Comisiynu Arbenigol GIG Lloegr er mwyn cael sicrwydd bod argymhellion yn cael eu rhoi ar waith.

Bydd y diffiniadau ar gyfer CSCau a HTCau yn cael eu hadolygu i sicrhau bod y meini prawf i'w dynodi'n CCC neu HTC yn parhau i fod yn berthnasol.

10) Rhoi llais i gleifion

10a) i-iii) Galluogi a grymuso llais y claf drwy'r mesurau canlynol

10a) i. Dylai archwiliad clinigol, fel mater o drefn, gynnwys mesurau o foddhad neu bryder cleifion, a dylid rhoi gwybod i fwrdd y corff dan sylw am y rhain. Bydd llwyddiant yn hyn o beth yn cael ei fesur drwy gymharu'r mesur bodlonrwydd o un flwyddyn i'r llall, fel bod yr adroddiadau i'r bwrdd dan sylw yn dangos tuedd o wella drwy gymharu canlyniadau eleni â chanlyniadau tebyg o'r ddwy flynedd flaenorol o leiaf.

Mae Llywodraeth y DU a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. Derbynnir yr argymhelliad hwn yn llawn gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban.

10a) ii. Bod yr elusennau canlynol yn cael cyllid yn benodol ar gyfer eiriolaeth cleifion: UK Haemophilia Society; Hepatitis C Trust; Haemophilia Scotland; Scottish Infected Blood Forum; Haemophilia Wales; Haemophilia Northern Ireland; a'r UK Thalassaemia Society.

Derbynnir yr argymhelliad hwn yn llawn gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban. Mae Llywodraeth Cymru a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor.

10a) iii. Rhoi ystyriaeth ffafriol i elusennau a sefydliadau eraill sy'n cefnogi pobl sydd wedi'u heintio ac yr effeithir arnynt ac y rhoddwyd statws cyfranogwr craidd iddynt (fel y rhestrir ar wefan yr Ymchwiliad) i barhau i roi cefnogaeth am y 18 mis nesaf o leiaf. Dylid adolygu rhagor o gymorth bryd hynny gyda golwg ar barhau ag ef fel y bo'n briodol.

Mae Llywodraeth y DU yn derbyn yr argymhelliad hwn yn llawn. Mae Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn ei dderbyn mewn egwyddor.

Wrth siarad am lais y claf, dywed adroddiad yr Ymchwiliad '...ar hyn o bryd mae'n sibwrdd yn dawel iawn; rhaid gwneud pob ymdrech i gymryd camau i alluogi'r rhai a ddylai wrando i'w glywed yn llawer uwch.' Rydym yn cytuno - rhaid i awdurdodau meddygol a'r Llywodraeth fod yn llai amddiffynnol pan fydd cleifion yn rhoi gwybod am broblemau gyda'u gofal.

Llywodraeth y DU

Wrth amlinellu ei genhadaeth i achub y GIG yn gynharach eleni, dywedodd yr Ysgrifennydd Iechyd, y Gwir Anrhydeddus Wes Streeting AS, ei fod yn anelu at ddychwelyd at y 'lefel uchaf o foddhad ymysg cleifion mewn hanes.' Bydd rhoi llais i gleifion, ac yna wrando arno, yn hanfodol i lwyddiant y genhadaeth hon.

O ran archwiliadau clinigol, mae'r egwyddorion sy'n sail i'r argymhellion hyn yn cael eu cynrychioli'n dda mewn ffyrddau gwaith newydd a gomisiynir gan Lywodraeth y DU a GIG Lloegr. Mae GIG Lloegr yn gwneud gwaith i ddeall beth sydd eisoes yn bodoli ar draws archwiliadau clinigol ac yn ehangach, yn enwedig y rheini sy'n ymwneud â gwaed, i egluro lle gallai fod bylchau o ran cynnwys cleifion ac adrodd ar fodlonrwydd/pryder a beth arall y gellir ei wneud i gefnogi'r argymhellion hyn. Mae'n bosibl y bydd mesurau eraill, ochr yn ochr â'r hyn sydd eisoes yn bodoli, fel Prawf Teulu a Ffrindiau i ddeall profiad cleifion yn well. Mae rhyngddibyniaethau â nifer o raglenni a strategaethau eraill i gofnodi llais cleifion sy'n cael eu datblygu gan GIG Lloegr fel ap HaemTrack ac yng ngoleuni datblygiadau polisi 10YHP, a fydd yn gofyn am ystyriaeth ofalus.

O ran 10a) ii, bydd cyllid gwerth cyfanswm o £500k yn cael ei roi i'r elusennau a enwir gan yr Ymchwiliad, sef The Haemophilia Society, The Hepatitis C Trust a'r UK Thalassaemia Society, i gefnogi eu gwaith eiriolaeth gwerthfawr dros gleifion. Mae cyfarfodydd yn cael eu cynnal gyda'r elusennau hyn i fynd drwy'r broses grantiau a'r camau nesaf ar gyfer cytuno ar ddyfarniadau i'r elusennau unigol. Mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r ffordd orau o gefnogi sefydliadau ac elusennau a restrir dan 10a) iii, fodd bynnag mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i'w cefnogi fel y bo'n briodol.

Llywodraeth yr Alban

Ar hyn o bryd mae cleifion yn cael eu cynnwys rhywfaint mewn grwpiau llywio archwilio ac mae lechyd Cyhoeddus yr Alban wedi bod yn ystyried y ffyrdd gorau o gynnwys cleifion mewn archwiliadau yn y dyfodol ac archwiliadau sydd wedi'u cynllunio. Mae Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Llywodraeth yr Alban gydag lechyd Cyhoeddus yr Alban, ynghylch Rhaglen Archwilio Genedlaethol yr Alban, yn cynnwys gofyniad i sicrhau bod llais a phrofiad cleifion yn cael eu cynnwys wrth ddatblygu archwiliadau newydd. Bydd Llywodraeth yr Alban hefyd yn adeiladu ar waith presennol gan ddefnyddio data profiad cleifion ar lefel Bwrdd neu ar draws arbenigeddau a gesglir drwy Care Opinion (llwyfan profiad cleifion a ddefnyddir gan holl Fyrddau'r GIG ledled yr Alban). Ar ôl cael ei benodi, bydd Comisiynydd Diogelwch Cleifion newydd yr Alban yn canolbwyntio ar godi proffil llais y claf.

O ran argymhelliad 10a) ii., mae Llywodraeth yr Alban wedi cytuno ar gyllid grant ar gyfer sefydliad Haemophilia Scotland ac elusen y Scottish Infected Blood Forum ar gyfer 2025-26, a fydd yn cefnogi gwaith eiriolaeth cleifion gan yr elusennau yn benodol.

Llywodraeth Cymru

Ar 10a) i., yng Nghymru, mae'r Rhaglen Profiad y Claf wedi datblygu'r Fframwaith Profiad y Bobl ac Arolwg Profiad y Bobl mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, Ymddiriedolaethau a byrddau ieuchyd y GIG; Llais (corff llais y dinesydd) a sefydliadau'r trydydd sector. Mae'n adeiladu ar y Fframwaith Sicrhau Profiad Defnyddwyr Gwasanaeth, a mecanwaith y Mesur Profiad a Adroddir gan Gleifion a lansiwyd yn 2013.

Cyhoeddwyd canllawiau i GIG Cymru a gweithwyr proffesiynol yn ystod hydref 2024. Bydd sefydliadau'n cael eu cefnogi'n llawn gyda'r gwaith o bontio a pharatoi i'r Fframwaith Profiad Pobl ac Arolwg Profiad Pobl fynd yn fyw yn ffurfiol ym mis Ebrill 2025. Mae'r Byrddau Iechyd wedi sefydlu strwythurau llywodraethu i oruchwyllo, archwilio ac adrodd ar adborth cleifion i'r pwyllgorau ansawdd, diogelwch a phrofiad cleifion, ac yn y pen draw i'r bwrdd. Mae'r fframwaith diwygiedig yn grymuso sefydliadau i werthuso eu sefyllfa bresennol a datblygu cynllun gwella uchelgeisiol.

Mae Fframwaith Perfformiad GIG Cymru ar gyfer 2025-2026 yn pwysleisio'r gwaith o greu system iechyd a gofal cymdeithasol gwerth uwch yng Nghymru, fel yr amlinellir yn Nod Pedwarplyg 4. Mae'r nod hwn yn canolbwyntio ar arloesi a gwella'n gyflym, wedi'i alluogi gan ddata ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau. Un o'r mesurau Perfformiad allweddol ar gyfer 2025/26 (mesur 45) o dan y nod hwn yw nifer yr arolygon profiad pobl a gafodd eu cwblhau a'u cofnodi ar lwyfan CIVICA.

Ers mis Awst 2023, mae'r fenter arolwg profiad pobl wedi cael ei threialu mewn lleoliadau Adrannau Achosion Brys a chafodd ei chyflwyno'n llawn ar draws holl wasanaethau'r GIG ym mis Ebrill 2025. Mae canlyniadau'r arolygon profiad pobl bellach yn cael eu cofnodi drwy lwyfan CIVICA a'u dangos ar ddangosfwrdd BEACON. Mae'r canfyddiadau hyn yn cael eu rhannu mewn fforymau Darparu Perfformiad Ansawdd Integredig misol i sicrhau gwelliant parhaus a gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth.

Ar 10a) ii., mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda Haemophilia Wales i gwmpasu gofynion eiriolaeth y dyfodol ar gyfer y rhai sydd wedi'u heintio a'r rhai yr effeithir arnynt.

Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon

Yng Ngogledd Iwerddon, sefydlwyd Grŵp Rhanddeiliaid Gwaed Heintiedig fel rhan o'r gwaith sy'n ymwneud â sefydlu'r Cynllun Iawndal Gwaed Heintiedig, ac mae'r grŵp hwn wedi cael yr wybodaeth ddiweddaraf am yr ymateb lleol i adroddiad yr Ymchwiliad Gwaed Heintiedig.

Mae'r grŵp hwn yn cynnwys cynrychiolwyr o Haemophilia NI, Families and Friends of Haemophilia NI a'r UK Haemophilia Society, yn ogystal ag aelodau o'r gymuned sydd wedi cael eu heintio ac yr effeithiwyd arnynt.

Cynhaliwyd trafodaethau penodol hefyd ynglŷn ag Argymhellion 10a) ii. a iii. er mwyn nodi'r dull a'r peirianwaith gorau i gefnogi swyddogaethau eiriolaeth a chefnogi mudiadau lleol yn y sector gwirfoddol a chymunedol.

Y Camau Nesaf

Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn datblygu opsiynau yn dilyn yr adolygiad cychwynnol o archwiliadau clinigol i archwilio'r ffordd orau o gefnogi mesurau profiad

cleifion. Bydd yr ymateb yn dibynnu ar gwmpas a graddfa'r gofynion, a'u costau cysylltiedig.

10a) iv) Clefyd y Crymangelloedd a Thalasaemia

10a) iv. Dylid rhoi ystyriaeth benodol, ynghyd â'r UK Thalassaemia Society a'r Sick Cell Society, i'r ffordd orau o fynd i'r afael ag anghenion cleifion sydd â thalasaemia neu glefyd y crymangelloedd yn gyfannol.

Mae Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor.

Mae'n destun gofid, ond yn ddealladwy, fod yr Ymchwiliad wedi clywed gan niferoedd cymharol isel o bobl â thalasaemia neu glefyd y crymangelloedd. Felly, mae'n arbennig o bwysig rhoi ystyriaeth bellach i anghenion y cleifion hyn, fel y gellir mynd i'r afael â hwy.

Llywodraeth y DU

Mae GIG Lloegr wedi llwyddo i sefydlu rhaglen waith gynhwysfawr i flaenoriaethu lleihau risg glinigol, cynyddu cymorth a gofal yn y gymuned, digideiddio cynlluniau gofal a gweithgareddau atal camu i fyny yn dilyn eu hadolygiad o lwybrau gofal clefyd y crymangelloedd a thalasaemia. Mae'r rhaglen waith wedi'i chynllunio i gael ei chyflwyno ar y cyd â'r 10YP, gyda chyllid cychwynnol yn cael ei roi i gefnogi gwaith sy'n canolbwyntio ar wella gofal yn ystod argyfwng aciwt. Bydd angen rhagor o gyllid i weithredu'r polisiau clinigol hyn yn llawn, ac nid yw hyn wedi'i nodi eto. Nod y rhaglen waith yn y pen draw yw gwella canlyniadau ac ansawdd bywyd pobl sydd â thalasaemia neu glefyd y crymangelloedd. Mae'r UK Thalassaemia Society a'r Sick Cell Society yn cymryd rhan yn y rhaglen waith barhaus hon. Mae gan GIG Lloegr Grŵp Cynghori Cleifion SCD ac mae wedi sefydlu Grŵp Cynghori Cleifion Thalasaemia er mwyn i'r ddau randdeiliad allu cydweithio â GIG Lloegr i gydgyhyrchu'r allbynnau.

Llywodraeth yr Alban

Nod Cynllun Gweithredu Clefydau Prin Llywodraeth yr Alban yw gwella'r gofal a'r driniaeth i bobl sy'n byw gyda chyflyrau prin, gan gynnwys cryman-gell a thalasaemia. Mae Llywodraeth yr Alban yn ymgysylltu â rhwydweithiau presennol yn yr Alban, gan gynnwys Rhwydwaith Haemoglobinopathi Oedolion a Phaediatrig yr Alban, i ddeall anghenion y cleifion hyn a nodi cyfleoedd i'w cefnogi ymhellach drwy waith y Cynllun Gweithredu.

Llywodraeth Cymru

Yng Nghymru, sefydlwyd y Gwasanaeth Anaemia Etifeddol: Y Ganolfan Clefyd y Crymangelloedd a Thalasaemia ym 1990 i gynnig gwasanaethau sgrinio, cwnsela a chymorth. Mae'r tîm amlddisgyblaethol yn gweithio gyda byrddau iechyd i sicrhau bod cleifion yn cael gwasanaeth o ansawdd sy'n briodol i'w hanghenion. Mae'r tîm

paediatric yn rhoi gofal o enedigaeth nes bod cleifion yn cael eu trosglwyddo i'r tîm oedolion.

Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon

Mae'r boblogaeth y mae clefydau'r cryman-gell a thalasaemia sy'n byw yng Ngogledd Iwerddon yn effeithio arni yn fach iawn ac fe'i hystyrir yn ardal â nifer isel o achosion. Fodd bynnag, mae'r boblogaeth hon yn ehangu ac felly, mae'r Asiantaeth Iechyd Cyhoeddus ar hyn o bryd yn edrych ar y potensial ar gyfer sgrinio menywod beichiog am glefyd y crymangelloedd a thalasaemia. Ar hyn o bryd, nid oes arbenigwyr clinigol lleol yng Ngogledd Iwerddon, ac felly nid oes unrhyw ymgysylltu. Fodd bynnag, mae Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar waith gydag Ysbyty St Thomas, Llundain.

10a) v) Adborth Cleifion

10a) v. Cymerir camau i roi mwy o amlygrwydd i'r system Cerdyn Melyn ar-lein i'r rhai sy'n cael cyffuriau neu gynhyrchion biolegol, neu sy'n cael eu trallwysu â chhydrannau gwaed.

Mae Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn derbyn yr argymhelliad hwn yn llawn.

Mae'r system Cerdyn Melyn ar-lein ar draws y DU ac felly mae'r argymhelliad hwn wedi cael sylw ledled y DU. Mae'r system Cerdyn Melyn wedi rhoi adborth hollbwysig, ond rydym yn cytuno â'r ymchwiliad bod hyn yn haeddu mwy o gyhoeddusrwydd.

Mae'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Gofal Iechyd (MHRA) ar y cyd â rhaglen SHOT wedi rhoi cynlluniau ar waith ac wedi cytuno ar gwricwlwm lefel uchel i gynnal gweithdai ymwybyddiaeth a hyfforddiant gwaed.

Cyflwynwyd y gweithdai cyntaf i ranbarth Cymru a De-orllewin Lloegr ym mis Ionawr 2025, a threfnwyd i gynnal ail weithdy yn yr Alban ym mis Mai.

Mae straeon defnyddwyr ar gyfer newidiadau i'r llwyfan y Cerdyn Melyn wedi cael eu cymeradwyo ac maen nhw'n cael eu profi i weld a ydyn nhw'n barod i'w derbyn erbyn mis Medi 2025. Bydd cyfarfod cwrpasu i gyflawni'r newidiadau'n derfynol yn cael ei drefnu.

Mae rhagor o weithgareddau hyrwyddo ar y gweill drwy ddiweddariadau i lwyfan y Cerdyn Melyn ar-lein, yn ogystal â bwletinau a digwyddiad sydd ar y gweill i nodi 60 mlynedd ers sefydlu'r llwyfan. Roedd digwyddiadau i nodi 60 mlynedd ers sefydlu'r Cerdyn Melyn yn rhoi cyhoeddusrwydd i swyddogaeth cerdyn melyn yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd. Bydd rhagor o gyfleoedd yn cael eu creu o ddigwyddiadau yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd a gwahoddiadau i gynadleddau lle mae'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd yn siarad i godi ymwybyddiaeth a chynnig addysg bellach am y cynllun Cerdyn Melyn o ran gwaed, gweithio gyda sefydliadau cleifion, partneriaid gofal iechyd eraill a Cholegau Brenhinol.

11) Ymateb i alwadau am Ymchwiliad Cyhoeddus

11a. Y dylai gweinidog gadw'r pŵer i alw ymchwiliad os yw'r gweinidog yn meddwl bod hynny'n addas, yn unol â Deddf Ymchwiliadau 2005 - ond lle nad yw gweinidog yn dewis gwneud hynny, yna:

11b. Os oes digon o gefnogaeth yn y Senedd i gynnal ymchwiliad, dylid cyfeirio'r cwestiwn a ddylid cael un at y Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol er mwyn iddo ystyried y cwestiwn.

11c. Os yw'n ymddangos i'r Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol bod digon o bryder i gyfiawnhau ymchwiliad cyhoeddus, naill ai oherwydd yr hyn a ddigwyddodd a pham sydd wedi achosi pryder (fel y mae'r pwyllgor yn ei weld) neu oherwydd ei bod yn debygol y bydd gwersi'n cael eu dysgu a allai atal pryderon tebyg rhag codi yn y dyfodol, efallai y bydd y pwyllgor yn argymhell i weinidog priodol y dylid cynnal ymchwiliad.

11d. Os bydd y Gweinidog yn anghytuno â'r argymhelliad, rhaid iddo nodi'n fanwl a chyhoeddi rhesymau dros yr anghytundeb hwn sy'n ddigon i fodloni'r Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol bod y mater wedi cael ei ystyried yn ofalus ac yn briodol.

Mae Llywodraeth y DU yn derbyn yr argymhellion hyn mewn egwyddor.

Llywodraeth y DU

Mae'n amlwg bod gwaed a chynhyrchion gwaed wedi'u halogi, ac er gwaethaf cyfoeth o dystiolaeth, ni chymerwyd unrhyw gamau i egluro'r risgiau, ac ni chymerwyd digon o ragofalon. Mae hefyd yn amlwg, er gwaethaf y methiannau hyn, na chymerwyd camau priodol i ymchwilio a deall beth oedd wedi digwydd. Yn ddealladwy, mae nifer o gyfranogwyr yr Ymchwiliad wedi galw am broses gydnabyddedig wrth benderfynu a ddylid cynnal ymchwiliad cyhoeddus i fater a allai fod o bryder i'r cyhoedd, neu y gellid dysgu gwersi ohono.

Mae'r Ymchwiliad yn argymhell y dylai Senedd y DU fod â rôl yn argymhell sefydlu ymchwiliad cyhoeddus, ac y dylai Gweinidogion nodi'r rhesymau y tu ôl i benderfyniad i beidio â chynnal Ymchwiliad. Mae'r Llywodraeth yn croesawu'r argymhellion hyn, gan gydnabod bod gan Bwyllgorau Dethol Seneddol eisoes y pŵer i graffu ar adrannau a gwneud argymhellion, a mater i'r Senedd yw ystyried yr argymhellion hyn.

Mae'r Llywodraeth hefyd yn nodi bod yr adroddiad diweddar gan Bwyllgor Ymchwiliadau Tŷ'r Arglwyddi yn argymhell 'y dylai monitro gweithredu ffurfiol gael ei gynnal gan bwyllgor Seneddol dethol newydd ar y cyd: y Pwyllgor Ymchwiliadau Cyhoeddus.' Felly, er ein bod yn nodi'r argymhellion a wnaed gan yr Ymchwiliad,

mater i'r Senedd yw penderfynu a ddylid derbyn yr argymhellion hyn, a phenderfynu sut i gyflawni argymhelliad 11 ochr yn ochr â'i mecanweithiau craffu presennol.

Os bydd y Senedd yn penderfynu mabwysiadu argymhelliad 11, mae'r Llywodraeth yn derbyn ei rhwymedigaeth o dan 11d), i nodi'n fanwl a chyhoeddi rhesymau pan fydd yn anghytuno ag argymhelliad i sefydlu ymchwiliad.

Y Camau Nesaf

Cyhoeddwyd ymateb y Llywodraeth i argymhellion Pwyllgor Ymchwiliadau Statudol Tŷ'r Arglwyddi ar 10 Chwefror. Yn ei hymateb, ymrwymodd y Llywodraeth i roi diweddariad pellach i'r Senedd ar ei bwriad i ddiwygio'r fframweithiau sy'n ymwneud ag ymchwiliadau yn ehangach.

12) Gweithredu Argymhellion yr Ymchwiliad hwn

12a. O fewn y 12 mis nesaf, dylai'r Llywodraeth ystyried a naill ai ymrwymo i weithredu'r argymhellion a wnaef, neu roi rheswm digonol, mewn digon o fanylder i bobl eraill ddeall, pam nad ystyrir ei bod yn briodol gweithredu unrhyw un neu fwy ohonynt.

12b. Yn ystod y cyfnod hwnnw, a chyn diwedd y flwyddyn hon - dylai'r Llywodraeth adrodd yn ôl i'r Senedd ynghylch y cynnydd a wnaed o ran ystyried a gweithredu'r argymhellion.

12c. Ni ddylai'r amserlen hon amharu ar ystyriaeth ac ymateb cynharach i Argymhellion Ail Adroddiad Interim yr Ymchwiliad.

Mae argymhellion 12) a-c) yn cael eu derbyn yn llawn gan Lywodraeth y DU.

12d. Dylai'r Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol adolygu'r cynnydd tuag at ymateb i argymhellion yr Ymchwiliad ac, i'r graddau y cânt eu derbyn, gweithredu'r argymhellion hynny.

12e. Dylai Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol dderbyn y rôl ynglŷn ag unrhyw ymchwiliad statudol yn y dyfodol i adolygu amserlen y Llywodraeth ar gyfer ystyried argymhellion, a'i chynnydd tuag at weithredu argymhellion yr ymchwiliad hwnnw.

Mae argymhellion 12) d-e) yn cael eu derbyn mewn egwyddor gan Lywodraeth y DU.

Llywodraeth y DU

Mae'r Llywodraeth yn deall bod yr oedi ar ran llywodraethau olynol i roi sylw i'r angen i gynnal ymchwiliad cyhoeddus i'r mater hwn wedi arwain at golli ymddiriedaeth sylfaenol mewn awdurdod i'r rheini sydd wedi cael eu heintio a'u heffeithio. Mae'r argymhellion a wnaed yn adroddiad mis Mai 2024 yr Ymchwiliad yn cael eu cymryd o ddifrif, gyda gwaith yn cael ei wneud ar draws Whitehall, gyda llywodraethau datganoledig a chyrrff allanol i graffu arnynt a mynd i'r afael â nhw i gyd yn llawn.

Roedd Diweddariad y Llywodraeth ym mis Rhagfyr 2024 yn cyflawni'r rhwymedigaethau a nodir yn argymhelliad 12b). Y ddogfen hon yw ymateb cynhwysfawr y Llywodraeth ar weithredu argymhellion holl weinyddiaethau'r DU. Mae'n disodli'r ddogfen honno ac yn cyflawni'r rhwymedigaethau a nodir yn argymhelliad 12a.)

Fis Awst 2024, cyhoeddwyd crynodeb o'r Cynllun lawndal Gwaed Heintiedig gennym. Mae'r manylion a nodir yn argymhelliad 1 yn cyflawni'r rhwymedigaeth ffurfiol i ymateb i'r argymhellion a wnaed yn yr Ail Adroddiad Interim. Fodd bynnag, fel rydym wedi'i amlinellu, cafodd y sefyllfa o ran lawndal ei llywio nid yn unig gan yr

Ail Adroddiad Interim, ond hefyd gan ddadl seneddol, ymgysylltu â'r Grŵp Arbenigol ac ymgysylltu â'r gymuned, dan arweiniad Syr Robert Francis.

Mae'r Llywodraeth yn derbyn yr egwyddorion y tu ôl i argymhellion 12d) a 12e), ac yn nodi mai'r Senedd sydd i'w hystyried. Ochr yn ochr ag ymateb Llywodraeth y DU i adroddiad Pwyllgor Ymchwiliadau Statudol Tŷ'r Arglwyddi, mae Llywodraeth y DU wrthi'n ystyried lle mae modd gwneud diwygiadau ehangach i'r fframweithiau y mae ymchwiliadau'n cael eu sefydlu, eu cynnal a'u cwblhau ynddynt. Fel rhan o hyn, bydd Llywodraeth y DU hefyd yn edrych ar y ffordd orau o sicrhau tryloywder ac atebolrwydd mwy effeithiol o ran yr ymateb i argymhellion yr ymchwiliad a gweithredu'r rheini sy'n cael eu derbyn. Bydd y Llywodraeth yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd wrth i'r gwaith hwn fynd rhagddo.

Y Camau Nesaf

Wrth i gynnydd barhau yn erbyn argymhellion yr Ymchwiliad, bydd arweinwyr perthnasol y llywodraeth yn adrodd ar yr argymhellion y maent yn gyfrifol amdanynt. Rydym wedi ymrwymo i dryloywder ac atebolrwydd, a byddwn yn cyhoeddi cynnydd y Llywodraeth drwy ddangosfwrdd sydd ar gael i'r cyhoedd maes o law, a fydd yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd wrth i gynnydd fynd rhagddo.

Dolenni defnyddiol (Saesneg yn unig)

- Sir Robert Francis' Compensation Study
- Infected Blood Inquiry First Interim Report
- Infected Blood Inquiry Second Interim Report
- Infected Blood Inquiry Response Expert Group Final Report
- Infected Blood Inquiry Adroddiad Mai 2024
- Mae rhagor o fanylion am y Cynllun lawndal Gwaed Heintiedig ar gael yn <https://www.gov.uk/government/publications/infected-blood-compensation-scheme-summary-august-2024/infected-blood-compensation-scheme-summary-august-2024>
- Mae rhagor o fanylion am waith yr Awdurdod lawndal am Waed Heintiedig ar gael yn <https://www.gov.uk/government/organisations/infected-blood-compensation-authority>
- Gwefan yr Awdurdod lawndal am Waed Heintiedig
- Gwefan yr Ymchwiliad Gwaed Heintiedig
- Cyfnewid llythyrau ar argymhelliad 6 ([gweler yma ar wefan yr Ymchwiliad](#)).
- Scottish Government's Rare Disease Action Plan

E03353959

978-1-5286-5693-1